# Asesiad Annibynnol
# o Effaith Ieithyddol
# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
# Gwynedd a Môn

**hanfod**
Ymgynghoriaeth iaith a gwasanaethau golygyddol
Mehefin 2016

# Rhagair

Lluniwyd yr asesiad annibynnol hwn ar gais pedwar o fudiadau ymgyrchu dros gynnal a chryfhau'r Gymraeg, sef Cylch yr Iaith, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Dyfodol i'r Iaith a Chanolfan Hanes Uwchgwyrfai.

Roedd eu cais yn dilyn awgrym a wnaed gan y Cynghorydd Ann Griffith o Gyngor Sir Ynys Môn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y cyd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2016, a phenderfyniad gan Gyngor Gwynedd mewn Cyfarfod Arbennig ar 18 Mawrth 2016 i ymgynghori ar ffyrdd o asesu effaith Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn ar y Gymraeg.

Mae'r asesiad hwn yn cynnwys cyfeiriadau at dwy ddogfen arall, sef Dadansoddiad Ystadegol o'r Gymraeg yng Ngwynedd a Dadansoddiad Ystadegol o'r Gymraeg ym Môn.

Mae'r asesiad yn adeiladu ar gynnwys yr asesiadau o effaith ieithyddol a baratowyd gan Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd cynghorau Gwynedd a Môn. Cyhoeddwyd yr asesiad yn wreiddiol ym mis Chwefror 2015, a'i ailgyhoeddi gyda rhai mân addasiadau ym mis Mawrth 2016. Fel y mae'r asesiadau hynny'n cydnabod, mae'r "maes asesiadau ieithyddol yn bwnc trafod ac yn arbenigedd sy'n dal i ddatblygu, yn enwedig yng nghyd-destun Cynlluniau Datblygu".

Bwriad yr asesiad hwn yw cyfrannu at y broses honno, er mwyn helpu sicrhau y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar wybodaeth fanwl a dadansoddiad trwyadl.

Hyderir y bydd yr wybodaeth ynddo hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad cynllunio ieithyddol yng ngogledd-orllewin Cymru a thrwy hynny at ddyfodol y Gymraeg yn ei chadarnleoedd cryfaf.

Huw Prys Jones
Mehefin 2016

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Methodoleg | 5 |
| Poblogaeth a'r Gymraeg | 6 |
| Niferoedd tai | 8 |
| Effaith mewnfudo ar y Gymraeg | 14 |
| Asesiad effaith ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 18 |
| Dosbarthiad twf Gwynedd | 21 |
| Dobarthiad twf Môn | 38 |
| Crynodeb a Chasgliadau | 48 |

# Cyflwyniad

Mae Gwynedd a Môn yn gwbl allweddol i ddyfodol y Gymraeg, ac mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o gymeriad a threftadaeth unigryw'r ddwy sir.

O fewn Gwynedd a Môn y mae ardaloedd Cymreiciaf Cymru, sy'n ffurfio prif ardal graidd a chnewyllyn cadarnaf y Gymraeg. Ac mae'r ffaith mai dyma'r unig ddwy sir yng Nghymru bellach lle mae mwyafrif o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yn rhoi arwyddocâd mwy fyth iddynt.

Yn hytrach na phentyrru gormod o ystadegau yma, awgrymir darllen yr asesiad hwn law yn llaw â'r dadansoddiadau ystadegol o'r ddwy sir, dogfennau y cyfeirir atynt o bryd i'w gilydd.

Da yw gweld ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd sicrhau cynnydd ieithyddol yng nghadarnleoedd y Gymraeg yn ogystal ag mewn ardaloedd mwy Seisnig. Ac mae strategaeth iaith Cyngor Gwynedd yn haeddu clod am osod nod uchelgeisiol o gynnydd o 5 pwynt canran yn y gyfran o bobl y sir sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn Cyfrifiad 2021.

Mae cynnal a chryfhau'r Gymraeg yn cael ei nodi ymysg amcanion allweddol y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd hefyd, a'r un mwyaf arwyddocaol yw SO4, sef y "bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu at greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg".

Rhan o dasg yr asesiad hwn yw barnu i ba raddau y mae cynigion y Cynllun yn debygol o gyfrannu at hynny.

# Methodoleg

Wrth geisio darogan effaith unrhyw ddatblygiadau tai ar y Gymraeg mae sawl elfen i'w hystyried.

Effaith y datblygiadau hyn ar nifer y boblogaeth yw'r elfen bwysicaf, ac mae llawer o wybodaeth berthnasol i'w gael o ystadegau Cyfrifiad 2011 sy'n dangos poblogaethau a niferoedd aelwydydd. Mae modd defnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o faint cyfartalog aelwydydd erbyn 2026 er mwyn cael sail ar gyfer amcangyfrif poblogaethau erbyn y flwyddyn honno. Ymdrinnir yn fanylach ag amcangyfrif poblogaethau wrth edrych ar y ddwy sir ar wahân.

Y cam nesaf wedyn yw ceisio darogan beth fydd effaith y cynnydd mewn poblogaeth ar y niferoedd, a'r canrannau, sy'n gallu siarad Cymraeg. Er bod tystiolaeth bendant ynglŷn â hyn yn brin, mae rhywfaint o wybodaeth berthnasol y gellir ei ddefnyddio:

- mae gwybodaeth ar gael yn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch y rhagolygon am dwf naturiol yn y boblogaeth, a'r graddau y bydd unrhyw dwf poblogaeth yn dibynnu ar fewnfudo.
- gellir hefyd edrych ar y tueddiadau demograffig a dadansoddi'r newid ieithyddol a ddigwyddodd yn eu sgil dros y blynyddoedd diwethaf wrth bwyso a mesur effeithiau tebygol newidiadau mewn poblogaeth dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn mai tueddiadau mudo yn y gorffennol sy'n cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth fel y brif sail ar gyfer darogan tueddiadau yn y dyfodol. Yn yr un modd, mae'r dadansoddi'r newidiadau poblogaeth a'r tueddiadau ieithyddol yn y gorffennol yn rhoi sail werthfawr o wybodaeth inni ar gyfer asesiadau fel hwn.

Wrth asesu effaith ieithyddol tebygol unrhyw ddatblygiad newydd, dylid nodi mai'r newid cyffredinol mewn poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod y ffactor allweddol, yn hytrach na phwy yn hollol fydd yn prynu unrhyw dai newydd a gaiff eu codi. Fel y nodir yn y ddogfen Poblogaeth a Thai, rhaid cofio bob amser mai tai sy'n bod eisoes yn hytrach na thai newydd sy'n cyfrif am tua 90% o'r holl werthiannau. Felly, hyd yn oed petai pob tŷ newydd yn cael eu prynu gan deuluoedd lleol, gallai hynny yn ei dro beri bod tai eraill yn mynd ar y farchnad gan hyrwyddo rhagor o fewnfudiad o bobl ddi-Gymraeg. Yn yr un modd, ni fyddai datblygiad a fyddai'n denu rhagor o bobl sy'n siarad Cymraeg i ardal benodol yn rhywbeth cadarnhaol o angenrheidrwydd bob amser os bydd hynny'n arwain at golledion siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd cyfagos.

Mae'n holl bwysig felly edrych ar effeithiau anuniongyrchol posibl yn ogystal ag ar effeithiau uniongyrchol mewn ardaloedd penodol.

Bwriedir ymdrin yn gyntaf â'r nifer o dai yr argymhellir eu caniatáu yng Ngwynedd ac ym Môn, cyn troi i edrych ar ddosbarthiad arfaethedig y tai hynny o fewn y ddwy sir.

# Poblogaeth a'r Gymraeg

Ymhlith y casgliadau a ddaw i'r amlwg yn y dadansoddiadau ystadegol o'r ddwy sir, y mae'r ffaith mai newid poblogaeth yw'r prif ffactor yn y dirywiad yn y Gymraeg yn y gogledd-orllewin. Yn y mwyafrif o ardaloedd y ddwy sir, y broblem fwyaf sy'n wynebu'r iaith yw pobl gynhenid Gymraeg eu hiaith yn symud allan a phobl eraill ddi-Gymraeg o'r tu allan yn cymryd eu lle. I raddau helaeth, yr hyn sy'n digwydd mewn termau cymdeithasegol-ieithyddol yw mai shifft poblogaeth yw'r ffactor sy'n cyfrannu fwyaf at y shifft iaith yn yr ardaloedd hyn.

Er bod niferoedd y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd a Môn wedi dal eu tir yn bur dda – yn llawer gwell nag mewn sawl rhan arall o Gymru – mae cynnydd yn y boblogaeth gyffredinol wedi arwain at leihad cyson yn y canrannau sy'n gallu siarad yr iaith.

Mae'r patrwm hwn o gynnydd yn y boblogaeth gyffredinol a gostyngiad yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg i'w weld mewn ardaloedd helaeth ledled y ddwy sir dros y blynyddoedd ac yn wir y degawdau diwethaf. Mae hyn yn rhywbeth na ellir ei anwybyddu wrth ystyried unrhyw gynnydd tebygol mewn poblogaeth yn y dyfodol.

Pe bai cynnydd mewn poblogaeth o ganlyniad i fewnfudo yn debygol o arwain at gynnydd yn y niferoedd a'r canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn y ddwy sir, byddai'n sicr o fod yn rhywbeth i'w groesawu. Yn ôl yr Arolwg o'r Defnydd o'r Gymraeg gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg[1] y llynedd, mae siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o fod yn defnyddio'r iaith bob dydd yn y siroedd Cymreiciaf, ac o'r herwydd byddai unrhyw gynnydd yn y ddwy sir hyn yn debygol o gael mwy o effaith cadarnhaol ar y defnydd o'r iaith nag mewn rhannau eraill o Gymru.

Er yn derbyn y gellid dychmygu rhai datblygiadau a allai hwyluso cynnydd o'r fath o dan yr amodau iawn, mae'r patrwm hanesyddol yn awgrymu'n gryf mai cynnydd yn y boblogaeth ddi-Gymraeg yw canlyniad mwyaf tebygol unrhyw fewnfudo i'r ddwy sir.

Mae ystyriaethau rhesymegol hefyd yn cadarnhau hyn. Fel yr unig ddwy sir lle mae mwyafrif o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, byddai unrhyw fewnfudo ar hap, hyd yn oed o rannau eraill o Gymru, yn debygol o olygu mai di-Gymraeg fyddai mwyafrif y mudwyr. Unwaith yr ymestynnir y rhwyd y tu allan i Gymru, mae'r mwyafrif llethol yn debygol o fod yn ddi-Gymraeg.

Yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb, mae'n anodd rhagweld mewnfudo'n cyfrannu at gynyddu'r canrannau sy'n siarad Cymraeg yn y ddwy sir.

Nid yw'r ystyriaethau hyn ynddynt eu hunain yn ddadl yn erbyn codi unrhyw dai newydd, gan fod angen ymateb i alw lleol, a chan fod maint aelwydydd yn mynd yn llai ar gyfartaledd. Cydnabyddir hefyd na fydd rhwystro codi tai newydd ychwaith yn

[1] Arolwg o'r defnydd o'r Gymraeg. Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, Tachwedd 2015

ffordd o rwystro mewnfudiad, gan mai gwerthiannau tai a godwyd eisoes yw mwyafrif llethol y gwerthiannau tai yn y ddwy sir. Fodd bynnag, mae tystiolaeth y gorffennol ledled Cymru'n awgrymu'n gryf y gall caniatáu gormodedd o dai gyfrannu'n helaeth at waethygu'r sefyllfa.

# Niferoedd tai

Mae ardal y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys y cyfan o Sir Fôn, a'r rhannau hynny o Wynedd sydd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n gyfrifol am bolisi cynllunio o fewn ei ardal.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn yn bwriadu agor y drws i ddatblygu cyfanswm o 7,902 o gartrefi newydd rhwng y ddwy sir rhwng 2011 a 2026 (sef cyfnod y Cynllun). Mae'n seiliedig ar ffigur sylfaenol o 7,184 gydag ychwanegiad o 10% o'r hyn a elwir yn 'lwfans llithriad'.

O'r rhain, bwriedir lleoli 4,084 ohonynt yng Ngwynedd a 3,817 ym Môn, gyda'r nifer ar gyfer Gwynedd yn ychwanegol at tua 750 o dai yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

O'r cyfanswm o 7,902 o dai, bwriedir eu lleoli fel a ganlyn:

- 4,346 yn y prif drefi, sef Caergybi, Llangefni, Amlwch, Bangor, Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog.
- 1,580 yn y canolfannau lleol;
- 1,502 mewn pentrefi penodol;
- 224 mewn clystyrau (pentrefi bach gwledig)
- 250 yng nghefn gwlad.

Wrth farnu effaith tebygol hyn ar y Gymraeg, y cam cyntaf yw amcangyfrif effaith hyn ar y boblogaeth.

Fel y nodir yn y ddau broffil ieithyddol, mae yma batrwm wedi datblygu o boblogaeth gynhenid, sy'n bennaf Gymraeg ei hiaith, yn symud allan, a phobl eraill, y mwyafrif yn ddi-Gymraeg ac o'r tu allan i Gymru, yn symud i mewn.

Gall hyn ddigwydd, ac mae hyn yn digwydd, mewn sawl ardal, heb unrhyw gynnydd mewn poblogaeth. Yn wir, gall hefyd ddigwydd hyd yn oed os yw'r boblogaeth yn lleihau. Fodd bynnag, os oes eisoes dueddiad o bobl gynhenid yn symud allan a phobl eraill yn symud i mewn, anodd gweld sut na fydd cynnydd yn y boblogaeth yn debygol o wneud y sefyllfa'n waeth.

Nid yw hyn yn diystyru'r posibilrwydd y bydd rhai o'r bobl hyn yn dysgu Cymraeg; ar y llaw arall mae i ormod o fewnfudwyr gyrraedd mewn cyfnodau rhy fyr yn llesteirio'r gwaith o ddysgu Cymraeg iddynt. Mae hefyd lawer o ffactorau yn gwrthweithio'r ymdrechion i gymell pobl ddi-Gymraeg i ddysgu a defnyddio'r iaith, gan gynnwys presenoldeb parhaus y Saesneg ym mhob agwedd o fywyd. Rhaid deall hefyd mai po fwyaf o bobl ddi-Gymraeg sy'n symud i mewn i ardal benodol, y lleiaf fydd y cymhelliad i ddysgu Cymraeg.

Mae'n deg dweud hefyd nad mater o ystadegau moel mewn niferoedd sy'n siarad Cymraeg yw hyn ond fod newidiadau gormodol mewn poblogaeth yn gallu arwain at

weddnewid cymeriad diwylliannol ardaloedd. Yma yn y gogledd-orllewin, Cymreictod y cymunedau yw'r hyn sy'n eu gwneud yn unigryw ac mae'n rhan annatod o'u cymeriad.

O graffu ar y ddogfen Poblogaeth a Thai[2] ac adroddiad gan gwmni Edge Analytics o Leeds ar amcanestyniadau poblogaeth, ymddengys bod y tai newydd a fwriedir ar gyfer Gwynedd i raddau helaeth yn ymateb i dwf a ragwelir yn y boblogaeth, a bod y tai newydd ym Môn yn rhan o ymdrech i hybu twf yn y boblogaeth yno dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'n synhwyrol felly ymdrin â'r ddwy sir ar wahân.

**Gwynedd**

Cododd poblogaeth Gwynedd o 116,843 yn 2001[3] i 121,874 yn 2011[4]; sy'n gynnydd o 5,031 mewn 10 mlynedd. Yn yr un cyfnod, gostyngodd nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg o 77,830 i 77,000. Gostyngiad bach iawn yw hyn o ran niferoedd, ond o'i gyplu â'r cynnydd yn y boblogaeth mae'n cynrychioli 3.5 pwynt canran o ddirywiad yn y ganran sy'n gallu siarad Cymraeg – o 68.9% i 64.5%[5]. Mae'r dirywiad hwn yn llawer gwaeth mewn rhai rhannau o'r sir na'i gilydd – er y dylid nodi yma hefyd fod y cynnydd anferthol mewn myfyrwyr ym Mangor wedi ystumio rhywfaint ar y darlun drwy'r sir.

Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, bydd poblogaeth Gwynedd yn 127,600 erbyn canol 2026 (sef diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol). Nodir hyn fel cynnydd o 5.0% yn y boblogaeth.

Er na fwriedir ymhelaethu'n ormodol am yr holl ystadegau ynghylch poblogaeth a geir mewn amryfal gyhoeddiadau, mae'n werth crybwyll y fethodoleg sydd y tu ôl i'r ffordd yr amcangyfrifir gwahanol anghenion am dai.

Mae ffigurau'r Cyfrifiad yn dangos nifer o aelwydydd (households) yn y sir, yn ogystal â'r boblogaeth. Dangosir hefyd nifer y bobl sy'n byw ar yr aelwydydd hynny, a'r nifer oedd yn byw mewn sefydliadau cymunedol (gall y rhain gynnwys sefydliadau fel cartrefi preswyl i'r henoed a neuaddau preswyl i fyfyrwyr). O rannu nifer yr aelwydydd â nifer y boblogaeth ynddynt, ceir rhif ar gyfer maint cyfartalog aelwydydd.

Yn ôl ffigurau Cyfrifiad 2011, roedd 117,974 o boblogaeth Gwynedd yn byw ar aelwydydd, a 3,900 arall yn byw mewn sefydliadau cymunedol. Cyfanswm aelwydydd y sir oedd 52,473.

---

[2] Papur Testun 3: Poblogaeth a Thai, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn
[3] Tabl UV001, Cyfrifiad 2001, ONS
[4] Tabl QS101EW, Cyfrifiad 2011, ONS. Er mwyn cysondeb, defnyddir ffigurau'r cyfrifiad drwy gydol yr asesiad hwn. Mae rhai o ddogfennau'r Uned Bolisi ar y Cyd yn defnyddio ffigurau amcangyfrifon canol blwyddyn, sy'n amrywio fymryn, ond nid yw'r amrywiaeth yn ddigon i fod o arwyddocâd ystadegol wrth drafod canrannau.
[5] Caiff y canrannau sy'n siarad Cymraeg eu cyfrifo ar sail cyfanswm y boblogaeth dros 3 oed

Y tueddiad cyffredinol yw bod meintiau cyfartalog aelwydydd wedi lleihau’n raddol dros y blynyddoedd, o 2.43 yn 1991 i 2.31 yn 2001, i 2.24 yn 2011. Eto i gyd, mae’r cyfartaledd o 2.24 yng Ngwynedd yn llai na’r cyfartaledd o 2.31 trwy Gymru. Yn ôl amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, mae disgwyl i faint cyfartalog aelwyd ddisgyn eto i 2.18 yng Ngwynedd a 2.23 yng Nghymru. Un o’r rhesymau pam fod dwysedd poblogaethau aelwydydd yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru yw’r ffaith fod cyfran uchel o bobl hŷn yn golygu tebygolrwydd uwch o wŷr a gwragedd gweddw yn byw ar eu pennau eu hunain.

Faint bynnag y gall rhywun amau dilysrwydd amcanestyniadau o’r fath, maent yn cynnig methodoleg ar gyfer amcangyfrif oblygiadau codi niferoedd penodol o dai mewn gwahanol ardaloedd ar boblogaethau’r ardaloedd hynny. Gan gydnabod mai amcanestyniadau yn unig ydynt, bwriedir defnyddio’r un fethodoleg yn yr asesiad hwn wrth geisio darogan effeithiau tebygol ar y Gymraeg. I’r diben o amcangyfrif poblogaeth yn 2026, defnyddir y ffigur o 2.18 fel maint cyfartalog aelwyd wrth edrych ar y sir gyfan, er y bydd rhaid addasu’r ffigur wrth edrych ar rai ardaloedd unigol.

Mae’r Llywodraeth yn cydnabod bod amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig i raddau helaeth ar batrymau demograffig y presennol a’r gorffennol.

Mae mwy nag un rheswm fodd bynnag pam na ddylir derbyn amcanestyniadau poblogaeth fel yr unig faen prawf ar gyfer pennu’r niferoedd o dai y dylid darparu ar eu cyfer. Gallai cynnydd mewn poblogaeth mewn blynyddoedd a fu mewn rhai mannau fod yn rhannol o ganlyniad i godi darpariaeth ormodol o dai; gellir yn sicr ddadlau bod hyn yn wir am rannau helaeth o arfordir gogledd-ddwyrain Cymru yn y gorffennol.

Mwy perthnasol fyth yn achos y Cynllun hwn, fodd bynnag, yw gofyn i ba raddau y byddai’r cynnydd mewn poblogaeth a welwyd rhwng 2001 a 2011 yng Ngwynedd yn debygol o gael ei ailadrodd dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae poblogaethau cyfartalog aelwydydd Gwynedd eisoes yn is na’r hyn yw yng ngweddill Cymru – 2.24 o gymharu â 2.31 yng Nghymru ar gyfartaledd[6]. Mae’n ddigon posibl bod yr amcanestyniad o leihau eto i 2.18 erbyn 2026 yn gor-amcangyfrif y nifer o aelwydydd newydd y bydd eu hangen.

Mwy arwyddocaol na hyn yw’r graddau y mae’r cynnydd yn nifer y myfyrwyr ym Mangor rhwng 2001 a 2011 wedi dylanwadu ar ffigurau poblogaeth y sir yn y ddau Gyfrifiad. Bu cynnydd o tua 3,000 yn nifer y myfyrwyr llawn-amser (rhai economaidd weithgar ac anweithgar) a gyfrifiwyd ym Mangor yn 2011 o gymharu â 10 mlynedd ynghynt[7]; bu cynnydd o tua 1,000 hefyd yn y nifer o bobl a oedd yn byw mewn ‘sefydliadau cymunedol’ ym Mangor dros yr un cyfnod[8].

[6] Poblogaeth a Thai, Papur Testun 3 Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Chwefror 2015, para 6.2
[7] ONS tablau KS103 a KS501EW
[8] ONS tablau UV071 a QS421EW. Neuaddau preswyl myfyrwyr sy’n cyfrif am fwyafrif llethol poblogaethau’r categori hwn o lety.

Mae'r cynnydd hwn yn nifer y myfyrwyr yn fwy na chyfanswm y cynnydd ym mhoblogaeth Bangor rhwng 2001 a 2011.

Pam fod hyn yn arwyddocaol? Mewn sir denau ei phoblogaeth mae nifer y myfyrwyr yn cyfrif am gyfran anghymesur o uchel o'i phoblogaeth. Yn sicr, mae'n ddigon i godi cwestiynau am addasrwydd defnyddio twf blynyddoedd a fu fel sail ar gyfer amcangyfrif yn y dyfodol.

Mae'r ffaith fod Cyfrifiad 2001 wedi cael ei gynnal yn ystod gwyliau Pasg y Brifysgol, tra bod Cyfrifiad 2011 yn ystod y tymor yn sicr o fod wedi dylanwadu ar y ffigurau hyn. Hyd yn oed a derbyn bod y Brifysgol wedi ehangu dros yr un cyfnod, mae lle i amau a fydd yn dal i ehangu ar yr un graddau dros y 10 mlynedd nesaf.

Daw hyn â ni at wendid arall amcanestyniadau Llywodraeth Cymru fel sail ar gyfer polisi cynllunio – sef mai amcangyfrifon amrwd ydynt ar sail siroedd cyfan ac nid oes ystyriaeth ynddynt o anghenion lleol am dai mewn ardaloedd penodol o fewn y sir. Unwaith eto, mae hyn yn fwy gwir am sir helaeth ei harwynebedd ond gwasgarog ei phoblogaeth fel Gwynedd nag am siroedd mwy trefol yn y de-ddwyrain.

Yr hyn y byddai rhywun yn dymuno'i weld fyddai polisi cynllunio lle byddai cyfanswm nifer y tai newydd drwy'r sir yn seiliedig ar yr hyn a fernid yn addas ar gyfer y gwahanol ardaloedd o'i mewn, yn hytrach na bod cyfanswm o dai yn cael ei bennu ar gyfer y sir, a'r tai hynny wedyn yn cael eu dosbarthu rhwng gwahanol ardaloedd. Gellid dadlau y byddai hynny'n well trefn ar gyfer pob sir yng Nghymru; ond yn sicr mae lle cryfach fyth i ddadlau fod angen i Wynedd a Môn gael eu trin fel achosion arbennig yn hyn o beth.

Fel y nodwyd eisoes, amcangyfrifir cynnydd o 5% ym mhoblogaeth Gwynedd erbyn 2026. Yn ôl yr amcanestyniadau ar wefan Stats Cymru, mae disgwyl y bydd nifer aelwydydd Gwynedd wedi cynyddu i 56,700 erbyn y flwyddyn honno. Mae hynny'n gyfystyr â chynnydd o 4,300 yn nifer yr aelwydydd, sy'n llai na'r cyfanswm a geid pe ychwanegid y dyraniad o 750 o dai yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri at y 4,084 o dai o dan y Cynllun Datblygu Lleol hwn. Pe bai'r holl dai hyn yn cael eu codi felly, gallai olygu cynnydd mwy na'r 5% a amcangyfrifir.

Bwriedir ymdrin â'r dyraniad tai i ardaloedd unigol mewn adrannau diweddarach.

**Sir Fôn**

Yn wahanol i'r hyn a wneir ar gyfer Gwynedd, nid yw amcanestyniadau Llywodraeth Cymru'n darogan unrhyw gynnydd ym mhoblogaeth Môn. Er i boblogaeth yr ynys gynyddu o 67,806 yn 2001 i 69,751 yn 2011, y ffigur yn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yw 69,743.

O ddefnyddio'r amcanestyniadau ar gyfer maint aelwydydd yn 2026, byddai codi 3,817 o anheddau ychwanegol ym Môn yn debygol o arwain at gynnydd o tua 6,000 ym mhoblogaeth yr ynys.

| | |
|---|---|
| Nifer o aelwydydd yn 2011 | 30,594 |
| Nifer o anheddau newydd 2011-2026 | 3,817 |
| Nifer o aelwydydd yn 2026 (30,594+3,817) | 34,411 |
| Amcan o gyfartaledd poblogaeth aelwydydd 2026 | 2.18 |
| Nifer o bobl mewn sefydliadau cymunedol 2011 | 810 |

O luosi nifer aelwydydd 2026 â'r amcan o boblogaeth cyfartalog aelwydydd 2026, ac ychwanegu'r nifer o bobl mewn sefydliadau cymunedol (gan ragdybio dim newid i ddiben yr asesiad hwn), deuwn at y rhif

(34,411 X 2.18)+810 = 75,826

Mae'r cynnydd o tua 6,000 mewn poblogaeth yn cyfateb yn fras i ffigur a awgrymwyd yn adroddiad Edge Analytics ar sail un senario mewn cyfres o ddamcaniaethau sy'n amcangyfrif poblogaeth ar sail twf posibl mewn swyddi.

Mae'n ymddangos fod y cynllun posibl i adeiladu atomfa newydd yn yr Wylfa wedi bod yn ddylanwad allweddol wrth benderfynu ar y nifer o dai.

Ymysg yr amcanion ar gyfer tai a nodir ym mharagraff 9.2 o Bapur Testun 3, Poblogaeth a Thai, mae “cwrdd â'r her o ran cartrefi gweithwyr adeiladu Wylfa”.

Ac yn ôl y Cynllun Adnau, paragraff 5.4:

“Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol.”

Trafodir yr angen am lety i 8,500 o weithwyr adeiladu dros gyfnod o 12 mlynedd ym mharagraff 7.3.9, lle cyfeirir at ddogfen gan Gyngor Sir Fôn ar Atomfa Newydd yr Wylfa. Yn y ddogfen hon, defnyddir amcangyfrif o 6,000 o swyddi adeiladu, gyda 70% o'r swyddi hyn yn cael eu cyflawni gan bobl a fyddai angen llety. Amcangyfrifir ymhellach y byddai tua 10-20% o'r rhain yn symud eu teuluoedd i'r ardal ac y byddai angen 419 o dai parhaol ar eu cyfer. Cydnabyddir hefyd ym mharagraff 4.22 y gallai hyn arwain at gynnydd yn y galw am safleoedd gan adeiladwyr tai.

Nid yw asesiad o effaith atomfa newydd yn yr Wylfa ar y Gymraeg yn rhan o gylch gwaith yr asesiad hwn. Ar yr un pryd, mae dirfawr angen asesiad cynhwysfawr a thrwyadl gan fod gormod o gwestiynau nad ydynt wedi cael eu hateb ynghylch

effaith tebygol datblygiad o’r fath ar boblogaeth yr ynys[9]. Wrth reswm, byddai’n rhaid i’r asesiad hwnnw fod yn un cwbl annibynnol a gwrthrychol; pe bai unrhyw asesiad o’r fath yn cael ei baratoi ar ran y datblygwyr neu’r diwydiant niwclear, er enghraifft, gellid cymryd yn ganiataol y byddai’n gwbl ddiwerth.

Mae lle i amau na roddwyd fawr o sylw hyd yma i effaith datblygiad mor fawr ar y Gymraeg. Yn y papur Atomfa Newydd yr Wylfa, cyfeirir ym mharagraff 2.10 y gallai plant y gweithwyr sy’n symud i’r ardal “wrthweithio’r gostyngiad mewn niferoedd disgyblion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig”, ond ni chyfeirir at unrhyw effeithiau ieithyddol.

Cwestiwn perthnasol arall ynghylch Wylfa Newydd sy’n codi yng nghyd-destun yr asesiad hwn yw beth fydd yn digwydd os na bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen. Mae hyn ymhell o fod yn annhebygol yn wyneb yr anawsterau ynghylch Hinkley C a’r diffyg hyder cyffredinol yn y marchnadoedd arian ynghylch hyfywedd buddsoddiad o’r fath. Mae lle i amau parodrwydd llywodraeth Prydain hefyd i dalu’r math o gymorthdaliadau uchel a fyddai’n bodloni’r buddsoddwyr. Ar adeg ysgrifennu hyn, roedd y Gweinidog Ynni Amber Rudd yn cyhoeddi datganiad yn sicrhau nad oedd datblygiad Hinkley Point yn angenrheidiol i rwystro’r ‘goleuadau rhag diffodd’.

Os na fydd Wylfa Newydd yn digwydd, lle bydd hynny’n gadael y dyraniad tai ar gyfer Sir Fôn? Mae’n wir bod twf swyddi yn cael ei ddarogan ar sail datblygiadau eraill yn y maes ynni a meysydd eraill. Os felly, byddai’n tueddu i gadarnhau dadleuon gwrthwynebwyr ynni niwclear nad oes angen datblygiad mor fawr ar yr ynys, ond dadl arall yw honno. Ar y llaw arall, os na fydd Wylfa Newydd yn cael ei chodi, mae’n tynnu ymaith y sail resymegol dros gyfran o leiaf o’r tai newydd a ddyrannwyd ar gyfer Môn yn y Cynllun Datblygu Lleol.

[9] Mae adroddiad Edge Analytics yn cyfeirio at ddwy senario bosibl arall o effaith atomfa newydd yn yr Wylfa ar boblogaeth yr ynys, y naill yn arwain at gynnydd o 11,736 a’r llall at gynnydd o 21,389 erbyn 2026.

# Effeithiau tebygol mewnfudo ar y Gymraeg

Gan mai amcanestyniadau yn unig yw unrhyw ffigurau am boblogaeth yn y dyfodol, y ffordd orau o ymdrin ag unrhyw effeithiau tebygol ar y Gymraeg yw trwy gynnig amrediad o sefyllfaoedd damcaniaethol ar sail canrannau penodol o gynnydd mewn poblogaeth.

Yn ogystal ag ystyried gwahanol raddfeydd o dwf mewn poblogaeth, mae angen ystyried achos y twf, ac os mai mewnfudo sy'n bennaf gyfrifol, mae angen ystyried natur y mewnfudo.

Yn achos Gwynedd a Môn, mae rhywfaint o dwf naturiol yn cael ei ddarogan ar gyfer Gwynedd at flynyddoedd olaf y Cynllun Datblygu Lleol, ond rhagwelir y bydd newid naturiol yn negyddol ym Môn ar gyfer pob blwyddyn. Mae'n werth nodi hefyd nad yw Gwynedd ychwaith wedi profi unrhyw dwf naturiol dros y blynyddoedd diwethaf.

Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, nid oes ffordd o ddweud i sicrwydd beth fydd union natur mewnfudo[10]. Fel sy'n wir ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth y Llywodraeth, y brif dystiolaeth sydd ar gael yw tueddiadau'r gorffennol diweddar.

O safbwynt y Gymraeg, mae gennym yr wybodaeth ychwanegol hefyd fod cyfran uwch o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd a Môn nag sydd yn unman arall. Oherwydd hyn, yn ôl tebygolrwydd ystadegol, byddai disgwyl i gyfran uwch o bobl sy'n symud i'r ddwy sir fod yn ddi-Gymraeg. Mae gennym hefyd ystadegau'r Cyfrifiad sy'n dangos y cysylltiad rhwng iaith a mannau geni; er bod lleiafrif sylweddol o bobl a aned y tu allan i Gymru'n gallu siarad Cymraeg, mae'r rheini ar y cyfan yn bobl ifanc sy'n debygol o fod wedi bod trwy'r gyfundrefn addysg. Awgryma hyn bod y mwyafrif llethol o bobl a aned y tu allan i Gymru yn ddi-Gymraeg pan gyrhaeddant. Cydnabyddir y gallai mewnfudwyr gynnwys pobl sy'n wreiddiol o Wynedd a Môn sy'n dychwelyd. Yn anffodus, gall ceisio amcangyfrif nifer y rhain fynd â ni i faes dyfalu pur. Y peth pwysig i'w wneud yw cydnabod yr holl amrywynnau posibl wrth gynnig amcanestyniadau.

Mae angen bod yn glir hefyd ynghylch ystyr mewnfudiad net a pheidio â drysu rhwng hyn a mewnfudiad yn gyffredinol. Gall ardal benodol fod yn profi mewnfudiad anferthol, ond os oes allfudiad hefyd, caiff nifer yr allfudwyr ei dynnu o nifer y mewnfudwyr i roi ffigur mewnfudiad net – a all fod yn gadarnhaol neu'n negyddol. Mewn gwirionedd, cysyniad ystadegol syml yw 'mewnfudo net' ac nid yw'n cynrychioli unrhyw garfan benodol o unigolion mewn ardal.

Nid yw ffigurau'r Cyfrifiad yn rhoi gwybodaeth lawn am fewnfudo. Mae tablau ar wefan yr ONS sy'n dangos niferoedd sydd wedi mewnfudo dros y 12 mis blaenorol – ond nid cyfanswm dros y 10 mlynedd fel sy'n arferol gyda mathau eraill o wybodaeth.

[10] Yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, fel mewn astudiaethau poblogaeth yn gyffredinol, oni nodir yn wahanol, mae mewnfudo yn cynnwys unrhyw fewnfudo o'r tu allan i'r ddwy sir.

Eto i gyd, mae gwybodaeth ddefnyddiol yn un neu ddau o'r tablau hyn sy'n dangos bod y mwyafrif llethol o'r rhai a symudodd i'r ddwy sir yn ystod y flwyddyn cyn 2011 wedi symud o'r tu allan i Gymru[11]. O edrych ar y siroedd yn unigol, roedd 64% o'r rhai a fewnfudodd i Fôn a 73.7% o'r rhai a fewnfudodd i Wynedd o'r tu allan i Gymru.

O edrych ar Wynedd a Môn gyda'i gilydd fel uned, fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n llawer mwy dramatig, gan fod cyfran helaeth o'r mudwyr wedi symud o'r naill sir i'r llall. Os edrychwn ar fudwyr o'r tu allan i'r naill sir neu'r llall, roedd 80% o'r rhain yn dod o'r tu allan i Gymru. Rhaid ystyried y ffigur cyfun ar gyfer y ddwy wrth fesur effaith y Cynllun Datblygu Unedol gan na fydd unrhyw fewnfudo rhwng y ddwy sir yn cyfrannu at gynnydd yng nghyfanswm y boblogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun.

Nid yw'r ffigurau mudo yn rhoi unrhyw wybodaeth am allu'r mudwyr i siarad Cymraeg ychwaith.

Wrth bwyso a mesur yr holl wybodaeth sydd ar gael, gellir awgrymu un neu ddwy senario. O ddefnyddio'r fethodoleg yn yr adrannau blaenorol i geisio cyfrifo effeithiau posibl y tai ar boblogaeth, penderfynwyd ar gynnig amcangyfrif bras o 5% o gynnydd poblogaeth yng Ngwynedd, ac 8% ym Môn. Diben amcangyfrifon o'r fath yw darlunio'r mathau o newidiadau a allai ddigwydd yn hytrach na chynnig unrhyw broffwydoliaeth fanwl.

Gellir cymhwyso'r canrannau hyn wedyn at y cyfansymiau o bobl dros 3 oed, sef y boblogaeth y mae gwybodaeth am niferoedd sy'n siarad Cymraeg.

Er mwyn cynnal y canrannau sy'n gallu siarad Cymraeg yn y ddwy sir, byddai'n rhaid bod canrannau o leiaf cyfuwch o'r bobl sy'n symud i mewn yn gallu siarad Cymraeg. Pe digwyddai fod hanner y mewnfudwyr yn gallu siarad Cymraeg, byddai hynny'n golygu cynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir, heb fawr ddim effaith andwyol ar y canrannau.

Fodd bynnag, am resymau yr ydym wedi eu nodi eisoes yng ngoleuni tystiolaeth am dueddiadau'r presennol a'r gorffennol, mae hynny'n hynod o annhebygol. Penderfynwyd rhoi tair senario bosibl, yn seiliedig ar fod canrannau o 25% a 10% o'r mewnfudwyr yn gallu siarad Cymraeg.

Nid yw hyn yn rhagdybio o gwbl y byddai pob datblygiad tai newydd â chanrannau mor isel o'r prynwyr yn gallu siarad Cymraeg. Ond o edrych ar effeithiau tebygol cynnydd poblogaeth y ddwy sir yn eu cyfanrwydd, gan dderbyn mai o'r tu allan iddynt y daw'r boblogaeth newydd a'r mwyafrif o'r rheini o'r tu allan i Gymru, anodd rhagweld cyfrannau uchel ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae'n ddigon posibl hefyd y gallai effeithiau anuniongyrchol datblygiadau tai newydd fod yn fwy na'u heffeithiau uniongyrchol, wrth i deuluoedd lleol Cymraeg adael cefn gwlad am y pentrefi a'r trefi.

[11] ONS Tablau UKMIG101 ac MM01CUK

Ni ddiystyrir o gwbl y posibilrwydd o gynyddu poblogaeth o ganlyniad i lai o bobl yn gadael y ddwy sir, nac ychwaith o ddenu brodorion yn ôl. Fodd bynnag, ni ddangoswyd unrhyw dystiolaeth, yn y cynllun hwn nac mewn astudiaethau eraill, fod codi mwy o dai ynddo'i hun am newid y tueddiad.

Unwaith eto mae angen cofio'r gwahaniaeth rhwng mewnfudo a mewnfudo net. Gall mewnfudo ac allfudo ddigwydd heb unrhyw newid mewn cyfanswm poblogaeth; ond os bydd cynnydd yn y boblogaeth a'r cynnydd hwnnw oherwydd mewnfudo, mae'n gyfystyr â mewnfudo net. Wrth geisio asesu effaith datblygiadau codi tai, yr unig elfen y gellir ei fesur yw'r effaith ar y mewnfudo net. Oherwydd hyn, darluniadol yn unig yw'r enghreifftiau isod o'r hyn a allai ddigwydd gan nad ydynt yn honni ceisio rhagweld graddau mewnfudo cyffredinol.

Yng Ngwynedd, gellid ystyried dwy senario fel hyn:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed yn 2011 | 117,789 | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg | 77,000 | 65.4% |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed wedi cynnydd o 5% | 123,678 | |
| Pe bai chwarter y mewnfudwyr sy'n cyfrif am y boblogaeth ychwanegol yn gallu siarad Cymraeg: | | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg: | 78,472 | 63.4% |
| Pe bai 10% o'r mewnfudwyr sy'n cyfrif am y boblogaeth ychwanegol yn gallu siarad Cymraeg: | | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg | 77,770 | 62.9% |

Y ffigurau cyfatebol ar gyfer Môn fyddai:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed yn 2011 | 67,403 | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg | 38,568 | 57.2% |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed wedi cynnydd o 5% | 72,795 | |
| Pe bai chwarter y mewnfudwyr sy'n cyfrif am y boblogaeth ychwanegol yn gallu siarad Cymraeg: | | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg | 39,916 | 54.8% |
| Pe bai 10% o'r mewnfudwyr sy'n cyfrif am y boblogaeth ychwanegol yn gallu siarad Cymraeg: | | |
| Nifer a chanran sy'n gallu siarad Cymraeg | 39,107 | 53.7% |

Y *newidiadau* yn y canrannau yn hytrach na'r canrannau eu hunain yw'r peth allweddol yn y ffigurau uchod. Ni ellir darogan effeithiau ffactorau eraill ar y niferoedd a'r canrannau sy'n siarad Cymraeg.

Y ffordd gywiraf o fynegi'r wybodaeth yw trwy ddweud y gallai'r cynnydd o 5% ym mhoblogaeth Gwynedd arwain at leihad o 2-2.5 pwynt canran yn y gyfran sy'n siarad Cymraeg, a chynnydd o 8% ym mhoblogaeth Môn arwain at ostyngiad o 2.4-3.5 pwynt canran yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yno.

Rhaid pwysleisio y byddai gostyngiadau o'r fath yn ychwanegol at unrhyw ostyngiadau yn sgil ffactorau eraill. Yn yr un modd, pe byddai ffactorau eraill yn arwain at gynnydd, byddai'r gostyngiadau hyn yn gwrthweithio'r cynnydd hwnnw. Yn wyneb tueddiadau'r gorffennol, mae'r amcangyfrifon o ostyngiadau yn ymddangos yn geidwadol.

Mae'n wir nad yw'r newidiadau hyn yn ymddangos yn rhai mawr iawn ar yr olwg gyntaf, ond rhaid pwysleisio y byddai gostyngiadau o'r fath yn ychwanegol at unrhyw newidiadau yn sgil ffactorau eraill. Hyd yn oed pe byddai ffactorau eraill yn arwain at gynnydd, byddai'r gostyngiadau hyn yn gwrthweithio cynnydd o'r fath.

Hyd yn oed o'u cymryd ar eu pen eu hunain, mae'r gostyngiadau y gellid eu priodoli i'r cynnydd poblogaeth tebygol ym Môn yn ddigon i wthio'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yno yn beryglus o agos at yr hanner.

Yn fwy difrifol na hyn, rhaid cofio yw na fyddai'r gostyngiadau'n debygol o ddigwydd ar yr un raddfa drwy'r siroedd ac y gallai fod oblygiadau llawer mwy sylweddol ar rai ardaloedd unigol. Gallai fod yn ddigon i droi'r fantol mewn rhai mannau, a gwanhau amryw o'r cadarnleoedd cryfaf.

Oni eir ati'n fwriadol i ddenu mwy o siaradwyr Cymraeg i'r ddwy sir, ni all y math o fewnfudo sy'n debygol o ddigwydd yn sgil y Cynllun Datblygu Lleol hwn gyfrannu'n adeiladol at gryfhau'r Gymraeg ynddynt.

Unwaith eto, mae'n werth inni atgoffa'n hunain o nod Cyngor Gwynedd o sicrhau cynnydd o 5 pwynt canran yn y gyfran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg erbyn 2021. Y neges amlwg o'r ffigurau hyn yw y byddai cymaint â hyn o gynnydd ym mhoblogaeth y sir yn gwneud y dasg hon yw sylweddol anoddach.

# Asesiad Effaith Ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Cyn symud ymlaen i edrych ar effaith y datblygiadau arfaethedig ar ardaloedd unigol, mae angen ymdrin yn fyr ag Asesiad Effaith Ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Cyhoeddwyd hwn ym mis Chwefror 2015, a chyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig gyda mân ddiwygiadau ym mis Mawrth 2016. Mae'r asesiadau hyn yn dilyn Arolwg Tai a'r Iaith Gymraeg yng Ngwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn 2014. Roedd hwnnw'n seiliedig ar ganlyniadau holiadur i bob pwrpas, holiadur a oedd yn dibynnu ar wirfoddolwyr i ymateb. Oherwydd hynny, ac oherwydd nad yw'r wardiau y rhoddwyd sylw iddynt yn gynrychioliadol o ardal y Cynllun yn ei chyfanrwydd, nid yw ei gasgliadau'n dweud llawer wrthym.

Prif wendid Asesiadau Effaith Ieithyddol 2015 a 2016 yw yr ymddengys mai ar gyfiawnhau penderfyniadau'r Cynllun Datblygu Lleol y mae'r pwyslais, yn hytrach nag ar bwyso a mesur ei effeithiau posibl. Beirniadaeth o'r drefn gynllunio yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag o'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yw hyn. Yr hyn y byddai rhywun yn dymuno'i weld, yn sicr mewn ardaloedd mor allweddol â Gwynedd a Môn, fyddai asesiad o anghenion cynllunio yng nghyd-destun y Gymraeg yn cael ei wneud yn y cychwyn un, a hwnnw wedyn yn arwain y gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol.

Ni ellir gwadu bod yr Asesiad Effaith Ieithyddol, fel y Cynllun Datblygu Lleol ei hun, yn llawn bwriadau da. Mae amryw o'r datganiadau ynddo i'w croesawu, megis yn 4.7 sy'n dweud bod angen bod yn ofalus iawn gydag aneddleoedd sy'n boblogaidd fel cyrchfannau gwyliau. Nodir hefyd ymhellach ymlaen yn 5.1 ei bod yn "bwysig fod effaith cronnus nifer o ddatblygiadau mewn ardal yn cael ei ystyried yn ogystal ag ardrawiad potensial ar yr ardal ehangach".

Yn anffodus, nid ymddengys fod yr asesiad yn llwyddo i wneud hyn bob tro, gan fod ynddo dueddiad i edrych ar effeithiau datblygiadau unigol yn lle ystyried y darlun llawn.

Nodir, er enghraifft, bod y rhan fwyaf o bobl sy'n symud i gartrefi newydd eisoes yn byw yn naill ai Gwynedd neu Ynys Môn. Dim ond rhan fach o'r stori yw iaith preswylwyr tai newydd; rhaid ystyried effaith cynyddu'r stoc dai ar gymunedau ehangach.

Nid ymhelaethir ychwaith ar sut y daethpwyd at y cyfanswm y penderfynwyd arno ar nifer y tai, gan ddweud yn hytrach bod y "ffigurau wedi eu seilio ar broses ddemocrataidd gynaliadwy". Rhaid nodi na fu'r broses honno mor dryloyw ag y gallai fod, oherwydd prin fod unrhyw esboniadau clir a syml wedi bod ynghylch cynyddu poblogaeth y ddwy sir.

Mae hefyd yn dueddol o ddibynnu gormod ar fynegi dymuniadau yn hytrach nag ar bwyso a mesur tystiolaeth, fel ym mharagraff 4.11 lle honnir y bydd "... cyfleusterau cymunedol, gwelliannau amgylcheddol, yn ogystal â gwarchod a gwella asedau diwylliannol gan gynnwys yr iaith Gymraeg; dylai hyn wella dymunoldeb yr ardal. Yn ei dro, dylai hyn hefyd helpu cadw'r boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg, neu hyd yn oed ddenu trigolion sy'n siarad Cymraeg yn ôl i'r ardal."

Y brif feirniadaeth arall o'r asesiad yw yr ymddengys mai rhannol ar y gorau yw'r ddealltwriaeth ynddo o arwyddocâd pwysigrwydd ardaloedd lle mae dros 70% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn gosod cynyddu ardaloedd o'r fath fel nod ac mae'n haeddu pob clod am hynny. Os edrychwn ar baragraff 5.5 o'r Asesiad Effaith Ieithyddol, fodd bynnag, gwelwn y frawddeg annelwig hon: "Cytunwyd drwy drafodaethau gyda swyddogion iaith berthnasol [sic] y dylai ardaloedd lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn llai na 70% gael eu hystyried yn anghynaladwy o ran yr iaith Gymraeg ..." Mae hwn yn ddehongliad difrifol o ddiffygiol a simplistig gan ei fod yn awgrymu ei bod ar ben ar ardaloedd lle mae'r gyfran yn is na 70%.

Cafodd y dehongliad hwn ei feirniadu'n hallt hefyd mewn cyflwyniad gan y Cynghorydd Elin Walker Jones yn y Cyfarfod Arbennig o Gyngor Gwynedd ar 18 Mawrth 2016. Da felly oedd gweld bod y dehongliad wedi ei addasu rhywfaint yn y fersiwn diwygiedig o'r asesiad effaith ieithyddol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. Ym mharagraff 5.24 o asesiad Mawrth 2016 dywedir:

> "Cytunwyd drwy drafodaethau gyda swyddogion iaith berthnasol y dylai ardaloedd lle mae cyfran y siaradwyr Cymraeg yn llai na 70% gael eu hystyried yn fwy bregus o ran yr iaith Gymraeg, a dylid ystyried hyn fel rhan o'r broses asesu. Dylid nodi, fodd bynnag, mai dangosol yw'r trothwy o 70%. Mae enghreifftiau ble bo mwy na 70% o breswylwyr yn siarad Cymraeg ond fod y cyfran yn uwch yn 2001. Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r ffactor hwn. "

Mae hyn i raddau yn gwrth-ddweud llawer o'r sylwadau yng ngweddill yr asesiad. Deil y fersiwn diweddaraf i fod yn frith o gyfeiriadau simplistig am y canrannau sy'n siarad Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd yn nhermau 'hyn a hyn' yn fwy, neu'n llai, na 70%. Mae'n dal i awgrymu diffyg amgyffred lawn o arwyddocâd y ganran hon fel trothwy.

Mae naïfrwydd tebyg hefyd i'w weld yn y cyfeiriadau mynych at broblemau tai haf neu ail gartrefi, pan fo pawb sy'n ymwneud ag ymdrechion i gynnal y Gymraeg yn gwybod bod mewnfudwyr parhaol yn cael llawer mwy o effaith ar hyfywdra'r iaith. Yn yr un modd, anodd gweld perthnasedd yr holl gyfeiriadau ystrydebol sydd ynddo at ysgolion lleol yn darparu addysg Gymraeg i blant yr ardal.

Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n gyson at yr angen am gyflenwad digonol o dai fforddiadwy. Mae hyn yn rhywbeth y byddai pawb yn cytuno ag ef. Mae angen ymchwil, fodd bynnag, i'r graddau y mae trigolion cynhenid gwahanol ardaloedd y ddwy sir yn cael cyfleoedd teg am dai cymdeithasol ar rent yn yr ardaloedd hynny.

Fel y dangoswyd yn y proffiliau ieithyddol o'r ddwy sir, mae ffigurau'r Cyfrifiad yn awgrymu bod hyd at tua 95% o boblogaeth gynhenid prif ardal graidd y Gymraeg, sef gogledd Meirionnydd, Dwyfor, canolbarth Môn a'r rhan helaethaf o Arfon, yn gallu siarad Cymraeg. Byddai'n dda gallu gwybod i ba raddau mae'r gyfran o denantiaid tai cymdeithasol sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn adlewyrchu hyn. Os oes anghyfatebiaeth annerbyniol, rhaid amau addasrwydd y meini prawf. Gallai ddangos hefyd os mai codi mwy o dai yw'r gwir angen ynteu sicrhau blaenoriaeth uwch i bobl leol.

Mae'r un peth yn wir ynghylch tai i'w prynu am bris fforddiadwy a thai marchnad leol. Maent yn gwbl hanfodol mewn llawer ardal gan mai dyma unig obaith pobl leol o gael tai. Ar yr un pryd, mae angen gwirio'r meini prawf er mwyn sicrhau bod pobl leol yn cael y flaenoriaeth ddyladwy.

Heb wybod i sicrwydd bod y bobl sy'n cael tai cymdeithasol ar rent, tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn adlewyrchu iaith trigolion cynhenid eu hardaloedd ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd pob datblygiad o'r fath yn cael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg.

# Dosbarthiad twf Gwynedd

Yn ogystal ag ystyried effaith tebygol cyfanswm y tai ar y siroedd yn eu cyfanrwydd, mae angen edrych ar yr ardaloedd sydd wedi eu clustnodi ar gyfer y tai hyn. Mae'r adran hon yn edrych ar ardaloedd Gwynedd, a bydd yr adran sy'n ei dilyn yn edrych ar Fôn.

Ymdrinnir â'r ardaloedd unigol yn yr un drefn ag a wneir yn Asesiad Effaith Ieithyddol yr Uned Datblygu Polisi ar y Cyd; dylai hyn hwyluso pethau wrth gymharu gwahanol gasgliadau'r ddau, a bydd yn fodd hefyd i'r naill asesiad ategu'r llall.

## Dalgylch Porthmadog

| Tref Porthmadog | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 121 (ar ôl 'trosglwyddo' 180) | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 4051 | 4057 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 69.8 | 75.0 |

Gwelwn mai'r bwriad gwreiddiol oedd darparu lle i godi 301 o dai newydd ym Mhorthmadog, a fyddai wedi golygu cynnydd o tua 15% yn y stoc tai. Er bod peryglon llifogydd yn gorfodi newid cryn dipyn ar y cynlluniau hyn, mae angen nodi bod Porthmadog yn un o'r ardaloedd o Wynedd a welodd y dirywiad mwyaf yn nifer a chanrannau'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Aeth y niferoedd i lawr o 3,043 i 2,827 a'r ganran i lawr o 75.0% i 69.8%. Dyma'r ffigurau ar gyfer ardal cyngor cymuned Porthmadog yn y Cyfrifiad, er y defnyddir ffigurau mymryn yn wahanol yn Asesiad yr Uned Polisi Cynllunio.

Oherwydd yr anawsterau gyda pheryglon llifogydd, nodir y bydd 180 o'r tai arfaethedig yn cael eu symud i Gricieth a Phenrhyndeudraeth, gan adael 121 ym Mhorthmadog.

Amcangyfrifir y byddai 121 o dai yn gallu arwain at gynnydd o 13% ym mhoblogaeth dwy ward y dref, a hynny ar ôl cwymp o 6.7% yn nifer y bobl a aned yng Nghymru yn y dref. Er yn cydnabod bod dirywiad wedi bod yn y Gymraeg yn y dref, a'i bod yn gyrchfan dywed Asesiad yr Uned Polisi: "ni ddylai'r twf disgwyliedig ... gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a gall gyfrannu at gadw'r boblogaeth yn yr ardal". Nid yw datganiadau o'r fath mewn gwirionedd yn gwneud mwy na mynegi dymuniad oni chynigir tystioliaeth i'w cadarnhau.

**Penrhyndeudraeth**

| Ward Penrhyndeudraeth | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 152 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 2493 | 2380 |

| | | |
|---|---|---|
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 74.8 | 76.8 |

Oherwydd y penderfyniad i drosglwyddo dyraniad tai o Borthmadog i Benrhyndeudraeth, y bwriad bellach yw neilltuo tir ar gyfer 152 o unedau tai yno, sydd 84 yn uwch na'r nifer gwreiddiol o 68.

Gellir amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at gynnydd o tua 200 ym mhoblogaeth Penrhyndeudraeth.

Mae'r Gymraeg wedi dal ei thir yn well yma nag ym Mhorthmadog, gyda chynnydd bach yn niferoedd y siaradwyr, a'r ganran i lawr o 76.8% yn 2001 i 74.8% yn 2011. Mae'r cynnydd o 120 yn y boblogaeth i'w briodoli'n bennaf i bobl o'r tu allan i Gymru, er bod cynnydd o 38 wedi bod y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg.

Nid ymddengys y syniad o ddefnyddio Penrhyndeudraeth i ddarparu ar gyfer anghenion tai Porthmadog yn syniad drwg ynddo'i hun. Fodd bynnag, heb sicrwydd o alw o'r fath ym Mhorthmadog yn y lle cyntaf, gallai olygu gormodedd o dai ym Mhenrhyndeudraeth, a fyddai naill ai'n golygu rhagor o fewnfudiad neu gynyddu poblogaeth ar draul ardaloedd eraill cyfagos.

Mae'n werth nodi i Gyngor Tref Penrhyndeudraeth gasglu tystiolaeth o'r angen lleol am dai. Mewn holiadur ym mis Chwefror 2015 gofynnwyd i bobl leol a fyddai angen tŷ arnynt hwy neu aelod o'u teulu yn yr ardal neu'r cyffiniau o fewn y pum mlynedd nesaf. Y cyfanswm a gafwyd oedd 59 o dai.

Nodir bod Asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn argymell yr angen i'r datblygiad ddigwydd gam wrth gam. Dylid hefyd ystyried cwtogi ar y nifer.

**Cricieth**

| Ward Cricieth | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 164 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1716 | 1770 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 64.2 | 65.5 |

Mae'r cynlluniau ar gyfer Cricieth yn dangos yn glir wendidau'r drefn o benderfynu ar gyfanswm o dai ar gyfer y sir ac wedyn chwilio am le i'w codi.

Ar ôl trosglwyddo 96 o 'ddyraniad' Porthmadog, y bwriad yw codi 164 o dai, a allai olygu twf o 20% ym mhoblogaeth y dref – a hynny'n mewn tref lan-môr boblogaidd lle cydnabyddir bod fforddiadwyedd tai yn broblem.

Gyda nifer y bobl a aned yng Nghymru a'r nifer sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig ers 2001, anodd gweld ar ba sail y gellir dweud, fel y gwna AEI yr Uned Polisi "na ddylai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn ei hun, gael dylanwad negyddol ar yr iaith ..."

Roedd ychydig llai na hanner y bobl a oedd wedi symud i Gricieth yn y flwyddyn cyn 2011 wedi symud yno o fewn Gwynedd; allan o'r 142 o fudwyr roedd 66 o rannau eraill o Wynedd a 76 o'r tu allan i Wynedd.

O ddefnyddio ffigurau amcanestyniadau Llywodraeth Cymru am boblogaeth cyfartalog aelwydydd o 2.18 yn 2026, mae'n rhesymol credu y gallai codi 164 o dai arwain at gynnydd o 350 ym mhoblogaeth y dref. Mae hwn yn gynnydd mwy o lawer nag a welwyd dros y degawdau diwethaf; yn wir mae poblogaeth y dref wedi aros yn hynod o sefydlog dros y 50 mlynedd ddiwethaf, ac mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg hefyd wedi dal ei thir yn llawer gwell nag yn y mwyafrif o leoedd.

Mae cynnydd o 350 yn y boblogaeth, fodd bynnag, yn golygu cynnydd o 20% yn y boblogaeth. Pe byddai mwyafrif y boblogaeth ychwanegol yn ddi-Gymraeg, byddai'n arwain at gwymp sylweddol yn y ganran o 64.2% sy'n siarad Cymraeg yn y dref. Byddai'n golygu cwymp mwy dramatig na dim a welwyd yn y 50 mlynedd ddiwethaf, gan wthio'r ganran i lefel sy'n beryglus o agos at yr hanner. Ar y llaw arall, hyd yn oed pe byddai cyfran uchel ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, ac yn hanu o ardaloedd eraill cyfagos, rhaid ystyried effeithiau posibl ar yr ardaloedd hynny, gan fod llawer o'r rheini hefyd yn fregus o ran gostyngiadau yn y canrannau o siaradwyr Cymraeg.

Nid yw honiad asesiad effaith ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio fel petai'n ystyried dim o'r peryglon hyn; yn hytrach, yr hyn a ddywedir yw: "... ni ddylai lefel twf disgwyliedig y ganolfan ei hun, gael dylanwad negyddol ar yr iaith, a byddai'n cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal."

Mynegi dymuniad yn unig y mae ymadroddion fel 'cyfrannu at gadw'r boblogaeth Gymraeg ei iaith yn yr ardal'. Heb dystiolaeth fod pobl yn gadael oherwydd prinder tai addas, rhaid amau cadernid gosodiadau o'r fath.

**Tremadog**
Mae'r cyfanswm o 12 o dai a bennir ar gyfer Tremadog yn ymddangos yn ddigon rhesymol, yn enwedig os gellir eu cyfyngu i dai fforddiadwy angen lleol.

## Dalgylch Caernarfon

| Tref Caernarfon (4 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 415 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 9200 | 9265 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 85.6 | 86.1 |

Bwriedir neilltuo tir ar gyfer 415 o unedau preswyl o fewn tref Caernarfon dros gyfnod y Cynllun.

Mae hyn yn sylweddol uwch na'r 147 o dai a godwyd rhwng 2002 a 2011, ac o ddefnyddio amcanestyniadau Llywodraeth Cymru o 2.18 fel maint cyfartalog aelwydydd Gwynedd erbyn 2026, byddai'n gyfystyr â chynnydd o tua 600 ym mhoblogaeth y dref, sy'n gynnydd o ychydig dros 6%.

Gyda chanran uwch na chyfartaledd y sir o'r mudwyr i'r dref yn y flwyddyn cyn Cyfrifiad 2011 yn bobl sy'n symud oddiyno o rannau eraill o'r sir[12], a'r gyfran uchel o'r boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru yn y dref (dros 85%) a'r gyfran sy'n siarad Cymraeg (eto dros 85%), does dim arwyddion o fewnfudiad sylweddol o bobl ddi-Gymraeg wedi bod i'r dref hyd yma. Mae asesiad yr Uned Polisi Cynllunio yn mynegi tybiaeth na fyddai twf o'r fath yn "debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith". Mae'n bosibl, er nad yn gwbl sicr, fod hynny'n gywir yng nghyd-destun y dref ei hun. Y tueddiad dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, ydi symudiad o rai o'r pentrefi cyfagos i'r dref, fel bod y Gymraeg yn dal ei thir yn dda yn y dref ond bod rhai o'r pentrefi, yn enwedig y rhai sy'n fwy mynyddig ac ymhellach o'r dref, wedi gweld colledion yn eu niferoedd a'u canrannau sy'n siarad Cymraeg.


Dychwelwn eto at un o ddadleuon canolog yr asesiad hwn, sef bod **canlyniadau anuniongyrchol yn ogystal â chanlyniadau uniongyrchol** i gynlluniau i godi niferoedd sylweddol o dai. Ar lawer ystyr, gallai fod yn ddatblygiad cadarnhaol gweld cynnydd graddol mewn tref mor Gymraeg â Chaernarfon; ond mae gofyn bod yn effro i'r cwestiwn o'r graddau y gallai cynnydd o'r fath fod ar draul cadarnleoedd eraill.

### Canolfannau Gwasanaeth Lleol cylch Caernarfon

### Llanberis

| Ward / Cymuned Llanberis | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 65 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1959 | 1954 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 74.7 | 80.6 |

[12] ONS Tabl UKMIG101




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 1,954 | 1,574 |
| 2011 | 1,959 | 1,464 |

Y bwriad yw codi 65 o dai yn Llanberis dros cyfnod y cynllun. Mae hyn yn cymharu â 44 o dai a gafodd eu codi rhwng 2002 a 2011.

Mae Llanberis yn un o'r ardaloedd a welodd newid sylweddol o ran y gyfran sy'n siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, pryd yr aeth o gyfran i lawr o 80.6% i 74.7%. Waeth heb â chyfeirio at 74.7% fel "canran sydd 4.7% uwch na'r trothwy 70%" fel y gwna asesiad yr Uned Polisi; y ffaith amdani yw bod Llanberis wedi gweld dirywiad sylweddol yn y Gymraeg rhwng y ddau Gyfrifiad, gyda 110 o siaradwyr Cymraeg wedi eu colli o un o'r cadarnleoedd cryfaf.

O weld bod cyfanswm y boblogaeth wedi cynyddu fymryn, syndod oedd gweld sylw yn asesiad 2015 nad oedd mewnfudo'n broblem yn yr ardal; da gweld bod y sylw hwnnw wedi ei ddileu o asesiad 2016. Ymysg dadleuon asesiad 2016 na fydd y twf tai yn effeithio'n andwyol ar y Gymraeg yw'r farn nad yw'r tai newydd yn debygol o gael eu defnyddio fel ail gartrefi. Unwaith eto, rhaid ailadrodd nad ail gartrefi yw'r brif broblem sy'n wynebu'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd ond yn hytrach fewnfudiad o drigolion parhaol di-Gymraeg.

Yn wahanol i sawl ardal arall yng Ngwynedd hefyd, ymddengys mai mewnfudiad pobl iau yn hytrach na phobl hŷn a welir yn bennaf yma. O blith y grŵp oedran 25-34, dim ond 58.4% a aned yng Nghymru.

Dywed asesiad yr Uned Datblygu Polisi ar y Cyd fod gostyngiad sylweddol wedi bod yn y boblogaeth iau. Mae hyn ychydig yn gamarweiniol; bu cynnydd o 75 yn nifer yr oedolion 25-49 oed, tra bu gostyngiad o 15 yn y niferoedd o blith y grŵp yma sy'n siarad Cymraeg.

Mae'n werth nodi bod y lleihad a fu yn nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 wedi digwydd mewn cyfnod pryd y codwyd 44 o dai newydd. Un o'r haeriadau a wneir yn fynych am dai newydd mewn gwahanol ardaloedd yn asesiad yr Uned Polisi yw y bydd datblygiadau o'r fath yn helpu cynnal y boblogaeth leol. Awgryma'r hyn o ddigwyddodd yn Llanberis nad yw hyn o angenrheidrwydd yn wir.

Amcangyfrifir y byddai'r tai newydd yn arwain at gynnydd o tua 3-4% yn y boblogaeth. Heb fod tystiolaeth benodol i'r gwrthwyneb, anodd gweld sut y gallant osgoi gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn ddrwg yn y pentref.

**Llanrug**

| Ward Llanrug | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 61 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1835 | 1730 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 87.8 | 86.8 |

Bwriedir codi 61 o dai yma. Dyma'r ward sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gyda 87.8% yn medru'r iaith, ac mae'r pentref wedi cael ei ddefnyddio'n fynych fel enghraifft o rywle lle mae tai newydd wedi bod yn gadarnhaol i'r Gymraeg. Bu cynnydd o ychydig dros 100 yn y boblogaeth yma rhwng 2001 a 2011, a chynnydd o 1 pwynt canran yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg; aeth y stoc dai i fyny 5.4% yn ystod yr un cyfnod. Mae'n fwy na thebyg na fyddai'r cynnydd yn y tai yn gwneud gwahaniaeth i Gymreictod Llanrug; ond unwaith eto, noder y sylwadau ar Lanberis uchod. Er cystal y gall cynnydd o fewn pentref fel Llanrug ymddangos ar bapur, rhaid gofalu na fydd ar draul mannau eraill.

**Penygroes**

| Ward Penygroes | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 89 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1728 | 1681 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 86.8 | 88.2 |

Bwriedir codi 89 o dai yma, y gellir amcangyfrif ar sail methodoleg Llywodraeth Cymru y byddai'n arwain at gynnydd o 150, neu tua 8-9% yn y boblogaeth. Dim ond 23 o dai a godwyd rhwng 2002 a 2011.

Gydag 86.8% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2011, byddai angen i unrhyw gynnydd mewn poblogaeth fod yn seiliedig ar ganran uchel o bobl sy'n siarad Cymraeg er mwyn peidio ag effeithio'n andwyol ar y ganran uchel bresennol. Unwaith eto, cyfyd y cwestiwn o ble y daw'r boblogaeth newydd. Os oes twf yn cael ei gynllunio ym mhob ardal, bydd yn anochel y bydd twf yn yr ardaloedd hynny ar draul ardaloedd eraill i raddau helaeth.

**Pentref llai dalgylch Caernarfon**

**Bethel**

| Ward Bethel | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 89 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1342 | 1345 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 85.8 | 86.3 |

Bwriedir codi 40 o dai yn ystod oes y Cynllun Datblygu, o gymharu â dim ond 7 tŷ rhwng 2002 a 2011. Ar y llaw arall, mae dwysedd poblogaeth aelwydydd yn uwch yma na'r hyn yw yng ngweddill y sir. Ni ddylai'r ffaith fod cyfran mor uchel yn siarad Cymraeg yma, 87.3%, gael ei defnyddio fel dadl i roi rhwydd hynt i ddatblygu rhagor o dai; mae'n ddadl yn hytrach i gymryd gofal neilltuol gan fod cyn lleied o ardaloedd o'r fath.

Yn asesiad iaith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, nodir bod 40.2% o'r boblogaeth a aned y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg. Cynigir y gall hyn "adlewyrchu'r cyfleoedd da i fewnfudwyr ddysgu'r iaith". Gellid ychwanegu hefyd mai hanfod y cyfleoedd gorau hyn ydi'r ffaith fod cyfran mor uchel yn siarad Cymraeg yma.

**Bontnewydd**

| Ward Bontnewydd | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 40 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1125 | 1114 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 82.6 | 85.4 |

Mae'r bwriad i godi 40 o dai yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol unwaith eto'n cyferbynnu â'r 4 yn unig a godwyd rhwng 2002 a 2011. Mae'n ymddangos bod y Gymraeg yn dal ei thir yn yr ardal gyda chyfran uchel o 85.9%, fel sy'n gyffredin am y pentrefi o gwmpas Caernarfon.

**Deiniolen**

Bwriedir codi 40 o dai yma hefyd. Nodir yn asesiad yr Uned fod 81.2% yn gallu siarad Cymraeg yma. Mae'n ymddangos bod y gyfran hon yn cyfeirio at ran yn unig o ward Deiniolen, gan fod y ganran yn y ward gyfan yn is, ar 74.4%. Mae asesiadau'r Uned Polisi ar y Cyd yn cydnabod y gallai'r pentref fod yn ddeniadol i aelwydydd newydd oherwydd ei agosrwydd at Gaernarfon a Bangor, ac yn ôl asesiad 2015, dywedir: "Oherwydd natur ieithyddol Bangor, ble mae lefel uwch o'r boblogaeth heb sgiliau Cymraeg, mae potensial, felly, i'r datblygiad ddenu pobl sy'n gweithio yno, nad ydynt yn siarad Cymraeg." Mae'r frawddeg hon, fodd bynnag, wedi ei dileu yn asesiad 2016.

Er bod y ganran sy'n siarad Cymraeg yma yn uchel, mae'n dal yn is na'r hyn yw mewn pentrefi fel Bethel a Llanrug gerllaw. Mae'n ardal lle mae rhywfaint o ostyngiadau hefyd wedi bod. Oherwydd hyn, mae angen cymryd gofal neilltuol fod unrhyw ddatblygu yn digwydd yn raddol, gydag amodau marchnad lleol ar y tai.

## Blaenau Ffestiniog


| Tref Ffestiniog (3 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 298 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 4696 | 4657 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 78.6 | 80.9 |

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn neilltuo 298 o dai ar gyfer Blaenau Ffestiniog yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn gynnydd sylweddol iawn o gymharu â nifer presennol aelwydydd y dref o tua 2,283 sy'n cynnwys Llan Ffestiniog yn ogystal. O ddefnyddio ffigur cyfartalog Llywodraeth Cymru o boblogaeth gyfartalog aelwydydd o 2.18, byddai'n golygu cynnydd o hyd at tua 800 ym mhoblogaeth y dref, sy'n gyfystyr â thua 16%.

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 78.6% o drigolion cymuned Ffestiniog (sy'n cynnwys wardiau Bowydd a Rhiw, Diffwys a Maenofferen a Teigl) yn gallu siarad Cymraeg. Roedd hyn yn cymharu â 80.9% yn 2001. Mae hyn o ganlyniad i ostyngiad bach yn y niferoedd oedd yn siarad Cymraeg a chynnydd bach ym mhoblogaeth gyffredinol y dref fel y dengys y graff isod.

Wrth drafod y cynigion tai ar gyfer sawl pentref yn Arfon, nodwyd mai'r potensial o effeithiau anuniongyrchol, yn hytrach nag effeithiau uniongyrchol oedd yr hyn yr oedd angen bod yn wyliadwrus ohono. Yn Ffestiniog, fodd bynnag, mae lle i bryderu am effaith uniongyrchol datblygiad o'r fath ar y dref ei hun.

- Bu lleihad yn nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011 tra bu cynnydd bach yn y boblogaeth gyffredinol
- Gyda 94.6% o'r bobl a aned yng Nghymru yn siarad Cymraeg, mae'n amlwg mai mewnfudo o'r tu allan i Gymru fu'n bennaf gyfrifol am y newid.
- Rhaid amau i ba raddau y mae cynnydd mor sylweddol i'w briodoli i'r nod o ddiwallu galw lleol:
  - Roedd y tair ward ymysg y wardiau oedd â'r




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 4,657 | 3,768 |
| 2011 | 4,696 | 3,689 |

niferoedd uchaf o dai gwag yng Ngwynedd
- Roedd dwy o'r tair ward eisoes ymysg y wardiau lle'r oedd tai fwyaf fforddiadwy.

Rhaid amau haeriad asesiad iaith yr Uned "na fyddai lefel twf disgwyliedig y ganolfan yn debygol o gael dylanwad negyddol ar yr iaith". O ble y deuai'r 15% arfaethedig ym mhoblogaeth y dref? Hyd yn oed pe bai cymaint â'u hanner yn siarad Cymraeg, gallai beri gostyngiad o tua 4 pwynt canran yn y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dref; pe bai llai na'u chwarter yn gallu Cymraeg, gallai fod yn ddigon i yrru'r ganran i lawr yn is na'r trothwy o 70% y rhoddir cymaint o bwys arno yn eu hasesiad.

Mae angen ailedrych o ddifrif eto ar y nifer arfaethedig o dai a'i ostwng i ffigur mwy realistig. Yn wyneb y cynnydd sy'n cael ei argymell mewn mannau eraill o Wynedd, mae'n anodd iawn rhagweld sut na fydd cynnydd mor sylweddol yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn y dref. Mae'n wir fod cyfran uchel o'r bobl a aned y tu allan i Gymru'n gallu siarad Cymraeg yn y dref – ond mae hyn oherwydd bod y ganran gyffredinol sy'n siarad Cymraeg mor uchel. Buan y byddai'r ganran yn gostwng gyda rhagor o fewnfudo di-Gymraeg.

**Abermaw**

| Ward Abermaw | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 91 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 2422 | 2347 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 41.5 | 43.8 |

Bwriedir neilltuo lle ar gyfer 91 o dai yn Abermaw yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Mae poblogaeth gyfartalog aelwydydd yma yn llawer is na chyfartaledd y sir ar 1.98 o gymharu â 2.25. O luosi cyfanswm yr aelwydydd â'r cyfartaledd presennol o 1.98 byddai'n arwain at gynnydd o tua 175 yn y boblogaeth.

Mae'n dref lle mae'r Gymraeg wedi bod ar drai ers amser maith. Gostyngodd y ganran sy'n gallu siarad yr iaith o 43.8% yn 2001 i 41.5% yn 2011, a llai na hanner y boblogaeth a aned yng Nghymru.

Dywed asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd "na ddylai'r ddarpariaeth o dai ynddi'i hun gael effaith andwyol sylweddol ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg o fewn yr anheddiad".

Gallai hyn fod yn wir o safbwynt y Gymraeg yn y dref ei hun. Ar y llaw arall, effaith tebygol unrhyw gynnydd mewn trefi fel hyn lle mae'r rhai a aned yng Nghymru eisoes yn y lleiafrif, yw cyfrannu at Seisnigrwydd ardal ehangach, ac erydu ymhellach y ganran sy'n siarad Cymraeg ar arfordir Meirionnydd.

Mae asesiad yr Uned yn nodi gwendid y Gymraeg yn y dref, ond eto'n honni y byddai dal gafael ar grwpiau oedran gweithio yn "cynnal yr iaith yn yr ardal".

**Tywyn**

| Ward Tywyn | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 103 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3173 | 3138 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 37.5 | 40.8 |

Bwriedir codi 103 o dai yn y dref hon lle nad oes ond 36.5% o bobl yn gallu siarad Cymraeg, ac a welodd ostyngiad o 7.3 pwynt canran rhwng 2001 a 2011.

Mae maint cyfartalog aelwydydd yn isel yma ar 1.98. O ddefnyddio'r gyfran hon i amcangyfrif effaith 103 o dai newydd ar y boblogaeth, mae'n awgrymu cynnydd o tua 200. Fel yn Abermaw, efallai mai cymharol fach fyddai effaith datblygiad o'r fath ar y Gymraeg yn y dref ei hun, ond unwaith eto byddai'n cyfrannu at wanhau ymhellach sefyllfa'r Gymraeg ar arfordir de Meirionnydd.

## Dalgylch Bangor

| Dinas Bangor (8 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 15928 | 13286 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 36.4 | 46.7 |

Ym Mangor dynodwyd tir ar gyfer codi 969 o dai yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 36.8% o boblogaeth o bron i 16,000 o bobl dros 3 oed yn y ddinas yn siarad Cymraeg. Roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad mawr o gymharu â'r ganran o 46.7% yn 2001. O graffu'n ddyfnach, fodd bynnag, mae'n amlwg fod y ffigurau hyn wedi cael eu hystumio gan niferoedd myfyrwyr, gan fod set arall o ystadegau'r Cyfrifiad[13] am gyfeiriadau myfyrwyr y tu allan i dymor y coleg yn dangos bod poblogaeth barhaol y ddinas tua 4,000 yn llai, a'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn 44.9%.

[13] ONS Tabl OT206WA – sy'n rhoi gwybodaeth am y boblogaeth y tu allan i amserau tymor colegau

Cafwyd gostyngiad o 400 hefyd yn nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn y ddinas. Hyd yn oed wedyn, gor-ddweud braidd y mae asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wrth ddweud "ar y cyfan nid yw'r iaith Gymraeg yn hyfyw yn y dref gyda chyfradd isel iawn o siaradwyr Cymraeg yn byw yn yr ardal – 38.5%, sydd 31.5% yn is na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw". Er gwaethaf y gostyngiad, a chyfran weddol uchel o boblogaeth gynhenid ddi-Gymraeg, rhyfedd yw gweld gosodiad mor negyddol yn un o ddogfennau swyddogol y Cyngor.

Mae cyfartaledd poblogaeth aelwydydd ym Mangor yn sylweddol uwch na'r hyn yw yng ngweddill y sir ar gyfartaledd, a hynny'n enwedig yn y wardiau fel Menai a Deiniol lle mae'r mwyaf o myfyrwyr. Oherwydd hyn, ni fyddai'r fethodoleg o luosi cyfanswm y tai â'r amcanestyniad o 2.18 yn rhoi inni ffigur synhwyrol. Er mwyn rhoi bras amcan ceidwadol o'r cynnydd mewn poblogaeth, penderfynwyd lluosi nifer y tai newydd, sef 969, yn unig â 2.18, sy'n rhoi rhif o tua 2,100 inni.

Byddai hynny'n gyfystyr â chynnydd o tua 13% o ystyried poblogaeth bresennol y ddinas, neu hyd at tua 18% o'r boblogaeth heb y myfyrwyr.

Faint bynnag o blith y boblogaeth ychwanegol sydd yn gallu siarad Cymraeg, mae'n anodd rhagweld y datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at yr iaith yng Ngwynedd.

Gall cyfran helaeth o'r twf fod yn bobl ddi-Gymraeg sy'n gweithio ymhellach i'r dwyrain gan fanteisio ar hwylustod yr A55 fel ffordd gyflym. Byddai hynny'n cyfrannu at wanhau'r ganran sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn gyffredinol yn ogystal â gwanhau Cymreictod Bangor, sydd eisoes mewn cyflwr bregus.

Ar y llaw arall, os bydd cyfran uchel o'r twf yn bobl Gymraeg eu hiaith, mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn sicr o fod yn dod o rannau eraill o Wynedd neu o Fôn. Yn ogystal â gwanhau'r iaith yn y cymunedau hynny, byddai hefyd yn debygol o olygu bod y mudwyr Cymraeg eu hiaith yn symud i gymuned llai Cymraeg ym Mangor, ac mewn llawer achos, yn arwain at lai o ddefnydd o'r Gymraeg.

Am y rheswm hwn, rhaid hefyd amau doethineb cyfeirio gormod o dwf i Fangor ar draul canolfannau eraill y ddwy sir.

Fel y nodir yn rhan gyntaf yr asesiad hwn, gellir priodoli llawer o'r twf poblogaeth rhwng 2001 a 2011 i gynnydd yn nifer myfyrwyr, ac nid oes unrhyw synnwyr mewn defnyddio hynny fel rheswm dros godi mwy o dai na'r hyn y mae galw lleol amlwg amdanynt.

**Bethesda a Rachub**

| Tref Bethesda (Wardiau Ogwen a Gerlan) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 99 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 4519 | 4327 |


www.hanfod.net


| | | |
|---|---|---|
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 77.5 | 77.0 |

Dynodir tir ar gyfer 99 o dai ym Methesda, y mae ei chymuned yn cynnwys wardiau Ogwen a Gerlan. Dynodir 40 o dai yn ogystal ar gyfer Rachub, sydd hefyd yn ward Gerlan. Rhyngddynt mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o tua 6% yn y stoc tai. Nid yw hyn ynddo'i hun yn debygol o arwain at gynnydd mawr yn y boblogaeth, ond fel mae asesiad yr Uned yn nodi'n gywir, mae agosrwydd Bethesda at Fangor yn ei gwneud hi'n holl bwysig sylweddoli'r perygl o newydd-ddyfodiaid nad ydynt yn siarad Cymraeg.

## Dalgylch Pwllheli

| Tref Pwllheli (2 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 323 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3927 | 3724 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 78.7 | 79.9 |

Dynodir tir ar gyfer 323 o dai newydd ym Mhwllheli yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol. Pan fo rhywun yn ystyried maint presennol Pwllheli mae hwn yn fwy o gynnydd mewn termau canrannol na'r 969 o dai y bwriedir eu codi ym Mangor. Mae'n gyfystyr â chynnydd o tua 15% yn y stoc tai, ac yn wyneb maint bach aelwydydd presennol ar gyfartaledd, byddai'n golygu cynnydd o dros 20% yn y boblogaeth pe defnyddir y ffigur o 2.18 (sef yr amcanestyniad o gyfartaledd Gwynedd yn 2026) fel sail.




Mae hwn yn gynnydd mawr iawn, a hyn ym mhrif ganolfan Dwyfor, rhanbarth lle mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg wedi gostwng rhwng 2001 a 2011.

Ym Mhwllheli ei hun, cafwyd cynnydd bach o 116 yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ond yn sgil cynnydd o ychydig dros 200 yn y boblogaeth gyffredinol, cafwyd gostyngiad bach yn y ganran.

Nodir yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fod 93 o dai wedi eu codi yn y dref rhwng 2002 a 2011. Mae'n ymddangos nad yw twf o'r fath wedi cael effaith rhy negyddol ar y Gymraeg yn y dref ei hun. Fodd bynnag, mae'r nifer y darperir amdanynt ar gyfer cyfnod y cynllun bron bedair gwaith cymaint â hyn, ac ni ellir cymryd yn ganiataol y gallai'r dref ddygymod â mewnfudiad ar y raddfa hon.

Mae'r Cynllun Adnau yn disgrifio Pwllheli fel cyrchfan ryngwladol ar gyfer hwylio a gweithgareddau dŵr. O weld hanes demograffaidd trefi glan-môr Cymru dros y blynyddoedd, mae'n amlwg fod Pwllheli am fod yn gyrchfan boblogaidd i fewnfudwyr, naill ai i ymddeol neu i'r rheini nad oes yn rhaid iddynt weithio. Mae potensial amlwg felly ni i nifer mor fawr o dai gael effaith negyddol uniongyrchol ar y dref. Hyd yn oed os mai pobl sy'n gallu siarad Cymraeg fyddai'n ffurfio cyfran sylweddol o'r twf, mae'n debyg mai o fewn ardal Dwyfor y deuai'r mwyafrif ohonynt

– ardal sydd wedi gweld gostyngiad yn eu niferoedd, a lle mae gostyngiadau wedi bod yn y canrannau sy'n siarad Cymraeg yn rhai o'r pentrefi cyfagos. Os felly, byddai'r tai yn cael effaith anuniongyrchol ar y pentrefi cyfagos. Rhaid ystyried twf o'r fath yng nghyd-destun yr ardal gyfan felly yn hytrach na'r dref yn unig.

Hyd yn oed pe bai pobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn cyfrif am tua hanner y cynnydd mewn poblogaeth, byddai'n golygu gostyngiad o tua 5 pwynt canran yn y gyfran o bobl y dref sy'n siarad Cymraeg. Pe bai'r ganran yn is, byddai'n ddigon i dynnu canran Dwyfor yn is na'r trothwy o 70%. O ystyried y dirywiad cyson a graddol sydd wedi bod mewn ardaloedd cyfagos dros y blynyddoedd diwethaf, ni ellir ystyried y math o niferoedd o dai sy'n cael eu cynnig ar gyfer Pwllheli ond fel cynllun cwbl anghyfrifol. Dylid pwyso'n galed am ddod â'r nifer hwn i lawr, a hefyd am ymestyn cyfyngiadau tebyg i'r rhai sydd ar waith yn Aberdaron ac Abersoch.

**Abersoch**

Fel y nodir yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, lleiafrif, sef 43.5% o boblogaeth ward Abersoch oedd yn siarad Cymraeg yn 2011.

Neilltuwyd tir ar gyfer 67 o dai yma yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o tua 15% ar nifer presennol aelwydydd y ward, er nad yw aelwydydd y ward yn cyfrif am gymaint â hanner o gyfanswm tai y ward trwy fod cymaint ohonynt yn ail gartrefi neu dai gwyliau. Yn wyneb problem fforddiadwyedd tai yn Abersoch, croesewir y ffaith mai tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a fydd yn cael eu caniatáu yma. Ar yr un pryd, dylid monitro effaith datblygiadau o'r fath ac asesu a yw'r meini prawf yn ddigon cadarn i sicrhau bod cyfran ddigonol o'r tai yn mynd i'r boblogaeth gynhenid.

**Nefyn**

| Ward Nefyn | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 73 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1318 | 1313 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 76.1 | 78.8 |

Neilltuir lle ar gyfer 73 o dai yn Nefyn dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd ychydig dros dri chwarter y boblogaeth, 76.1%, yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â 78.8% yn 2001.

Arhosodd y boblogaeth yn sefydlog rhwng 2001 a 2011 gyda gostyngiad bach iawn yn nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg. Nodir yn asesiad yr Uned fod 34 o anheddau wedi eu codi rhwng 2002 a 2011, sy'n cynrychioli 4.5% o'r stoc tai. Mae'r 73 o anheddau arfaethedig yn gynnydd llawer mwy na hyn, ac o ddefnyddio'r

amcanestyniad o gyfartaledd poblogaeth aelwydydd o 2.18 erbyn 2026, byddai'n golygu cynnydd o tua 140, neu 10% yn y boblogaeth.

Mae hwn ynddo'i hun yn gynnydd gweddol sylweddol. Fodd bynnag, pan ystyrir cynnydd o'r fath yng nghyd-destun cynnydd anferthol ym Mhwllheli hefyd, nad yw ond 7 milltir i ffwrdd, rhaid fydd gofyn o ble y daw'r holl boblogaeth newydd. Pe byddai llai na'u hanner yn siarad Cymraeg, fe fyddai'n ddigon i effeithio'n andwyol ar naws Gymreig a Chymraeg y pentref.

Yn wyneb poblogrwydd Nefyn fel pentref glan-môr, dylid ystyried yr un math o gyfyngiadau ag sydd yn Abersoch; er nad yw'r sefyllfa agos cynddrwg yma, gwell fyddai cymryd camau cyn i'r sefyllfa waethygu.

**Pentrefi llai**

**Botwnnog**

Er nad yw 40 tŷ yn ymddangos yn nifer mawr ar yr olwg gyntaf, pan ystyriwn faint y pentref mae'n gynnydd sylweddol iawn. Poblogaeth o 312 yn unig sydd i'r ardal sy'n cynnwys pentref Botwnnog ac nad yw'n cyfrif ond am tua thraean o'r ward o'r un enw. Fel y nodir yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, roedd 84.3% o boblogaeth yr ardal gynnyrch (output area) yma yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Llai clir yw perthnasedd ac arwyddocâd brawddegau fel: "Mae bodolaeth ysgol gynradd, ysgol uwchradd a meddygfa'n golygu bod yna gyfleon i siarad Cymraeg tu allan i'r aelwyd."

Mae'n werth edrych ar y twf arfaethedig yng nghyd-destun maint y pentref. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 132 o aelwydydd yn yr ardal gynnyrch sy'n cynnwys Botwnnog y cyfeiriwyd ati uchod. Byddai 40 o dai newydd yn golygu cynnydd o 30%, ac o leiaf 20% o gynnydd yn y boblogaeth. Yn wyneb yr holl ddatblygiadau eraill ym Mhwllheli a Nefyn, anodd rhagweld na fyddai'n annog mwy o fewnfudo di-Gymraeg, ac yn wyneb maint bychan y pentref ni fyddai'n cymryd llawer i effeithio'n andwyol ar un o ardaloedd Cymreiciaf Llŷn.

Gan gydnabod bod hwn yn ddatblygiad sylweddol mewn cymhariaeth â maint y pentref, mae asesiad ieithyddol yr Uned yn argymell datblygu mewn dull graddol. Nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell gan fod angen archwilio'n drylwyr beth yw'r galw lleol (nodir bod 12 o dai fforddiadwy eisoes wedi eu codi yno), ac o gofio poblogrwydd penrhyn Llŷn fel cyrchfan ymwelwyr, gosod amodau llym ar unrhyw dai newydd.

**Y Ffôr**

Fel y nodir yn asesiad ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, mae canran o 85.7% yn siarad Cymraeg ym mhentref y Ffôr, sy'n rhan o ward Abererch. Mae'r twf o 40 o dai a argymhellir yn bur sylweddol i bentref bach, ac ar sail amcanestyniadau poblogaeth aelwyd o 2.18 erbyn 2026, byddai'n gyfystyr â cynnydd o tua 75, neu

14% yn y boblogaeth. Yn wyneb cryfder y Gymraeg yn y pentref, mae'n bosibl na fyddai hyn ynddo'i hun yn cael effaith niweidiol petai'r unig ddatblygiad o'i fath yn yr ardal. Rhaid atgoffa'n hunain, fodd bynnag, o'r cyd-destun cyffredinol drwy holl ardal Dwyfor lle mae datblygiadau sy'n anghymesur â'r galw lleol yn digwydd mewn llawer lle. Da yw gweld asesiad yr Uned yn argymell bod datblygiadau'n digwydd mewn camau; dylid ychwanegu hefyd yr angen am fonitro ieithyddol trylwyr.

**Chwilog**

Mae'r sylwadau ar gyfer y Ffôr uchod yr un mor berthnasol am Chwilog. Pentref bach sydd â chyfran uchel yn siarad Cymraeg, lle byddai 40 o dai yn golygu cynnydd sylweddol yn y boblogaeth. Effaith cronnol yr holl ddatblygiadau eraill yn yr ardal sy'n peri'r pryder mwyaf.

Ni ddylid diystyru potensial pentrefi deniadol fel hyn dafliad carreg o'r môr fel cyrchfannau i fewnfudwyr o'r tu allan, ac mae angen edrych o ddifrif ar anghenion lleol. Mae cadarnleoedd Cymraeg gwledig fel Chwilog, y Ffôr a Botwnnog yn amhrisiadwy i ddyfodol yr iaith gan fod pentrefi o'r fath mor brin bellach.

# Dosbarthiad twf Môn

## Dalgylch Glannau Menai

**Porthaethwy**

| Tref Porthaethwy (wardiau Cadnant a Tysilio | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 115 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3263 | 3018 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 54.9 | 60.5 |

Neilltuir tir ar gyfer 115 o dai yma, sy'n cymharu â 101 o anheddau a gafodd eu codi rhwng 2002 a 2011. Arweiniodd hynny at gynnydd o tua 200 neu 6.5% yn y boblogaeth, gyda phobl o'r tu allan i Gymru'n cyfrif am fwy neu lai'r cyfan o'r twf. Aeth y gyfran sy'n siarad Cymraeg yma i lawr o 60.5% yn 2001 i 54.9% yn 2011. Er nad yw'r cynnydd arfaethedig mewn tai yn fawr o gymharu â maint y dref, mae tueddiadau'r ddegawd flaenorol yn awgrymu y gallai gyfrannu at ddirywiad pellach yn yr iaith.

**Llanfairpwll**

| Cymuned Llanfairpwll (wardiau Braint a Gwyngyll) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 82 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3023 | 2952 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 71.8 | 75.7 |

Er nad yw Llanfairpwll ond tafliad carreg i ffwrdd o Borthaethwy, mae'r ganran sy'n siarad Cymraeg yma'n llawer uwch. Roedd 71.8% yn siarad Cymraeg yma yn 2011, o gymharu â 75.6% yn 2001. Digwyddodd gostyngiad bach yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg law yn llaw â chynnydd bach yn y boblogaeth.

Mae'r twf o 82 o dai newydd yng nghyfnod y Cynllun yn cymharu â 70 a godwyd rhwng 2002 a 2011. O weld mai bychan fu'r twf mewn poblogaeth o ganlyniad i hyn, nid yw'r dyraniad o dai newydd yn ymddangos yn rhy afresymol. Yn wyneb y ffaith fod Llanfairpwll mor agos ar gyfer y trothwy o 70% yn gallu siarad Cymraeg, dylid ystyried amodau cyflwyno graddol ar unrhyw dai newydd, a bod effaith unrhyw ddatblygiadau yn cael eu monitro'n ieithyddol yn drwyadl ac yn effeithiol.

Noda asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ei bod yn "bwysig sicrhau bod cyflogwyr yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle". Ni fyddai neb yn anghytuno â hynny, ond anodd gweld pa sut mae gosodiadau o'r fath yn berthnasol i asesu effaith cynlluniau i godi tai newydd.

**Biwmares**

| Tref / Ward Biwmares | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 96 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 1892 | 2010 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 39.5 | 39.7 |

Ar hyd y blynyddoedd, mae Biwmares wedi bod yn un o drefi mwyaf Seisnig Môn. Dim ond 39.5% o'r boblogaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, bron union yr un fath â'r hyn oedd yn 2011. Mae cyfran uchel o bobl a aned y tu allan i Gymru yn byw yn y dref, a chyfran uchel hefyd o'r boblogaeth gynhenid yn ddi-Gymraeg.

Neilltuir tir ar gyfer codi 96 o dai yn y dref yn ystod y Cynllun Datblygu Lleol. Gan nad yw hyn yn gynnydd mawr o gymharu â maint y dref ac oherwydd mai tai fforddiadwy a thai marchnad leol yn unig a fydd yn cael eu caniatáu yma, a chan nad yw'r dref yn un o sensitifrwydd ieithyddol, nid yw'r dyraniad hwn yn achosi gormod o bryder.

## Dalgylch Amlwch

| Tref Amlwch | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 533 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3658 | |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 61.1 | |

Nodwyd twf o 533 o dai ar gyfer tref Amlwch yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol. Roedd 61.1% o'r boblogaeth o 3,658 o bobl dros 3 oed yn ardal Cyngor Tref Amlwch yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, a'r gyfradd ychydig yn uwch yn y dref ei hun nag yn rhan wledig y gymuned. Oherwydd dryswch a ddigwyddodd gyda Chyfrifiad 2001 yn y dref, nid oes ffigurau dibynadwy ar gael i allu gwneud cymariaethau uniongyrchol.

Byddai'r datblygiadau newydd yn golygu twf o 31.6% yn nifer yr aelwydydd, ac ar sail poblogaeth gyfartalog o 2.18 i bob aelwyd, byddai'n arwain at dwf o 28.6% yn y boblogaeth a fyddai'n nesáu at 5,000. Ni ellir rhagweld i sicrwydd faint o'r boblogaeth newydd hon fyddai'n hanu o ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, fel yn achos Gwynedd, os oes twf cyffredinol a sylweddol mewn anheddau ar draws yr ynys, ni fydd digon o bobl leol i gyfrif am y twf cyfatebol mewn poblogaeth. Os bydd cyfran uwch na'r disgwyl o'r tai hyn yn Amlwch yn cael eu prynu gan bobl o Fôn, mae hynny yn ei dro yn sicr o arwain at wagleoedd i'w llenwi gan fewnfudwyr o'r tu allan. Gall rhai o'r mewnfudwyr, wrth gwrs, fod yn dod o Wynedd, ond i ddibenion yr asesiad hwn, gallasai hynny hefyd fod ar draul cymunedau yng Ngwynedd. Ac fel y nodwyd ar ddechrau'r asesiad hwn, ymddengys mai o'r tu allan i Gymru y mae'r rhan fwyaf o fudwyr sydd o'r tu allan i Fôn a Gwynedd yn symud i'r ddwy sir.

A chymryd mai ar gyfer gweithwyr adeiladu atomfa newydd y bwriedir y mwyafrif o'r tai hyn, mae'n rhesymol disgwyl mai pobl o fannau pell i ffwrdd fydd y mwyafrif o'r rhain. Dyna yw'r awgrym clir yn yr adroddiad Atomfa Newydd yr Wylfa, sy'n dweud mai pobl sy'n byw fwy na 90 munud o amser teithio oddi yno fyddai 70% o'r gweithwyr adeiladu. Os bydd mwyafrif y tai yn mynd i bobl ddi-Gymraeg, byddai'n cael effaith anferthol ar y dref, ac ni ellir diystyru'n posibilrwydd y gallai fod yn ddigon i wthio'r gyfran islaw'r hanner.

Yn wyneb y potensial am effaith mor bellgyrhaeddol â hyn, ni ellir ond gresynu at rai o'r sylwadau arwynebol yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd. "Nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Amlwch ac mae'r posibilrwydd y caiff unedau newydd eu defnyddio i'r perwyl hwn yn isel." Gan nad oes neb yn sôn am ail gartrefi p'run bynnag beth yw diben crybwyll hyn? Wedyn dywedir: "Bydd disgwyl i gyflogwyr hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn y gweithle." Ni cheir unrhyw awgrym, fodd bynnag, pa fodd y gellir sicrhau hyn.

**Canolfannau Gwasanaethau Lleol**

**Cemaes**

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn dyrannu 81 o dai newydd i'w codi yng Nghemaes. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd o 12.5% yn nifer yr aelwydydd, ac ar sail maint cyfartalog aelwydydd o 2.18, gallai arwain at gynnydd o tua 200 yn y boblogaeth.

Mae'n un o'r pentrefi sydd wedi Seisnigeiddio fwyaf yn yr ardal, gyda chyfrannau isel o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru (54.8%), a 52.4% yn siarad Cymraeg. O edrych ar batrwm cyffredinol yr ardal ehangach, mae'n anodd osgoi'r casgliad mai buan y bydd cynnydd pellach yn y boblogaeth yn gwthio'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg islaw'r hanner.

**Benllech**

| Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf (2 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 90 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 3318 | 3332 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 46.5 | 48.6 |

Mae'r hyn sydd wedi digwydd yng nghymuned Llanfair Mathafarn Eithaf dros y 40-50 mlynedd yn dangos y math o effaith y gall gor-ddatblygu ei gael ar gymunedau gwledig. Mae'r gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yma wedi bod yn is na'r hanner ers cyfnod o adeiladu helaeth yn yr 1960au. Mae'r gyfran wedi aros yn weddol gyson ers hynny ond y boblogaeth wedi dal i gynyddu. Roedd 46.5% o boblogaeth y gymuned o 3,382 yn siarad Cymraeg yn 2011.

Bwriedir codi 90 o dai yma yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol, a allai, ar sail poblogaeth aelwyd o 2.18, arwain at dwf o tua 250-300 yn y boblogaeth.

Fel yn achos cymaint o ardaloedd eraill, nid effaith twf o'r fath ar y gymuned ei hun yw'r prif bryder, ond y ffaith ei fod yn debygol o fod yn cyfrannu ymhellach at Seisnigeiddio'r ynys.

**Pentraeth**

Dyrannwyd 57 o dai ar gyfer Pentraeth yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol, o gymharu â 12 o dai a godwyd rhwng 2002 a 2011. Roedd 54.8% o boblogaeth y ward o ychydig dros 1,800 yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. O gymharu â'r twf arfaethedig mewn sawl ardal gyfagos, nid yw'r hyn a ddynodir ar gyfer Pentraeth yn ymddangos fel pe bai'n debyg o arwain at newid mawr yn y boblogaeth.

**Llannerchymedd**

Mae Llanerchymedd ymysg pentrefi gwledig Cymreiciaf Môn. Roedd 73.8% yn siarad Cymraeg yng nghymuned Llanerchymedd yng Nghyfrifiad 2011, a oedd yn cynrychioli cynnydd mewn nifer ond gostyngiad yn y ganran o 75.6% yn 2001. Yn ystod y ddegawd, bu cynnydd o 146 yn y boblogaeth gyffredinol, a chynnydd llai o 87 yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

Neilltuir 40 o dai ar gyfer pentref Llanerchymedd yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n wir nad yw hyn yn cynrychioli twf mawr mewn cymhariaeth â nifer presennol aelwydydd y ward. Nodir yn asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fod 55 o dai wedi cael eu codi rhwng 2002 a 2011. I'r graddau fod y cynnydd hwnnw wedi arwain at gynnydd yn nifer siaradwyr Cymraeg y gymuned a hynny heb ostwng y ganran yn ormodol, gellir cydnabod nad oes tystiolaeth i'r tai hynny niweidio Cymreictod y pentref. Ar y llaw arall, mae angen edrych yn ofalus a oes tystiolaeth gadarn o alw lleol am fwy fyth o ddatblygu yn y pentref. Yn sicr, dylid mynnu bod argymhelliad asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd o weithredu'r polisi gam wrth gam yn cael ei dderbyn.

## Dalgylch Caergybi

| Tref Caergybi (7 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 833 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 10942 | 10808 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 42.2 | 47.2 |

Caergybi yw'r dref fwyaf ym Môn o ddigon, ac mae'n dref a welodd ddirywiad cyson yn y gyfran a'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg dros y blynyddoedd. Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 42.2% o'r boblogaeth o 10,942 yn gallu'r Gymraeg. Fel y gwelir yn y graff ar y dudalen gyferbyn, bu cwymp o 483 yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dref rhwng 2001 a 2011 o gymharu â chynnydd bach o 134 yn y boblogaeth gyffredinol dros 3 oed.


Ar y llaw arall, mae 73.9% o bobl y dref wedi eu geni yng Nghymru, o gymharu â'r gyfran gyfatebol o 65.4% am Fôn yn ei chyfanrwydd. O blith y rhai a aned yng Nghymru, mae tua'u hanner yn gallu siarad Cymraeg, er bod y gyfran yn tueddu i fod yn uwch ymysg oedolion hŷn nag yw ymhlith oedolion iau. Diddorol nodi hefyd fod cyfran uchel o 19.7% o bobl yn deall Cymraeg llafar yn unig, ac mae'r rhain yn ychwanegol at y gyfran o 42.2% sy'n ei siarad.

Mae Caergybi'n dref felly lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn dirywio, ond lle mae'n ymddangos fod cryn wybodaeth a dealltwriaeth o'r iaith o dan yr wyneb.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu ar gyfer codi 833 o dai yn y cyfnod hyd at 2026. Mae'n gyfystyr â chynnydd o 16% yng nghyfanswm aelwydydd y saith ward sy'n ffurfio cymuned y dref. O ddefnyddio amcanestyniad o boblogaeth gyfartalog o 2.18 ar gyfer aelwydydd, byddai'n arwain at gynnydd o tua 1,800 ym mhoblogaeth y dref.

Mae hyn yn sicr o gael effaith pellgyrhaeddol ar y dref ac ar yr ynys yn ei chyfanrwydd. Mae hyn yn debygol o fod yn wir hefyd, o ba le bynnag y daw'r cynnydd yn y boblogaeth.

Os daw cyfran sylweddol o'r cynnydd o rannau eraill o Fôn, gan gynnwys rhai o bentrefi Cymreiciaf yr ynys, mae am fod yn ergyd i'r cymunedau hynny, ac yn debygol o arwain at fewnfudo iddynt. Gyda'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn llai na 40% ym mhob grŵp oedran gwaith yn y dref, mae'n annhebygol y byddai cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg o ganlyniad i fewnfudo o rannau eraill yr ynys yn ddigon i gael dylanwad cadarnhaol ar y dref. Mae'n debygol mai'r gwrthwyneb a fyddai'n digwydd, a'r siaradwyr Cymraeg sy'n hanu o gymunedau Cymreiciach yn cael llai o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.




Os, ar y llaw arall, mai pobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i Fôn a Gwynedd, a'r mwyafrif ohonynt o'r tu allan i Gymru fyddai'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r cynnydd, gallai hynny fod yn ergyd bellach i'r Gymraeg yn y dref, ac yn erydu ymhellach yr ymwybyddiaeth ohoni. Mae tystiolaeth hefyd o Seisnigrwydd y dref yn cael effaith negyddol ar bentrefi eraill y dalgylch o'i chwmpas; gallai cynnydd mawr yn ei phoblogaeth waethygu'r sefyllfa'n enbyd.

Gyda rhagolygon y Gymraeg yng Nghaergybi yn ymddangos yn ddigon bregus, gellid derbyn na fyddai cynnydd gweddol fach yn y boblogaeth yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae cynnydd o'r raddfa hwn, fodd bynnag, yn un ac iddo oblygiadau i'r ynys gyfan.

**Y Fali**
Roedd 54.7% o drigolion ward y Fali yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, sy'n uwch na'r hyn yw yng Nghaergybi, ac sy'n weddol debyg i amryw o gymunedau arfordirol yr ynys. Dynodwyd 84 o dai newydd ar gyfer y Fali yn ystod cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Ni byddai cynnydd o'r fath yn un mawr iawn, ac ni fyddai'n ddigon ynddo'i hun i beri pryder. Yn wyneb y cynnydd anferth arfaethedig yng Nghaergybi fodd bynnag, ni ellir anwybyddu effeithiau cronnol datblygiadau llai fel hwn.

**Rhosneigr**
Y pentref glan-môr hwn yw ward fwyaf Seisnig yr ynys, lle nad oes ond 36% o'r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Byddai codi 70 o dai newydd fel y dynoda'r cynllun yn golygu cynnydd o 14% yn nifer aelwydydd y ward, ac efallai gynnydd tebyg yn y boblogaeth o fymryn dros fil. Ni fyddai cynnydd o'r fath yn debyg o gael fawr o effaith ar naws ieithyddol y pentref ei hun, ond ni ellir anwybyddu effeithiau cronnol posibl ddatblygiadau fel hyn ar weddill yr ynys. Dylid nodi hefyd fod y cynnydd arfaethedig ar ben 117 o dai a godwyd yn y ward rhwng 2002 a 2011.

**Bodedern**
Roedd 70.7% o boblogaeth cymuned Bodedern yn gallu siarad Cymraeg yn 2011; mae cymunedau a phlwyfi canol yr ynys yn sylweddol mwy Cymreigaidd na rhai'r arfordir. Gallai'r bwriad i godi 57 o dai arwain at gynnydd o tua 100 ym mhoblogaeth y pentref. Byddai angen cymryd gofal gydag unrhyw ddatblygiad newydd mewn

pentref nad yw ond prin dros 70%, a da gweld argymhelliad dros sicrhau datblygu fesul cam. Gwaeth na'r dyraniad penodol hwn yw'r ffaith fod Bodedern yr union y math o bentref sydd o dan y bygythiad mwyaf yn sgil y datblygiadau yng Nghaergybi. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi fel nod yr angen i gynyddu cymunedau â thros 70% yn gallu siarad Cymraeg; anodd gweld rhagolygon addawol dros gadw cyfran o'r fath yn y gymuned hon os bydd y datblygu'n digwydd ar y raddfa a fwriedir yn y Cynllun.

**Gwalchmai**

Gyda chyfran o 72.6% o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg, mae Trewalchmai yn un o gymunedau Cymreiciaf yr ynys. Bu cynnydd o 55 yn y niferoedd a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011, ond gyda chynnydd o 116 yn y boblogaeth gyffredinol aeth y ganran i lawr o 75.9%.

Dynodir 40 o dai newydd ar gyfer Gwalchmai yn y Cynllun Datblygu Lleol, sy'n golygu cynnydd o tua 10% yn nifer yr aelwydydd, ac mae hyn ar ben 32 o dai newydd a godwyd rhwng 2002 a 2011. Dylid sicrhau bod unrhyw ddatblygu'n digwydd fesul cam a bod effaith pob cam yn cael ei fonitro'n ofalus.

## Dalgylch Llangefni

| Tref Llangefni (3 ward) | | |
|---|---|---|
| Nifer y tai y dynodir tir ar eu cyfer | 673 | |
| | 2011 | 2001 |
| Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | 4886 | 4499 |
| Canran sy'n gallu siarad Cymraeg | 80.7 | 83.8 |

Yn nhref Llangefni y mae'r ganran uchaf o bobl sy'n siarad Cymraeg o holl gymunedau Môn. Roedd mymryn dros 80% yn gallu siarad Cymraeg yn y dref yn ôl Cyfrifiad 2011, ac mae'r ardal wledig o'i chwmpas hefyd â thros 70% yn siarad Cymraeg. Yn wir, dim ond yng Nghaernarfon a'r cyffiniau y ceir canolfannau poblog sydd â chanrannau uwch yn gallu siarad Cymraeg nag sydd yn Llangefni.

Mae'n dref sydd wedi gweld cryn dwf yn ei phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, pryd y codwyd 239 o dai newydd yno. Aeth y boblogaeth i fyny ychydig dros 400 rhwng y ddau gyfrifiad. Aeth y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dref i fyny 171, ond bu gostyngiad bach yn y ganran - o 83.8% yn 2001 i 80.7% yn 2011. Yn y pum cymuned sy'n amgylchynu Llangefni, sef Bodffordd, Llanddyfnan, Llangristiolus, Llanfihangel Esceifiog a Penmynydd, cafwyd cynnydd bach yn y boblogaeth gyffredinol dros yr un cyfnod, ond gostyngiad o 79 yn y niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu'n gryf fod y twf yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn Llangefni i'w briodoli'n rhannol i symudiad pobl leol o bentrefi cyfagos i'r dref.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn neilltuo tir ar gyfer 673 o dai yn Llangefni. Mae hyn bron deirgwaith y twf a welwyd rhwng 2002 a 2011. Mae'n cynrychioli cynnydd o tua 30% yn nifer aelwydydd y dref, ac o edrych ar faint cyfartalog aelwydydd, byddai cynnydd o 1,200 yn y boblogaeth yn amcancyfrif gweddol geidwadol. Felly rydym mewn gwirionedd yn sôn am gynnydd o tua 25% ym mhoblogaeth y dref.

Y cwestiwn amlwg i'w ofyn yw: O ble daw'r holl boblogaeth newydd? Hyd yn oed gyda thwf llawer iawn llai rhwng 2001 a 2011, pobl o'r tu allan i Gymru oedd yn cyfrif am bron i hanner y twf. Mae'n ymddangos hefyd fod hynny a fu o dwf yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn y dref i'w briodoli'n rhannol ar bobl leol yn symud yno o'r pentrefi cyfagos.

Mae graddfa anferthol y twf arfaethedig yn gofyn am ystyried o ddifrif beth fydd ei oblygiadau. Gyda dim twf naturiol yn cael ei ddarogan yn yr ynys, mae'n dilyn mai mewnfudo fydd unig elfen y twf mewn poblogaeth. I ddiben yr asesiad hwn, ni ellir ystyried mewnfudo o Wynedd gan y byddai hynny'n cyfrannu at golledion yng Ngwynedd, ac mae patrymau mudo'n awgrymu mai o'r tu allan i Gymru y daw mwyafrif y mudwyr a ddaw o'r tu allan i'r ddwy sir hyn os ystyrir hwy fel un uned gyda'i gilydd. O safbwynt twf penodol Llangefni, os bydd cyfran uwch na'r disgwyl o'r boblogaeth newydd yn siarad Cymraeg, mae'n hynod debygol o fod ar draul Cymreictod cymunedau eraill ym Môn.

O gymryd yr holl ffactorau hyn i ystyriaeth, mae'n werth cymryd senario o effaith y twf poblogaeth ar y dref petai chwarter y bobl newydd yn gallu siarad Cymraeg. Os felly byddai gennym gyfanswm o 4242 o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn y dref allan o boblogaeth o 6086, sy'n gwneud cyfran o 69.7%. Nid y ffaith y byddai hyn y mymryn lleiaf o dan 70% yw'r peth arwyddocaol ond y gostyngiad anferthol yn y ganran.

Senario bosibl arall yw y byddai cyfran uchel o boblogaeth newydd Llangefni'n siarad Cymraeg, ond bod hynny yn sgil pobl sy'n hanu o bentrefi eraill cyfagos. Effaith uniongyrchol hynny fyddai colli rhagor o gymunedau gwledig lle mae 70% yn siarad Cymraeg.

Mae'n werth atgoffa'n hunain eto fod y Cynllun Datblygu Lleol yn gosod nod strategol o gynyddu'r cymunedau lle mae dros 70% yn siarad yr iaith. Anodd gweld sut mae cynigion fel y rhain sydd ganddo ar gyfer Llangefni yn cyfrannu at ragolygon realistig iddo allu gwneud hynny.

Yn wyneb bygythiad amlwg twf ar y raddfa hon i gadarnle Cymreicaf yr ynys, ac un o gadarnleoedd cryfaf y Gymraeg, gresyn yw gweld nad oes gan asesiad yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fawr ddim i'w ddweud ond ystrydebau fel y ffaith fod 80.3% "yn 10.3% yn uwch na'r lefel o 70% sy'n cael ei adnabod fel ffigwr lle mae'n debyg bod yr iaith yn hyfyw" neu "nid yw ail gartrefi'n broblem arwyddocaol yn Llangefni".

**Gaerwen**

Roedd 76.5% o'r boblogaeth o 1500 yng nghymuned Llanfihangel Esceifiog yn siarad Cymraeg yn 2011. Nid yw'r 58 o dai sy'n cael eu dyrannu ar gyfer y pentref yn y Cynllun Datblygu Lleol yn debygol o arwain at gynnydd mawr yn y boblogaeth, ac nid yw'n destun pryder ynddo'i hun. Mae'r Gaerwen, ar y llaw arall, yn union y math o bentref a allai fod dan fygythiad y twf anferthol arfaethedig yn Llangefni.

# Crynodeb a chasgliadau

Gwynedd a Môn yw'r unig ardal Cynllun Datblygu Lleol yng Nghymru lle mae mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r Gymraeg felly'n rhan gwbl hanfodol o gymeriad a threftadaeth unigryw'r ardal. O fewn Gwynedd a Môn hefyd y mae mwyafrif llethol y cymunedau lle mae dros 70% o'u poblogaeth yn gallu'r iaith. Mae i'r ardal felly arwyddocâd cwbl allweddol i ddyfodol yr iaith.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg, ac un o'i Amcanion Strategol yw "cyfrannu at greu mwy o gymunedau gyda chyfran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg"[14].

Mae'r graddau y llwyddir i gynnal a chryfhau Cymreictod y cymunedau hyn, ac ychwanegu atynt, am fod yn faen prawf pwysig wrth fesur llwyddiant Amcan Strategol y Cynllun Datblygu Lleol. Nid rhywbeth i'w ddiystyru fel geiriau gwag yn llawn bwriadau da a dim byd arall yw Amcan Strategol ond nod mesuradwy.

Yn anffodus, mae'r ymchwil a wnaed ar gyfer yr asesiad hwn yn awgrymu bod sawl agwedd o'r Cynllun Datblygu Lleol mewn perygl o lesteirio yn hytrach na hyrwyddo Amcan Strategol 4.

Gan na fydd modd profi i sicrwydd beth fydd canlyniadau'r Cynllun Datblygu Lleol cyn cyhoeddi Cyfrifiad 2021 (ac nid yw ffigurau iaith yn arfer cael eu cyhoeddi am tua dwy flynedd wedyn), mae angen rhagor o waith ymchwil i geisio rhagweld yn fanylach sut mae mynd ati i gyflawni Amcan Strategol 4.

**Argymhelliad 1**. Paratoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer cyflawni Amcan Strategol 4, sef "cyfrannu at greu mwy o gymunedau gyda chyfran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg", ac addasu'r Cynllun Datblygu Lleol fel bo'r angen yn unol â hynny.

Lawn cyn bwysiced â chymunedau unigol yw'r angen i gynyddu'r canrannau cyffredinol yn y ddwy sir sy'n gallu'r Gymraeg, yn enwedig yn y rhannau ohonynt sy'n ffurfio prif ardal graidd y Gymraeg sy'n ymestyn o ganolbarth Môn i ogledd Meirionnydd.

Mae pawb yn sylweddoli nad yw cyflawni nod o'r fath yn rhywbeth y gall unrhyw gyfundrefn gynllunio ei wneud ar ei phen ei hun. Ar yr un pryd, mae gan y gyfundrefn gynllunio swyddogaeth bwysig o ran rhwystro datblygiadau a fyddai'n cael effaith negyddol ar ymdrechion i gynnal a chryfhau Cymreictod ein prif gadarnleoedd.

Gallai fod dadl dros weld rhyw fath o gydnabyddiaeth genedlaethol, o du Uned y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru neu Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i bwysigrwydd allweddol yr ardaloedd hyn. Gallent gynnig cymorth a chanllawiau

[14] Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn SO4

arbenigol, er enghraifft, ar geisio datblygu'r gyfundrefn gynllunio a fyddai fwyaf tebygol o fod fwyaf ffafriol i gynnal eu Cymreictod. Ar yr un pryd, da hefyd fyddai gweld mwy o ddyfeisgarwch a dychymyg yn lleol ar dorri cwys wahanol i weddill Cymru a mwy o bwyslais ar yr hyn sy'n gwneud Gwynedd a Môn yn wahanol.

Yn anffodus, ymddengys nad yw'r ffordd yr aed ati i baratoi'r cynllun yn ddim gwahanol i unrhyw ardal ddatblygu arall yng Nghymru neu weddill Prydain.

**Argymhelliad 2.** Ceisio cydnabyddiaeth genedlaethol arbennig ym maes cynllunio i Wynedd a Môn ar sail eu pwysigrwydd i ddyfodol y Gymraeg.

Wrth asesu effaith tebygol y Cynllun Datblygu Lleol hwn ar y Gymraeg, daw dau brif bryder i'r amlwg:

- y cynnydd gormodol mewn poblogaeth y darperir ar ei gyfer
- rhai o'r ardaloedd lle dosberthir y twf poblogaeth hwn.

Rhaid pwysleisio na ddylid gweld pob twf mewn poblogaeth fel bygythiad i'w wrthsefyll. Yn wir, byddai gweld rhai o gadarnleoedd y Gymraeg yn cynyddu yn eu poblogaeth yn ddatblygiad i'w groesawu mewn byd delfrydol. Yn anffodus, fodd bynnag, mae hi'n hawdd i gynnydd poblogaeth arwain at wanhau Cymreictod y cadarnleoedd hyn.

Wrth gwrs, byddai mewnfudiad pobl Gymraeg eu hiaith, boed hwy o rannau eraill o Gymru, neu'n dychwelyd o fannau eraill, yn ddatblygiad cadarnhaol i'r iaith. Gallai mewnfudiad o bobl ddi-Gymraeg, cyn belled â'i fod yn digwydd ar raddfa fach, fod yn ddatblygiad adeiladol hefyd os yw cyfran sylweddol o'r bobl hyn yn dysgu Cymraeg. Ar y llaw arall, gall mewnfudiad ar raddfa ormodol o bobl ddi-Gymraeg newid natur ieithyddol yr ardaloedd hyn, a thrwy hynny yn cyfrannu at wanhau'r cymhelliad i ddysgu Cymraeg. Mewn llawer ardal hefyd, mae cymaint o fewnfudiad o'r fath wedi bod dros y blynyddoedd diwethaf fel y gallai cynnydd gweddol fach wneud gwahaniaeth sylweddol.

Am y rhesymau a nodir yn rhan gyntaf yr asesiad hwn, mae'r math o gynnydd poblogaeth y darperir amdano yn cynrychioli datblygiad nad yw'n debygol o fod o fudd i'r Gymraeg.

- ymddengys fod y twf poblogaeth arfaethedig fwy neu lai'n gyfan gwbl ddibynnol ar fewnfudo o'r tu allan i'r ddwy sir
- fel yr unig ddwy sir lle mae mwyafrif y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, mae'r tebygolrwydd fod pobl o'r tu allan iddynt yn gallu'r iaith yn weddol isel
- er y crybwyllir y dymuniad y bydd pobl leol yn aros yn y sir yn hytrach na gadael, ni chynigir unrhyw dystiolaeth y bydd codi tai newydd yn cael y canlyniad hwn
- gan dderbyn y posibilrwydd y gallai mwyafrif y tai newydd mewn ardal benodol gael eu prynu gan bobl leol, mae tai eraill wedyn yn debygol o fynd

yn wag o ganlyniad a'r rheini wedyn yn cael eu gwerthu i fewnfudwyr di-Gymraeg

- mae patrwm newidiadau poblogaeth ac iaith dros y degawdau diwethaf yn awgrymu tueddiad o boblogaeth gynhenid yn gadael a phobl o'r tu allan, y mwyafrif ohonynt o'r tu allan i Gymru yn symud i mewn; nid yw'r cynllun yn cynnig tystiolaeth pam y dylai darparu mwy o dai newid y tueddiad hwn.

O gymryd popeth i ystyriaeth, amcangyfrifir y gallai'r cynnydd poblogaeth ynddo'i hun arwain at ostyngiadau o tua 2-2.5% yn y ganran o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Ngwynedd a thua 2.5-3.5% ym Môn. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw ostyngiadau a allai ddigwydd yn sgil ffactorau eraill; neu byddai'n gwrthweithio unrhyw gynnydd a allasai ddigwydd.

Ar ben hyn, ymddengys nad yw amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn ddibynadwy lle mae Gwynedd yn y cwestiwn. Mae'r rhain yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, ac mae'n gwbl amlwg fod cyfran helaeth o'r cynnydd poblogaeth yng Ngwynedd i'w briodoli i'r cynnydd yn y myfyrwyr ym Mangor. Cwbl anaddas felly yw defnyddio ffigurau o'r fath i gynyddu poblogaeth mewn rhannau eraill o'r sir.

Ym Môn, ymddengys fod y posibilrwydd o atomfa newydd yn yr Wylfa wedi dylanwadu'n drwm ar y penderfyniad i ddarparu ar gyfer cymaint o dai. Nid yw'n gwbl glir fodd bynnag i ba raddau y mae'r cynnydd arfaethedig yn economi'r ynys am ddibynnu ar fodolaeth atomfa neu beidio. Mae hwn yn sicr yn fater sy'n gofyn am drafodaeth bellach.

Mae angen sylweddoli bod pob math o beryglon wrth osod dyraniadau gormodol am dai newydd. Er y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiadau unigol, mae'r awdurdod cynllunio yn agored i her gyfreithiol gan ddatblygwyr os cânt eu gwrthod. Gall sicrhau addasrwydd cynllun datblygu lleol arbed llawer o arian i drethdalwyr mewn blynyddoedd i ddod.

**Argymhelliad 3.** Ailedrych o ddifrif ar addasrwydd cyfanswm y tai newydd i anghenion yr ardal. Wrth ystyried tueddiadau poblogaeth ac iaith dros y blynyddoedd, daw'n amlwg fod y nifer yn rhy fawr. Yn hytrach na phennu cyfanswm penodol ar gyfer y ddwy sir, seilio nifer y tai ar wir anghenion ardaloedd unigol.

Mae'r Asesiadau Effaith Ieithyddol a baratowyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn dwysáu amheuon na roddwyd sylw digonol i'r Gymraeg wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol yn y lle cyntaf. Maent yn hynod arwynebol, yn llawn gosodiadau nad ydynt yn ddim byd ond mynegiant o ddymuniadau, ac yn dangos diffyg dealltwriaeth pur sylfaenol o faterion ieithyddol a chymdeithasol. Nid oes ynddynt ychwaith unrhyw dystiolaeth o sut y gall y cynigion o fewn y Cynllun Datblygu Lleol fod o fudd i'r Gymraeg yn yr ardaloedd o'i fewn. O ystyried popeth, ni ellir ystyried Asesiadau Effaith Ieithyddol yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fel tystiolaeth gadarn ar gyfer y diben y'u bwriadwyd.

Fel y nodir droeon yn yr asesiad hwn, mae'r cynnydd cyffredinol mewn poblogaeth yn sicr o gael effeithiau uniongyrchol ac anuniongrychol ar wahanol ardaloedd lle bynnag y bydd yn digwydd.

Dyna pam ei bod yn holl bwysig cadw llygad ar y darlun ehangach yn barhaus. Wrth edrych ar ddatblygiadau unigol, neu ddyraniadau ardaloedd unigol, byddai'n hawdd dadlau y gallai mwyafrif y tai gael eu prynu gan bobl leol. Os oes gor-ddarpariaeth gyffredinol drwy'r ddwy sir, fodd bynnag, mae'n dilyn yn rhesymegol na all hynny fod yn wir ym mhob ardal, oherwydd nifer cyfyngedig fydd yna o brynwyr lleol yn y pen draw. Yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol felly, bydd y cyflenwad tai yn annog mwy o fewnfudo.

Ar ben hyn, mae rhai datblygiadau penodol mewn ardaloedd unigol yn peri pryder neilltuol oherwydd arwyddocâd a sensitifrwydd ieithyddol yr ardaloedd hynny. Y cynigion sy'n peri'r pryderon mwyaf yw'r rhai ar gyfer dalgylchoedd tair o drefi Cymreiciaf Cymru, sef Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Llangefni, tair tref sy'n allweddol i Gymreictod prif ardal graidd y Gymraeg yng ngogledd Meirionnydd, Llŷn ac Eifionydd a chanolbarth Môn.

- Dynodir 300 o dai ym Mlaenau Ffestiniog, tref sydd wedi gweld gostyngiad bach yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg, a thref lle mae niferoedd y tai gwag eisoes ymhlith yr uchaf yng Ngwynedd. Heb dystiolaeth o alw lleol, gallai cynnydd ar y raddfa a argymhellir arwain at fewnfudiad a fyddai'n peri gostyngiad anghynaliadwy yn y ganran o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg yn y dref.
- Mae'r dynodiad ar gyfer dros 300 o dai yn llawer gormod ar gyfer Pwllheli. Fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r dref yn ganolfan hwylio fyd-eang ac yn sicr o fod yn lle sy'n denu prynwyr cefnog o bell ac agos. Hyd yn oed pe na bai'r effaith ar y dref ei hun cynddrwg â'r disgwyl, byddai'n sicr o effeithio ar rai o'r pentrefi cyfagos, a gallai mewnfudiad cymharol fach fod yn ddigon i dynnu'r ganran sy'n gallu siarad Cymraeg yn ardal Dwyfor islaw 70%. I Gynllun ac iddo nod o gynyddu cymunedau lle mae mwy na 70% yn siarad Cymraeg, byddai gweld rhanbarth cyfan fel Dwyfor yn gostwng uwchlaw'r lefel hon yn arwydd o fethiant llwyr ar ei ran.
- Yn yr un modd, gallai'r bwriad i godi 673 o dai yn Llangefni fod yn ergyd ddifrifol i ardal Gymreiciaf Môn. Byddai'n golygu cynnydd anferthol yn y boblogaeth ar ôl twf sylweddol sydd wedi digwydd eisoes dros y 10 mlynedd flaenorol. Mae'n anodd iawn rhagweld sut na fyddai cynnydd o'r fath yn gwanhau Cymreictod y dref a'r ardaloedd o'i chwmpas.

**Argymhelliad 4**. Rhoi sylw arbennig a phenodol i'r dyraniad tai ar gyfer Blaenau Ffestiniog, Pwllheli a Llangefni. Ni ellir cyfiawnhau'r graddau hyn o ddatblygu ynddynt oni bai y gellir dangos tystiolaeth gadarn a dibynadwy y byddai'n llesol i'r Gymraeg.

Ar ben yr effeithiau uniongyrchol ar yr ardaloedd sensitif y cyfeirir atynt uchod, mae angen edrych ar sgil-effeithiau posibl ardaloedd eraill yn ogystal.

- Anodd gweld unrhyw sail resymegol i'r twf arfaethedig o bron i 1,000 o dai ym Mangor. Fel y nodir yn yr asesiad hwn, cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhwng 2001 a 2011 sydd fwy neu lai'n gyfan gwbl gyfrifol am y cynnydd ym mhoblogaeth y ddinas dros yr un cyfnod. Nid oes unrhyw dystiolaeth y byddai cynnydd o'r fath yn debygol o barhau. Gyda Bangor o fewn pellter teithio hwylus i drefi ymhellach i'r dwyrain a hyd yn oed cyn belled ag ardal Caer, a gallai llawer o'r tai newydd hyn arwain at Seisnigeiddio pellach. Ar ben hyn, rhaid amau gwerth y syniad o ganoli gormod o ddatblygiadau ym Mangor gan y gallai hynny fod ar draul ardaloedd eraill o'r sir. Mewn geiriau eraill, anodd gweld pa les a all ddod o'r gorddarparu hwn. Os bydd yn denu cyfran rhy uchel o'r tu allan i'r sir, mae'n debyg o gyfrannu at Seisnigeiddio'r ddinas ymhellach, ac os bydd yn denu mwy na'r disgwyl o fewn Gwynedd a Môn bydd yn cyfrannu at dlodi mannau eraill mwy gwledig a mwy Cymraeg.
- Mae llawer o'r un peth yn wir am Gaergybi, lle byddai ychwanegu 833 o dai at y dref yn cael effaith ar yr ynys gyfan. Mae'r Gymraeg eisoes ar drai yn y dref, a gallai rhagor o bobl o'r tu allan ei Seisnigeiddio ymhellach, a chynnydd cyffredinol yn y dref gael mwy o effaith ar yr ardal o'i chwmpas. Gallai hefyd gyfrannu at golli poblogaeth gynhenid Gymraeg o ardaloedd mwy gwledig yr ynys.
- Er nad yw'r nifer o dai a neilltuir ar gyfer Caernarfon a'r cyffiniau mor fawr mewn cymhariaeth â'r boblogaeth nac ychwaith mor debygol o effeithio i'r un graddau ar iaith y dref a'r pentrefi cyfagos, ni ellir anwybyddu'r peryglon o effeithiau anuniongyrchol trwy gadarnhau'r tueddiadau presennol o gynnydd mewn poblogaeth yn y cylch ar draul rhai o ardaloedd mwy gwledig y sir. Mae'r cyfan yn cyfrannu at ddarpariaeth gyffredinol o dai sy'n ormodol ar gyfer y sefyllfa sydd ohoni yng Ngwynedd a Môn.

| |
|---|
| **Argymhelliad 5.** Ystyried effeithiau anuniongyrchol, yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol, unrhyw ddatblygiadau ar y Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun twf gormodol yn rhai o'r trefi mwyaf a nodir uchod. |

I droi at bwnc tai fforddiadwy, mae diffyg fforddiadwyedd tai yn broblem mewn sawl ardal o'r sir, fel y nodir yn y Cynllun. Nid yw darparu mwy o dai marchnad agored yn mynd i helpu datrys hyn, fodd bynnag. Dylid felly gosod amodau llymach i sicrhau cyfran uwch o dai fforddiadwy mewn gwahanol ddatblygiadau, ac ymestyn marchnad dai lleol i ragor o ardaloedd. Mae hefyd angen edrych o ddifrif ar feini prawf cymhwysedd am dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol i weld os yw pobl leol yn cael y flaenoriaeth ddyladwy.

| |
|---|
| **Argymhelliad 6.** Ymestyn ardaloedd lle mae'r tai yn cael eu cyfyngu i'r farchnad leol, cynyddu cyfrannau o dai mewn datblygiadau sy'n gorfod bod yn rhai fforddiadwy, ac asesu addasrwydd meini prawf ar gyfer tenantiaeth neu bryniant tai o'r fath. |

I gloi, rhaid pwysleisio'r angen am fwy o wybodaeth ac ymchwil ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio a thai a'r Gymraeg. O ran y Cynllun Datblygu Lleol yn benodol, mae angen cymryd cam yn ôl a cheisio asesu ei effeithiau hyd yma.

Gyda thros bum mlynedd o gyfnod y cynllun eisoes wedi mynd, mae cyfle i edrych o ddifrif ar y datblygiadau tai sydd wedi cael eu caniatáu hyd yma, sef o 2011 hyd 2017, ac asesu effaith y rheini wrth ailystyried addasrwydd y dyraniadau am weddill cyfnod y cynllun.

Os oes llai na'r disgwyl o ddatblygiadau wedi bod hyd yma mewn ardaloedd penodol, mae cyfran anghymesur o'r dyraniad tai ar ôl ar gyfer yr hyn sy'n weddill o gyfnod y cynllun. Mae hynny'n golygu datblygu nifer llawer o uwch o dai y flwyddyn ar gyfartaledd na'r hyn a awgrymir yn nogfennau'r Cyngor, a gallai hynny arwain at ddwysáu effeithiau mewnfudo.

Deellir bod Cyngor Gwynedd eisoes yn gweithredu ar ymchwil o'r fath yn unol â phenderfyniad a wnaed mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor y cyfeirir ato uchod. Os felly, byddai modd sicrhau bod adolygiad yn barod ar gyfer y Cynllun cyn iddo gael ei fabwysiadu'n derfynol gan y ddau Gyngor.

Yn ehangach, mae angen ymchwilio llawer mwy trwyadl ar lawr gwlad i ganfod anghenion tai lleol, gan ddefnyddio sefydliadau fel cynghorau cymuned, ysgolion a mentrau iaith lleol. Byddai hynny'n gosod sail o wybodaeth gadarnach wrth benderfynu ar ddatblygiadau. Byddai'r wybodaeth yn werthfawr hefyd i asesu addasrwydd meini prawf ar gyfer tai cymdeithasol a thai fforddiadwy.

Yn olaf, mae angen trefnu rhwydwaith o wybodaeth ar lawr gwlad ar natur ieithyddol cymunedau'r ddwy sir. Mae 10 mlynedd yn ormod o amser rhwng Cyfrifiadau ac mae angen ffordd o adnabod unrhyw dueddiadau yn llawer cynt fel y gellid cael sail gadarn o wybodaeth ar gyfer pob math o gynllunio ieithyddol. Dylid ymgynghori gyda mudiadau a sefydliadau addas ar ffyrdd o wneud hyn.

**Argymhelliad 7.** Sicrhau mwy o wybodaeth ac ymchwil, gan gynnwys asesu effeithiau'r datblygiadau tai sydd wedi cael eu caniatáu ers cychwyn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn 2011.

# Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o'r Gymraeg yng Ngwynedd

# Cynnwys


**Rhagair** **3**

**Rhan I – Golwg gyffredinol ar y sir gyfan** **4**

1.1 Cyflwyniad

1.2 Y gallu i siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r sir

1.3 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl mannau geni

1.4 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran

1.5 Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc

**Rhan II – Y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd** **19**

2.1 Dinas Bangor

2.2 Gweddill Arfon

2.3 Dwyfor

2.4 Gogledd Meirionnydd

2.5 De Meirionnydd

2.6 Arfordir Meirionnydd

**Rhan III – Casgliadau** **41**

# Rhagair

Dogfen fyw yn hytrach na gwaith gorffenedig yw’r dadansoddiad hwn. Fe’i bwriedir fel cam cyntaf yn y gwaith o ddatblygu asesiad cynhwysfawr a manwl o sefyllfa’r Gymraeg yng Ngwynedd ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae wedi’i seilio’n bennaf ar hyn o bryd ar Gyfrifiad 2011 a chyfrifiadau blaenorol, ond y bwriad yw ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol ato. Mae’r fersiwn hon yn ymdrin yn weddol gyffredinol â gwahanol ranbarthau o fewn y sir, ond bwriedir datblygu hyn ymhellach i ymdrin yn fanylach ag ardaloedd llai yn ogystal.


Y nod yw ceisio gwell dealltwriaeth o’r tueddiadau ieithyddol sydd ar waith, fel bod yr wybodaeth lawnaf wrth law ar gyfer paratoi strategaethau i gynyddu’r niferoedd a’r canrannau sy’n siarad Cymraeg yn y sir.

Trwy gynnig ffynhonnell lawn o wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â’r Gymraeg yn y sir, y gobaith yw y bydd yn ddefnyddiol i gynllunwyr ieithyddol, ymgyrchwyr iaith, ymchwilwyr a chynrychiolwyr etholedig.

# Rhan I – Golwg gyffredinol ar y sir gyfan


## 1.1 Cyflwyniad

Cyn troi at unrhyw ystadegau, y peth cyntaf sydd angen ei bwysleisio o’r cychwyn yw mai Gwynedd yw cadarnle cryfaf y Gymraeg, ac o’r herwydd ei bod o arwyddocâd cenedlaethol. Yn ogystal â bod y sir gyda’r ganran uchaf o ddigon o bobl sy’n siarad Cymraeg – ac o’r bobl sy’n defnyddio’r iaith yn ôl arolygon – yma hefyd y mae’r talp helaethaf o ddigon o’r ardaloedd lle mae mwyafrifoedd sylweddol o’r bobl yn siarad Cymraeg.




Roedd union 77,000 o drigolion Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, a’r rhain yn ffurfio ychydig llai na dau draean o’r boblogaeth. I roi hyn yn ei gyd-destun, prin iawn yw unrhyw wardiau na phlwyfi y tu allan i siroedd Gwynedd, Môn a Chonwy sydd â chanrannau cyfuwch.

Daliodd y Gymraeg ei thir yn well yng Ngwynedd rhwng 2001 a 2011 nag mewn sawl rhan o Gymru, o gymharu â Sir Gaerfyrddin a Cheredigion er enghraifft. Fe fu gostyngiad bach o 841 mewn niferoedd yn y 10 mlynedd. Gan nad yw hyn ond yn cyfrif am ychydig dros 1% nid yw o arwyddocâd mawr ynddo’i hun, ond gyda chynnydd o tua 5,000 ym mhoblogaeth gyffredinol y sir, gostyngodd y ganran o 69% i 65.4%. Mae cyfran helaeth o’r cynnydd yn y boblogaeth i’w briodoli i gynnydd yn nifer y myfyrwyr ym Mangor; mae gwybodaeth ynghylch mannau preswyl myfyrwyr y tu allan i’r tymor yn awgrymu bod y gyfran o breswylwyr parhaol Gwynedd sy’n gallu siarad Cymraeg yn 67.1%. Ymdrinir yn helaethach â phwnc niferoedd myfyrwyr yn yr adran sy’n canolbwyntio ar Fangor.




Gwell nodi ar y cychwyn hefyd mai cwestiwn am y gallu i siarad Cymraeg y mae’r Cyfrifiad ac nad yw’n rhoi unrhyw wybodaeth am y graddau y caiff yr iaith ei defnyddio. I fod yn gywir ac eglur felly, mae’n well cyfeirio at unrhyw ystadegau a chanrannau fel rhai sy’n dangos y gallu i siarad Cymraeg, ac osgoi defnyddio ymadroddion fel ‘siaradwyr Cymraeg’ neu ‘Cymry Cymraeg’. Ar y llaw arall, yn wyneb yr angen i fod yn gryno, mae’n anochel y bydd rhai cyfeiriadau atynt, yn enwedig mewn mannau fel graffiau lle mae gofod yn brin, fel ‘siaradwyr Cymraeg’.

Mae cwestiynau ar wahân hefyd ynghylch y gallu i ddarllen ac ysgrifennu Cymraeg. Mae’r gyfran sy’n siarad Cymraeg yn y siart yn cynnwys y rhai na allant ond siarad yr iaith yn ogystal â’r rhai sy’n gallu ei darllen a’i hysgrifennu. Ni fwriedir ymhelaethu ar y pwnc yn y fan hon, er ei bod yn werth nodi bod cyfran uwch o’r rheini sy’n gallu siarad Cymraeg yn llythrennog hefyd yn yr iaith yng Ngwynedd nag yng ngweddill Cymru. O fewn Gwynedd, mae cyfraddau llythrennedd yn y Gymraeg ar eu huchaf yn yr ardaloedd Cymreiciaf.

Gwelwn o’r siart fod 7% ychwanegol yn deall Cymraeg llafar yn unig yng Ngwynedd. Mae hon yn ganran isel o’i chymharu â’r ganran sy’n siarad Cymraeg, ond gwelwn ei bod yn uwch mewn rhai ardaloedd, yn arbennig ym Mangor.

O edrych yn ôl ar y patrwm dros y 30 mlynedd ddiwethaf, gwelwn fod niferoedd y rhai sy’n gallu siarad Cymraeg, er wedi gostwng mymryn, wedi dal eu tir yn weddol. Yr hyn sydd wedi digwydd, fodd bynnag, yw cynnydd cyson a chymharol sylweddol yn y boblogaeth yn gyffredinol, sy’n golygu bod y ganran o’r boblogaeth sy’n siarad Cymraeg wedi gostwng o 76.2% yn 1981, i 72.1% yn 1991, i 68.9% yn 2001 ac wedyn i 65.4% yn 2011.

## 1.2 Y gallu i siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r sir


Gan nad yw ffiniau siroedd ar y cyfan yn dilyn ffiniau ieithyddol, mae cryn amrywiaeth yn sefyllfa'r Gymraeg o fewn Gwynedd. Mae amrywiaeth hefyd yn y tueddiadau ieithyddol sydd ar waith. Er y bwriedir manylu ar y gwahanol ardaloedd yn ail ran y dadansoddiad hwn, mae angen nodi'r ardaloedd hyn a'r gwahaniaethau rhyngddynt o'r dechrau cyn y gellir cael unrhyw ddarlun cyffredinol ac ystyrlon o'r sir.

Drwy fod Gwynedd eisoes wedi'i rhannu'n dri rhanbarth cydnabyddedig, sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, mae'r gwaith o adnabod y gwahanol ardaloedd ieithyddol yn gymharol hawdd.

Gellir ystyried yr ardaloedd canlynol fel rhai sy'n ffurfio gwahanol ranbarthau ieithyddol:


- **Dinas Bangor.** Fel anheddiad mwyaf y sir, lle mae'r ganran isel sy'n siarad Cymraeg yn cael effaith anghymesur ar ffigurau gweddill y sir, mae angen ystyried dinas Bangor ar wahân. Fel y gwelir ymhellach, mae ffigurau Bangor wedi cael eu cymhlethu ymhellach gan y cynnydd enfawr yn nifer y myfyrwyr yno.
- **Gweddill Arfon.** Er bod canrannau is yn y pentrefi ar gyrion Bangor, yn Arfon y gwelwn y wardiau sydd â'r canrannau uchaf sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig yng Nghaernarfon a'r cyffiniau.
- **Dwyfor.** Er bod ardal Dwyfor wedi profi mwy o fewnfudo na'r rhan fwyaf o Arfon deil i fod yn un o gadarnleoedd y Gymraeg gyda 71.3% o'r boblogaeth yn siarad yr iaith.
- **Gogledd Meirionnydd**. Ardal sy'n cynnwys Penrhyndeudraeth, Blaenau Ffestiniog, Trawsfynydd a Phenllyn lle mae tri chwarter o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.
- **Arfordir a de Meirionnydd**. O roi'r gweddill o Feirionnydd at ei gilydd, prin hanner y boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. Gan fod gwahaniaethau sylweddol rhwng y trefi glan-môr a'r ardal wledig o gwmpas Dolgellau, ymdrinir yn fanylach â'r rhain ar wahân.

## Y canrannau o'r bobl dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r sir, 2011




## 1.3 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl mannau geni

Ymysg yr wybodaeth fwyaf diddorol a defnyddiol yn y Cyfrifiad y mae ystadegau sy’n ymwneud â’r gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran a mannau geni. Mae’r wybodaeth hon yn arbennig o arwyddocaol am sawl rheswm. I ddechrau, mae’n dangos y berthynas rhwng iaith a mewnfudo, a’r graddau y mae’r Gymraeg yn dal ei thir ymysg y boblogaeth frodorol. Mae hefyd yn dangos proffil oedran y bobl sy’n siarad Cymraeg, ac o fewn pa grwpiau oedran y mae mewnfudo’n fwyaf tueddol o ddigwydd. Yn ogystal, mae’n gallu dangos i ba raddau y mae pobl a aned y tu allan i Gymru’n dysgu’r Gymraeg.





Fel y dengys y ddwy siart gron, cafodd dau draean o boblogaeth y sir eu geni yng Nghymru, ac o’r rhain roedd 89% yn gallu siarad Cymraeg. Yn y rhan fwyaf o Arfon, a’r cyfan o Ddwyfor a gogledd Meirionnydd, mae’r ganran hon yn nes at 95%.




O gofio na fydd pawb o’r rheini a aned yng Nghymru o angenrheidrwydd wedi eu geni’n lleol, gellir tybio bod y ganran o’r boblogaeth frodorol sy’n siarad Cymraeg yn uwch fyth. Yn anffodus, nid yw oes wybodaeth am fannau geni fesul siroedd.

Mae’n galonogol nodi nad yw’r gyfran o bobl a aned yng Nghymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn y sir yn ymddangos ei fod wedi newid fawr ddim ers 1991, er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol yn gyfran sy’n siarad Cymraeg ers y cyfnod hwnnw. Y prif newid yw bod y gyfran o’r boblogaeth a aned yng Nghymru wedi gostwng o 72% i 66% yn ystod yr 20 mlynedd.

Y prif gasgliad sy'n deillio o hyn yw shifft poblogaeth yw'r rheswm sylfaenol dros newid ieithyddol yng Ngwynedd yn hytrach na shifft iaith, gan mai ychydig iawn o olion a welir o'r Gymraeg yn colli ei thir ymysg y boblogaeth frodorol y rhan helaethaf o'r sir.




Yn Sir Gaerfyrddin, ar y llaw arall, lle mae'r gyfran sy'n siarad Cymraeg yn y sir wedi gostwng o 54% i 44% rhwng 1991 a 2011, mae'r gyfra n o bobl a aned yng Nghymru hefyd wedi gostwng o 63% i 54%. Mae hyn yn dangos shifft iaith ymysg y boblogaeth frodorol yn hytrach na shifft poblogaeth yn unig.

Gwelwn o'r siart uchod hefyd fod lleiafrif gweddol sylweddol o bobl a aned y tu allan i Gymru hefyd yn gallu siarad Cymraeg, a gwelwn o'r tabl ar y dudalen nesaf fod y ganran hon yn amrywio yn ôl gwahanol rannau'r sir.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am iaith a mannau geni yng ngwahanol rannau'r sir.

| Ardal | Cyfanswm plant 3 a 4 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd gyfan** | 117,789 | 77,000 | 65.4 | 77,576 | 65.9 | 68,816 | 88.7 | 8,184 | 20.4 |
| **Bangor** | 15,928 | 5,801 | 36.4 | 7,906 | 49.6 | 5,094 | 64.4 | 707 | 8.8 |
| **Gweddill Arfon** | 42,499 | 32,757 | 77.1 | 32,520 | 76.5 | 29,942 | 92.1 | 2,815 | 28.2 |


| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dwyfor** | 26,833 | 19,124 | 71.3 | 18,224 | 67.9 | 17,106 | 93.9 | 2,018 | 23.4 |
| **Gogledd Meirionnydd** | 13,474 | 10,201 | 75.7 | 9,683 | 71.9 | 9,124 | 94.2 | 1,077 | 28.4 |
| **De Meirionnydd** | 6,958 | 4,133 | 59.4 | 4,056 | 58.3 | 3,555 | 87.6 | 578 | 19.9 |
| **Arfordir Meirionnydd** | 12,097 | 4,984 | 41.2 | 5,187 | 42.9 | 3,995 | 77.0 | 989 | 14.3 |

Rhai o’r ffeithiau dadlennol:

- Ar arfordir Meirionnydd y mae’r ganran isaf o’r boblogaeth sydd wedi eu geni yng Nghymru (42.9%). Mae fymryn yn is na’r hanner ym Mangor hefyd, ond niferoedd uchel y myfyrwyr sy’n bennaf gyfrifol am hyn.
- Yng ngweddill Arfon ac yng ngogledd Meirionnydd y mae’r canrannau uchaf o bobl a aned yng Nghymru
- Mae canran y bobl a aned yng Nghymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn llawer is ym Mangor nag yng ngweddill y sir (64.4%), ac mae’r un peth yn wir i raddau llai ar arfordir Meirionnydd (77.0%). Mae’n gyson uchel yn yr ardaloedd Cymreiciaf, yn enwedig Dwyfor a gogledd Meirionnydd
- Gwelwn fod dros chwarter y rhai a aned y tu allan i Gymru’n gallu siarad Cymraeg yng ngogledd Meirionnydd ac yng ngweddill Arfon, ac ychydig llai na chwarter yn Nwyfor.

# 1.4 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran

Mae'r graff isod yn dangos dadansoddiad fesul oedrannau manwl – a dim ond am y sir gyfan y mae'r ffigurau hyn ar gael. Mae'n dangos bron bawb o blant oedran ysgol yn gallu siarad Cymraeg, ac mae'r cynnydd anferth yn y bobl ifanc ddi-Gymraeg rhwng tua 18 a 23 oed yn dangos effaith niferoedd myfyrwyr ar y ffigurau. Mae'r ddwy linell yn dod yn nes at ei gilydd wedyn ymysg oedolion iau ond yn dechrau dechrau lledu ymysg oedolion hŷn, o tua 57 oed ymlaen. Y rheswm fod y ddwy linell yn dringo ar y diwedd yw ei bod yn dynodi pawb dros 85 oed.



Mae’r tabl canlynol yn cyfuno’r wybodaeth am y gallu  i siarad Cymraeg yn ôl oedrannau a mannau geni:

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 117,789 | 77,000 | 65.4 | 77,576 | 65.9 | 68,816 | 88.7 | 8,184 | 20.4 |
| **3 i 15 oed** | 16,866 | 15,035 | 89.1 | 15,058 | 89.3 | 13,738 | 91.2 | 1,297 | 71.7 |
| **16 i 24 oed** | 16,723 | 9,805 | 58.6 | 10,011 | 59.9 | 8,718 | 87.1 | 1,087 | 16.2 |
| **25 i 34 oed** | 12,532 | 8,632 | 68.9 | 8,528 | 68.0 | 7,659 | 89.8 | 973 | 24.3 |
| **35 i 49 oed** | 22,808 | 15,208 | 66.7 | 15,161 | 66.5 | 13,388 | 88.3 | 1,820 | 23.8 |
| **50 i 64 oed** | 23,720 | 13,730 | 57.9 | 13,924 | 58.7 | 12,052 | 86.6 | 1,678 | 17.1 |
| **65 oed a throsodd** | 25,140 | 14,590 | 58.0 | 14,894 | 59.2 | 13,261 | 89.0 | 1,329 | 13.0 |

Gwelwn i ddechrau sut mae’r canrannau sy’n gallu siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl oedrannau, gyda’r mwyafrif llethol o blant 3-15 oed yn gallu ei siarad. Mae’r ganran yn disgyn yn ddramatig yn y grŵp oedran 16-24 oed, ond fel y gwelwn yn y tablau am wahanol ardaloedd, nifer uchel y myfyrwyr ym Mangor sy’n bennaf gyfrifol am hynny. Mae’r canrannau o oedolion sy’n siarad Cymraeg gostwng wrth i’r grwpiau fynd yn hŷn, a gwelwn oddi wrth y colofnau sy’n dangos y niferoedd a’r canrannau a aned yng Nghymru y gellir priodoli’r gostyngiad bron yn gyfan gwbl i’r gostyngiad yn y canrannau sydd wedi eu geni yng Nghymru.

Gwelwn fod y canrannau o bobl a aned yng Nghymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn gyson uchel drwy bob grŵp oedran. Ar y llaw arall, mae’r ganran o’r rhai a aned y tu allan i Gymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn uchel iawn ymysg plant, ac yn uwch ymhlith oedolion iau nag ymhlith oedolion hŷn.

Yn gyffredinol, mae proffil oedran y rheini sy’n gallu siarad Cymraeg yn y sir yn gymharol iach, gyda cyfrannau is o bobl hŷn nag sydd ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.

# 1.5 Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc

Mae angen cymryd gofal wrth ddehongli ffigurau’r Cyfrifiad am y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc. Mewn sawl o rhan o Gymru maent yn ymddangos yn afrealistig o uchel, ac yn awgrymu bod rhieni’n nodi bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg ar sail y ffaith eu bod yn ei dysgu yn yr ysgol. Gan fod y mwyafrif llethol blant ysgol Gwynedd yn derbyn o leiaf ran o’u haddysg drwy’r Gymraeg, nid yw’n syndod gweld 89.1% o blant yn y grŵp oedran 3-15 oed yn siarad Cymraeg. Drwy fod y gyfran yn gyson uchel drwy’r sir nid yw’n ein galluogi ni i gymharu’r defnydd o’r iaith ymysg plant mewn gwahanol ardaloedd. Ym Mangor yn unig y mae’r gyfran o blant sy’n siarad Cymraeg yn sylweddol is na chyfartaledd y sir (69.9%), sy’n awgrymu efallai fod llawer o blant y ddinas yn derbyn addysg mwy Seisnig nag yng ngweddill y sir.

Mae gwybodaeth ychydig yn fwy defnyddiol i’w chael wrth edrych yn benodol ar y grŵp oedran 3-4 oed, gan fydd plant yr oedran yma o dan ddylanwad y gyfundrefn addysg i’r fath raddau. Yn ôl y ffigurau sydd ar gael ar gyfer y sir gyfan, roedd 69.2% o blant 3 oed a 76.6% o blant 4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Mae’r ddau grŵp oedran wedi cael eu rhoi at ei gilydd yn y ffigurau sydd ar gael ar gyfer wardiau, ac mae’r tabl isod yn dangos patrwm nad yw’n annisgwyl:

| Ardal | Cyfanswm plant 3 a 4 oed | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran o blant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran o’r boblogaeth gyfan sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd gyfan** | 2703 | 1978 | 73.2 | 65.4 |
| **Bangor** | 281 | 128 | 45.6 | 36.4 |
| **Gweddill Arfon** | 1213 | 941 | 77.6 | 77.1 |
| **Dwyfor** | 571 | 454 | 79.5 | 71.3 |
| **Gogledd Meirionnydd** | 293 | 258 | 88.1 | 75.7 |
| **De Meirionnydd** | 101 | 63 | 62.4 | 59.4 |
| **Arfordir Meirionnydd** | 244 | 134 | 54.9 | 41.2 |


Wrth ymdrin â'r gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc, y cwestiwn mawr arall i'w ofyn yw i ba raddau y maent yn dal i allu siarad Cymraeg ar ôl gadael ysgol a phan fyddant yn oedolion. Ni all ystadegau am blant heddiw ddweud dim wrthym wrth gwrs, ond mae modd cymharu ffigurau am oedolion ifanc â ffigurau am blant mewn cyfrifiadau yn y gorffennol.

Gellir er enghraifft, edrych ar y niferoedd a'r canrannau a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymysg plant 10-14 oed yn 2001, a chymharu'r rhain â'r ffigurau cyfatebol am bobl ifanc yn y grŵp oedran 20-24 oed yn 2011. Mae modd gwneud cymariaethau tebyg rhwng plant 15 oed yn 2001 a phobl ifanc 25 oed yn 2011.


O wneud hyn, mae colledion dramatig i'w gweld yn y niferoedd ledled Cymru, a gall fod mwy nag un rheswm dros hyn:

- allfudo;
- plant yn colli eu gallu i siarad Cymraeg, neu
- nad oedden nhw'n gallu siarad Cymraeg mewn gwirionedd 10 mlynedd ynghynt.

Gwelwn golledion yng Ngwynedd, fel y dengys y ddau graff isod.




| | 10-14 oed yn 2001 | 20-24 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 7,129 | 9,719 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 6,611 | 4,997 |




| | 15 oed yn 2001 | 25 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 1,354 | 1,349 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 1,230 | 888 |

Yng Ngwynedd, roedd 4,997 o bobl ifanc 20-24 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, o gymharu â 6,611 o blant 10-14 10 mlynedd ynghynt. Yn yr un modd, roedd y 1,230 o blant 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2001 yn cymharu â 888 o bobl ifanc 25 oed yn 2011. Er bod y newidiadau hyn yn cynrychioli gostyngiadau o 24.5% a 27.8% yn y niferoedd, dyma'r gostyngiadau lleiaf yng Nghymru.

Maent yn cymharu â gostyngiadau cyfatebol o 56.5% a 59.5% yng Nghymru ar gyfartaledd.


Yn y siroedd Cymreiciaf eraill y gwelwyd y gostyngiadau cymharol isel eraill, gyda lleihad o 33.0% ym Môn, 41.9% yn Sir Gaerfyrddin a 48.3% yng Ngheredigion. Yn yr un modd, yn y siroedd mwyaf Seisnig y gwelwyd y gostyngiadau mwyaf dramatig. O edrych ar siroedd Mynwy, Torfaen, Blaenau Gwent a Chasnewydd, nid oedd 321 o bobl ifanc 25 oed rhwng y pedair sir yn gallu'r Gymraeg yn 2011, o gymharu â 2,170 o blant 15 oed 10 mlynedd ynghynt, sy'n gyfystyr â chwymp o 85.2%.

# Rhan II – Y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd

## 2.1 Dinas Bangor

Fel y nodwyd eisoes, mae’n rhaid ymdrin â dinas Bangor ar wahân wrth drafod sefyllfa’r Gymraeg yng Ngwynedd. Mae sawl rheswm am hyn:

- mae ei natur ieithyddol yn wahanol iawn i weddill y sir
- mae ei maint yn golygu ei bod yn cael effaith anghymesur ar ystadegau gweddill y sir
- mae’r cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhwng 2001 a 2011 yn rhoi darlun camarweiniol o sefyllfa’r Gymraeg yn y ddinas.




Yn ôl prif ffigurau’r Cyfrifiad am y gallu i siarad Cymraeg, gostyngodd y ganran sy’n siarad Cymraeg yn y ddinas o 46.7% yn 2001 i 36.4% yn 2011.

O graffu ar wybodaeth arall yn y Cyfrifiad, bu cynnydd o tua 3,000 yn nifer myfyrwyr y ddinas rhwng 2001 a 2011, a adlewyrchir yn y cynnydd o tua 2,700 yn y boblogaeth, gyda bron y cyfan o’r cynnydd hwn i’w briodoli i dwf yn y grŵp oedran 16-24 oed.


Caiff dylanwad anghymesur myfyrwyr ar ystadegau iaith a phoblogaeth y ddinas ei gadarnhau mewn tabl arall yng nghanlyniadau’r Cyfrifiad[1] sy’n rhoi gwybodaeth am gyfnodau gwyliau colegau. Mae hwn yn dangos poblogaeth Bangor tua 4,000 yn llai, a’r gyfran sy’n siarad Cymraeg

[1] ONS Tabl OT206WA – sy’n rhoi gwybodaeth am y boblogaeth y tu allan i amserau tymor colegau

yn 44.9%. Diddorol yw nodi hefyd fod yr un tabl hwn yn dangos poblogaeth Gwynedd gyfan tua 3,000 yn llai a'r gyfran sy'n siarad Cymraeg i fyny i 67.1%.

Mae'n ddigon posibl fod y cyfrannau hyn yn rhoi darlun cywirach o'r gallu i siarad Cymraeg ymysg poblogaeth barhaol y ddinas a'r sir, ond gan fod y prif tablau sy'n rhoi'r wybodaeth fanylaf ynglŷn â'r Gymraeg yn cynnwys myfyrwyr yn ogystal rhaid defnyddio'r rhain fel y brif sail. Dylid nodi hefyd mai dim ond ym Mangor yr ymddengys bod nifer y myfyrwyr yn cael dylanwad mor arwyddocaol ar y ffigurau.

Er cymaint y mae effaith myfyrwyr yn gorliwio'r ystadegau am y Gymraeg ym Mangor, rhaid nodi bod yna ddirywiad ymysg y boblogaeth gynhenid yn ogystal. Bu gostyngiad o 401 yn y nifer y sy'n gallu siarad Cymraeg yn y ddinas – cwymp o 6.5%, o gymharu â mymryn dros 1% yn y sir yn ei chyfanrwydd. Mae proffil oedran y ddinas hefyd yn dangos cyfrannau uwch o oedolion hŷn nag o oedolion iau yn medru'r iaith.





| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 13,286 | 6,202 |
| 2011 | 15,928 | 5,801 |

**Tabl 2.1 Bangor**

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 15,928 | 5,801 | 36.4 | 7,906 | 49.6 | 5,094 | 64.4 | 707 | 8.8 |
| **3 i 15 oed** | 1,687 | 1,179 | 69.9 | 1,404 | 83.2 | 1,053 | 75.0 | 126 | 44.5 |
| **16 i 24 oed** | 6,664 | 1,339 | 20.1 | 1,888 | 28.3 | 1,146 | 60.7 | 193 | 4.0 |
| **25 i 34 oed** | 1,824 | 638 | 35.0 | 832 | 45.6 | 536 | 64.4 | 102 | 10.3 |
| **35 i 49 oed** | 2,224 | 961 | 43.2 | 1,366 | 61.4 | 834 | 61.1 | 127 | 14.8 |
| **50 i 64 oed** | 1,736 | 697 | 40.1 | 1,181 | 68.0 | 618 | 52.3 | 79 | 14.2 |
| **65 oed a throsodd** | 1,793 | 987 | 55.0 | 1,235 | 68.9 | 907 | 73.4 | 80 | 14.3 |


Mae cyfrannau uwch o bobl dros 65 oed yn gallu siarad Cymraeg nag sydd ymhlith oedolion iau – 55.0% o'r boblogaeth gyffredinol a 73.4% o'r rheini a aned yng Nghymru. Annisgwyl yn sgil hyn yw gweld mai ymhlith oedolion 50-64 y mae'r cyfrannau isaf ac eithrio'r grŵp pobl ifanc sy'n cynnwys myfyrwyr. Hyd yn oed o blith y bobl 50-64 oed a aned yng Nghymru, ychydig dros eu hanner – 52.3% - sy'n siarad Cymraeg. Mae'n codi wedyn ymhlith oedolion iau.

Mae'r graff isod yn rhoi darlun trawiadol o broffil oedran poblogaeth Bangor, eu mannau geni a'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg:




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth | 1,687 | 6,664 | 4,048 | 1,736 | 1,793 |
| Pobl a aned yng Nghymru | 1,404 | 1,888 | 2,198 | 1,181 | 1,235 |
| Siaradwyr Cymraeg | 1,179 | 1,339 | 1,599 | 697 | 987 |


**Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 1,817 | 4,152 | 3,744 | 1,724 | 1,849 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 1,687 | 6,664 | 4,048 | 1,736 | 1,793 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 1,248 | 1,148 | 1,750 | 887 | 1,169 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 1,179 | 1,339 | 1,599 | 697 | 987 |

## 2.2 Gweddill Arfon

O edrych ar weddill Arfon heb gynnwys dinas Bangor, cawn ardal lle mae 77% o'r trigolion ar gyfartaledd yn gallu siarad Cymraeg. Dyma'r unig ran o Wynedd hefyd lle gwelwyd cynnydd yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg rhwng 2001 a 2011. Fel y dengys y siart, cafwyd cynnydd o 457 yn y nifer, er bod y ganran wedi gostwng 1.2% yn sgil cynnydd cyffredinol yn y boblgaeth.





Mae patrwm daearyddol pendant i'w weld o safbwynt cryfder y Gymraeg. Mae'r canrannau uchaf o ddigon i'w gweld yn ardal Caernarfon, gyda'r dref ei hun a'r wardiau lled-drefol o'i chwmpas – Bethel, Llanrug, Bontnewydd, Llanwnda, Groeslon a Phenygroes – i gyd â chanrannau o dros 80% yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r canrannau'n dueddol i fod yn is yn y pentrefi mwy ucheldirol, er eu bod dros 70% yn y mwyafrif ohonynt. Dyma'r pentrefi hefyd a welodd y gostyngiadau mwyaf yn eu canrannau rhwng 2001 a 2011.

Mae patrwm tebyg i'w weld yn ardal Bethedsa hefyd, gyda'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn ward Ogwen, 80.1%, yn uwch nag yn y pentrefi mwy gwledig o'i gwmpas.

Yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg wanaf yw'r pedair ward ar gyrion Bangor: Y Felinheli, Arllechwedd, Tregarth a Pentir. Mae hyn yn adlewyrchu patrwm sydd i'w weld yn siroedd y gogledd lle mae trefi mwy Saesneg eu hiaith yn dylanwadu ar y pentrefi o'u cwmpas.





| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 41,239 | 32,300 |
| 2011 | 42,499 | 32,757 |

## Tabl 2.2 Gweddill Arfon

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pawb dros 3 oed | 42,499 | 32,757 | 77.1 | 32,520 | 76.5 | 29,942 | 92.1 | 2,815 | 28.2 |
| 3 i 15 oed | 6,956 | 6,331 | 91.0 | 6,442 | 92.6 | 5,981 | 92.8 | 350 | 68.1 |
| 16 i 24 oed | 4,569 | 3,912 | 85.6 | 3,871 | 84.7 | 3,616 | 93.4 | 296 | 42.4 |
| 25 i 34 oed | 5,151 | 3,907 | 75.8 | 3,830 | 74.4 | 3,531 | 92.2 | 376 | 28.5 |
| 35 i 49 oed | 9,394 | 6,985 | 74.4 | 6,777 | 72.1 | 6,201 | 91.5 | 784 | 30.0 |
| 50 i 64 oed | 8,576 | 5,903 | 68.8 | 5,871 | 68.5 | 5,302 | 90.3 | 601 | 22.2 |
| 65 oed a throsodd | 7,853 | 5,719 | 72.8 | 5,729 | 73.0 | 5,311 | 92.7 | 408 | 19.2 |

Dyma'r rhan o'r sir lle mae'r ganran uchaf o bobl sydd wedi eu geni yng Nghymru – 76.5%, a hynny yn ei dro'n cael ei adlewyrchu gan y ganran uchel sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r ffigurau am y gallu i siarad Cymraeg ymysg pobl a aned yng Nghymru yn gyson uchel dros 90% trwy bob grŵp oedran, ond cyfran uwch o bobl 50-64 a gafodd eu geni y tu allan i Gymru yn golygu mai ymysg y grŵp yma y mae'r gyfran isaf sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae 28.2%  o'r bobl a aned y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, a'r ganran uwch ymysg pobl iau.

**Mae’r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**





| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 7,499 | 4,286 | 14,594 | 8,003 | 6,857 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 6,956 | 4,569 | 14,545 | 8,576 | 7,853 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 6,796 | 3,741 | 11,027 | 5,656 | 5,080 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 6,331 | 3,912 | 10,892 | 5,903 | 5,719 |

## 2.3 Dwyfor


Roedd 71.3% o drigolion Dwyfor yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, o gymharu â 72.9% yn 2001.

Bu gostyngiad bach yn y niferoedd o gymharu â 2001. Fel y gwelwn yn yr adrannau nesaf, mewnfudo sydd bron yn gyfan gwbl gyfrifol am y ffaith fod y canrannau yn Nwyfor yn is na'r hyn ydynt yn ardal Caernarfon.




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 26,526 | 19,350 |
| 2011 | 26,833 | 19,124 |

At ei gilydd, mae'r canrannau uchaf i'w gweld yn yr ardaloedd trefol fel Pwllheli a chanol Porthmadog a rhai o'r pentrefi fel Nefyn, Y Ffôr a Chwilog. Yr ardaloedd mwyaf Seisnig yw'r pentrefi glan-môr fel Abersoch a Llanbedrog, gydag arwyddion o ddirywiad i'w weld hefyd ym Morfa Nefyn ac ar gyrion Porthmadog.




## Tabl 2.3 Dwyfor

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 26,833 | 19,124 | 71.3 | 18,224 | 67.9 | 17,106 | 93.9 | 2,018 | 23.4 |
| **3 i 15 oed** | 3,883 | 3,590 | 92.5 | 3,465 | 89.2 | 3,261 | 94.1 | 329 | 78.7 |
| **16 i 24 oed** | 2,466 | 2,186 | 88.6 | 2,060 | 83.5 | 1,976 | 95.9 | 210 | 51.7 |
| **25 i 34 oed** | 2,533 | 1,997 | 78.8 | 1,831 | 72.3 | 1,760 | 96.1 | 237 | 33.8 |
| **35 i 49 oed** | 5,219 | 3,784 | 72.5 | 3,586 | 68.7 | 3,375 | 94.1 | 409 | 25.0 |
| **50 i 64 oed** | 5,765 | 3,570 | 61.9 | 3,373 | 58.5 | 3,135 | 92.9 | 435 | 18.2 |
| **65 oed a throsodd** | 6,967 | 3,997 | 57.4 | 3,909 | 56.1 | 3,599 | 92.1 | 398 | 13.0 |

Mae'r berthynas rhwng mewnfudo a'r gallu i siarad Cymraeg i' weld ar ei amlycaf yma. Mae mwyafrif llethol y rheini a aned yng Nghymru'n gallu siarad Cymraeg, heb fawr ddim amrywiaeth rhwng gwahanol grwpiau oedran. Mae oedran y bobl a aned y tu allan i Gymru hefyd yn drawiadol, gyda mewnfudwyr yn cyfrif am dros 40% o'r boblogaeth dros 50 oed. Ar y llaw arall, mae 82% o'r boblogaeth dan 50 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae cyfrannau sylweddol o'r rhai a aned y tu allan i Gymru yn gallu siarad Cymraeg, erb bod y ganran yn amrywio'n sylweddol yn ôl oed. Mae dros hanner y bobl ifanc 16-24 a aned y tu allan i Gymru yn siarad Cymraeg a thros draean o'r oedolion 25-34, ond mae'r ganran yn gostwng i 13.0% ymysg pobl dros 65.


Mae'r graff isod yn rhoi darlun trawiadol o effaith mewnfudo ar iaith y grwpiau oedran hŷn:

## Dwyfor: Poblogaeth fesul grwp oedran, 2011




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth | 3,883 | 2,466 | 7,752 | 5,765 | 6,967 |
| Pobl a aned yng Nghymru | 3,465 | 2,060 | 5,417 | 3,373 | 3,909 |
| Siaradwyr Cymraeg | 3,590 | 2,186 | 5,781 | 3,570 | 3,997 |


**Mae’r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**





| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 4,194 | 2,359 | 7,956 | 5,778 | 6,239 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 3,883 | 2,466 | 7,752 | 5,765 | 6,967 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 3,839 | 2,004 | 6,064 | 3,511 | 3,932 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 3,590 | 2,186 | 5,781 | 3,570 | 3,997 |

## 2.4 Gogledd Meirionnydd

Pe bai rhywun yn edrych ar Feirionnydd yn ei chyfanrwydd, mae’r gyfran sy’n siarad Cymraeg yno yn 59%, sy’n is na’r cyfartaledd am y sir gyfan. Mae gormod o amrywiaeth rhwng gwahanol ardaloedd o fewn Meirionnydd, fodd bynnag, i wneud hwn yn ffigur ystyrlon, gan ei bod yn cynnwys rhai o ardaloedd Cymreiciaf yn ogystal â mwyaf Seisnig y sir.




Rhan Gymreicaf Meirionnydd yw’r gogledd, sy’n cynnwys ardaloedd Penrhyndeudraeth, Ffestiniog, Trawsfynydd, y Bala a Phenllyn, lle’r oedd dros dri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 2001.


Bu cwymp bach o ychydig dros 100 yn niferoedd y rhai a oedd yn gallu siarad Cymraeg, ac yn sgil cynnydd o dros 300 yn y boblogaeth gyffredinol, disgynnodd y ganran o 78.4% i 75.7% rhwng 2001 a 2011.

## Tabl 2.4 Gogledd Meirionnydd

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 13,474 | 10,201 | 75.7 | 9,683 | 71.9 | 9,124 | 94.2 | 1,077 | 28.4 |
| **3 i 15 oed** | 2,030 | 1,931 | 95.1 | 1,859 | 91.6 | 1,781 | 95.8 | 150 | 87.7 |
| **16 i 24 oed** | 1,411 | 1,239 | 87.8 | 1,155 | 81.9 | 1,094 | 94.7 | 145 | 56.6 |
| **25 i 34 oed** | 1,397 | 1,143 | 81.8 | 1,076 | 77.0 | 1,033 | 96.0 | 110 | 34.3 |
| **35 i 49 oed** | 2,638 | 1,976 | 74.9 | 1,896 | 71.9 | 1,764 | 93.0 | 212 | 28.6 |
| **50 i 64 oed** | 3,013 | 1,917 | 63.6 | 1,781 | 59.1 | 1,659 | 93.1 | 258 | 20.9 |
| **65 oed a throsodd** | 2,985 | 1,995 | 66.8 | 1,916 | 64.2 | 1,793 | 93.6 | 202 | 18.9 |

Un arall o gadarnleoedd cryfaf y Gymraeg yn y sir, lle mae cyfran ychydig yn uwch nag sydd yn Nwyfor o'r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, er bod y canrannau'n lleihau ymysg oedolion hŷn. O'r rhain, mae'r mwyafrif llethol ohonynt trwy bob grŵp oedran yn siarad Cymraeg. Mae cyfrannau ychydig yn uwch nag sydd yn Nwyfor o'r bobl a aned y tu allan i Gymru hefyd yn siarad Cymraeg, ac yn dilyn patrwm digon tebyg o leihau ymysg pobl hŷn.


**Mae’r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 2,350 | 1,259 | 4,192 | 2,724 | 2,629 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 2,030 | 1,411 | 4,035 | 3,013 | 2,985 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 2,199 | 1,122 | 3,222 | 1,804 | 1,966 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 1,931 | 1,239 | 3,119 | 1,917 | 1,995 |


## 2.5 De Meirionnydd

Wrth edrych ar ardaloedd deheuol Meirionnydd, sef tref Dolgellau a’r plwyfi gwledig o’i hamgylch, mae sefyllfa’r Gymraeg yn ymddangos yn fwy bregus. Bu gostyngiad o bron i 300 yn niferoedd y rhai a oedd yn gallu’r iaith yn 2011 o gymharu â 2001, ac yn sgil cynnydd o tua 170 yn y boblogaeth gyffredinol, aeth y ganran i lawr o 65.0% i 59.4% yn ystod y 10 mlynedd.




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 6,789 | 4,410 |
| 2011 | 6,958 | 4,133 |

Fel y gwelir, ardal fach o ran ei phoblogaeth yw hon, ond oherwydd ei bod yn sylweddol fwy Cymraeg na threfi a phentrefi’r arfordir, mae’n werth ei hystyried ar wahân.




## Tabl 2.5 De Meirionnydd

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 6,958 | 4,133 | 59.4 | 4,056 | 58.3 | 3,555 | 87.6 | 578 | 19.9 |
| **3 i 15 oed** | 936 | 834 | 89.1 | 785 | 83.9 | 715 | 91.1 | 119 | 78.8 |
| **16 i 24 oed** | 594 | 441 | 74.2 | 412 | 69.4 | 366 | 88.8 | 75 | 41.2 |
| **25 i 34 oed** | 622 | 413 | 66.4 | 422 | 67.8 | 366 | 86.7 | 47 | 23.5 |
| **35 i 49 oed** | 1,329 | 730 | 54.9 | 723 | 54.4 | 614 | 84.9 | 116 | 19.1 |
| **50 i 64 oed** | 1,687 | 793 | 47.0 | 777 | 46.1 | 671 | 86.4 | 122 | 13.4 |
| **65 oed a throsodd** | 1,790 | 922 | 51.5 | 937 | 52.3 | 823 | 87.8 | 99 | 11.6 |

Mae’r ganran o bobl a aned y tu allan i Gymru yn llawer uwch yma nag yng ngogledd Meirionnydd, a chanrannau is o’r rhain sy’n gallu siarad Cymraeg. Lleiafrif o bobl 50-64 a mymryn dros hanner pobl dros 65 oed a aned yng Nghymru,  a hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canrannau sy’n gallu siarad Cymraeg. Mae’r canrannau o’r bobl a aned yng Nghymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn gyson uchel ond yn is nag yn y cadarnleoedd cryfaf.

**Mae’r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**





| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 1,101 | 560 | 2,051 | 1,559 | 1,518 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 936 | 594 | 1,951 | 1,687 | 1,790 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 978 | 459 | 1,279 | 786 | 908 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 834 | 441 | 1,143 | 793 | 922 |


## 2.6 Arfordir Meirionnydd

Wrth edrych ar holl gymunedau arfordir Meirionnydd gyda’i gilydd, roedd 41.2% o’r boblgaeth yn siarad Cymraeg yn 2011, o gymharu â 44.1% yn 2001. Harlech a Llanbedr yw’r unig gymunedau lle’r roedd mwy na hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, ac yn gyffredinol mae’r canrannau’n gostwng wrth symud i lawr i’r de. Mae’r canrannau’n arbennig o isel yn Arthog (28.3), Tywyn (37.%) ac Aberdyfi (30.3)

Fel y gwelwn yn nes ymlaen, mae cyfrannau uchel iawn o boblogaeth yr arfordir wedi eu geni y tu allan i Gymru.




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 11,904 | 5,255 |
| 2011 | 12,097 | 4,984 |




## Tabl 2.6 Arfordir Meirionnydd

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 12,097 | 4,984 | 41.2 | 5,187 | 42.9 | 3,995 | 77.0 | 989 | 14.3 |
| **3 i 15 oed** | 1,374 | 1,170 | 85.2 | 1,103 | 80.3 | 947 | 85.9 | 223 | 82.3 |
| **16 i 24 oed** | 1,019 | 688 | 67.5 | 625 | 61.3 | 520 | 83.2 | 168 | 42.6 |
| **25 i 34 oed** | 1,005 | 534 | 53.1 | 537 | 53.4 | 433 | 80.6 | 101 | 21.6 |
| **35 i 49 oed** | 2,004 | 772 | 38.5 | 813 | 40.6 | 600 | 73.8 | 172 | 14.4 |
| **50 i 64 oed** | 2,943 | 850 | 28.9 | 941 | 32.0 | 667 | 70.9 | 183 | 9.1 |
| **65 oed a throsodd** | 3,752 | 970 | 25.9 | 1,168 | 31.1 | 828 | 70.9 | 142 | 5.5 |

Ar arfordir Meirionnydd, lleiafrif o’r boblogaeth a aned yng Nghymru, a’r ganran yn lleihau ym mhob grŵp oedran, fel nad yw ond ychydig dros 30% ymysg pobl dros 50 oed. Mae cyfran weddol uchel o’r bobl ifanc 16-24 a aned y tu allan i Gymru’n gallu siarad Cymraeg, ond mae’n llawer llai na chyfartaledd y sir ymysg yr oedrannau eraill. Mae’r canrannau sy’n gallu siarad Cymraeg ymysg y bobl a aned yng Nghymru hefyd yn is na’r disgwyl, ac yn enwedig ymysg pobl hŷn – 70.9% ymysg y grwpiau oedran 50-64 a thros 65. Mae’n awgrymu naill ai boblogaeth frodorol ddi-Gymraeg, neu bobl wedi symud yma i ymddeol o rannau llai Cymraeg o Gymru.

**Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:**




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 1,668 | 964 | 3,278 | 2,887 | 3,107 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 1,374 | 1,019 | 3,009 | 2,943 | 3,752 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 1,381 | 613 | 1,318 | 884 | 1,059 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 1,170 | 688 | 1,306 | 850 | 970 |

# Rhan III - Casgliadau

Mae canlyniadau Cyfrifiad 2011 yn cadarnhau cryfder y Gymraeg yng Ngwynedd ar y naill law, ac yn rhoi rhybudd clir hefyd ar y llaw arall. Mae’n awgrymu bod y Gymraeg yn dal ei thir yn dda ymysg y boblogaeth frodorol, ond hefyd yn dangos tueddiad cyson o ostyngiad graddol yn y ganran sy’n gallu siarad yr iaith yn y Gymreiciaf o siroedd Cymru.

Mae pwysigrwydd hanfodol Gwynedd i ddyfodol y Gymraeg fel iaith fyw yn gwbl amlwg.

Mwy arwyddocaol na’r ffaith mai dyma’r sir sydd â’r gyfran uchaf o’i phoblogaeth yn gallu siarad Cymraeg yw mai yma y mae’r talp helaethaf a mwyaf poblog o ardaloedd lle mae mwyafrifoedd sylweddol yn siarad yr iaith.

Yr ardaloedd hyn, sef rhan helaethaf Arfon a Dwyfor a gogledd Meirionnydd, sy’n ffurfio cnewyllyn caletaf prif ardal graidd a chadarnle cryfaf y Gymraeg yn y gogledd-orllewin. Er bod yr ardal graidd hon yn ymestyn i ran gweddol helaeth o Fôn, a thros y ffin i rai o gymunedau gwledig Conwy, yma yng Ngwynedd y mae mwyafrif llethol ei phoblogaeth.

Mae angen gweld llawer mwy o gydnabyddiaeth ar lefel genedlaethol i arwyddocâd y brif ardal graidd hon.

Mae’n wir y cydnabyddir yn led gyffredinol yr angen am gynnal cymunedau lle mae dros 70% o’r boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, ond digon prin fu unrhyw ymgais wirioneddol i weithredu’n effeithiol tuag at gyflawni’r nod. Mwy allweddol nag union ganrannau cymunedau unigol, fodd bynnag, yw’r darlun ehangach yn yr ardaloedd o’u cwmpas. O roi rhannau Cymreiciaf Gwynedd at ei gilydd, mae gennym ddarn helaeth a di-dor o dir ac iddo dros 80,000 o boblogaeth lle mae tri chwarter y boblogaeth yn gallu siarad Cymraeg, lle mae mwyafrif llethol y poblogaeth frodorol a mwy na chwarter y boblogaeth a aned y tu allan i Gymru yn gallu siarad yr iaith. Yn wir, mae’r canrannau o bobl sy’n gallu siarad Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn uwch na’r canrannau o’r boblogaeth a aned yng Nghymru. Yma hefyd y mae’r canrannau uchaf o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Un casgliad clir sy’n amlwg wrth edrych yn fanwl ar ystadegau iaith Gwynedd yw mai newid poblogaeth yw prif elfen y newid ieithyddol yn y mwyafrif llethol o ardaloedd y sir. Mae ardaloedd helaeth sy’n colli pobl leol Gymraeg eu hiaith a phobl ddi-Gymraeg o’r tu allan yn cymryd eu lle. Mae cynnydd graddol mewn poblogaeth rhai ardaloedd hefyd, nad yw wedi arwain at gynnydd cyfatebol yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg, wedi erydu ymhellach y canrannau sy’n gallu siarad yr iaith.

Er bod y Gymraeg yn ymddangos fel petai’n dal ei thir yn dda ymysg y boblogaeth frodorol, rhaid cofio mai cofnodi’r gallu i siarad Cymraeg y mae’r Cyfrifiad ac nid mesur y graddau y mae’n cael ei defnyddio. Ni wyddom i ba raddau y mae mewnfudo cyson yn effeithio ar y defnydd o’r iaith mewn gwahanol ardaloedd o’r sir.

Rhaid nodi rhai arwyddion penodol o ddirywiad.

- Hyd yn oed o fewn y brif ardal graidd bu gostyngiad graddol a chyson, fel bod y ganran yn Nwyfor yn beryglus o agos i’r trothwy allweddol o 70%
- Mae dirywiad sylweddol wedi bod yn ardal wledig de Meirionnydd rhwng 2001 a 2011, a dirywiad yn parhau ar hyd yr arfordir
- Hyd yn oed ar ôl diystyru effaith y myfyrwyr ym Mangor, mae arwyddion o ddirywiad ymysg y boblgaeth gynhenid, gyda chyfrannau uwch o bobl hŷn nag sydd o oedolion iau yn siarad yr iaith.

Ar y cyfan, bu degawd cyntaf y mileniwm yn gymharol garedig i’r Gymraeg yng Ngwynedd o safbwynt graddau mewnfudo. Mae lle i amau fodd bynnag fod hynny i’w briodoli i raddau helaeth i’r dirwasgiad yn y farchnad dai ledled Prydain, ac y gallai newid yn y farchnad arwain at ailagor y llifddorau unwaith eto. Mae hyn yn amlygu’r angen am gyflwyno amodau tynn ar unrhyw ddatblygiadau newydd lle nad oes tystiolaeth o’u lles.

Wrth edrych tua’r dyfodol, rhaid gofyn a yw Gwynedd yn cael y flaenoriaeth haeddiannol yn yr ymdrechion cenedlaethol i gynnal a chryfhau’r Gymraeg. Mae’r graddau y mae’r Gymraeg yn dal ei thir ymysg y boblogaeth frodorol a hefyd yn ymestyn ei thir i leiafrif sylweddol o fewnfudwyr o’r tu allan i Gymru yn dangos pa mor amhrisiadwy yw ei phrif gadarnleoedd er mwyn hyfywedd yr iaith. Dylai fod yn gwbl amlwg bod cryfhau’r craidd yn elfen gwbl allweddol a hanfodol yn yr ymdrechion i adfywio’r Gymraeg ledled Cymru.

Byddai llwyddo i gynyddu’r niferoedd a chodi’r canrannau sy’n gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd yn sicr o fod yn un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol o gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg. Byddai neilltuo mwy o arian ac adnoddau tuag at y nod hwn yn sicr o fod yn ddefnydd cost-effeithiol o adnoddau. Yn yr un modd, dylid troi pob carreg i ddenu sefydliadau Cymraeg i ad-leoli i’r sir.

Ar hyd y canrifoedd, bu’r arwyddair Cadernid Gwynedd yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth a balchder cenedlaethol. Nid oes unrhyw amheuaeth mai cryfder cymharol yr iaith yng Ngwynedd yw prif gadernid y Gymraeg heddiw. Mae’n rhoi mwy o bwysigrwydd nag erioed ar gynnal a chryfhau’r cadernid hwnnw i’r dyfodol.

# Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o’r Gymraeg ym Môn

# Cynnwys

**Rhagair**

**Rhan I - Braslun o sefyllfa'r iaith drwy'r sir gyfan**

1.1 Cyflwyniad

1.2 Y gallu i siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o'r sir

1.3 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl mannau geni

1.4 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran

1.5 Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc

**Rhan II – Y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd**

2.1 Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys

2.2 Arfordir y de-orllewin

2.3 Caergybi, y Fali a Rhosneigr

2.4 Amlwch a gogledd yr ynys

2.5 Glannau Menai a'r arfodir dwyreiniol

**Rhan III Casgliadau**

# Rhagair


Dogfen fyw yn hytrach na gwaith gorffenedig yw’r dadansoddiad hwn. Fe’i bwriedir fel cam cyntaf yn y gwaith o ddatblygu asesiad cynhwysfawr a manwl o sefyllfa’r Gymraeg ym Môn ar sail yr wybodaeth ddiweddaraf. Mae wedi’i seilio’n bennaf ar hyn o bryd ar Gyfrifiad 2011 a chyfrifiadau blaenorol, ond y bwriad yw ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol ato. Mae’r fersiwn hon yn ymdrin yn weddol gyffredinol â gwahanol ranbarthau o fewn y sir, ond bwriedir datblygu hyn ymhellach i ymdrin yn fanylach ag ardaloedd llai yn ogystal.

Y nod yw ceisio gwell dealltwriaeth o’r tueddiadau ieithyddol sydd ar waith, fel bod yr wybodaeth lawnaf wrth law ar gyfer paratoi strategaethau i gynyddu’r niferoedd a’r canrannau sy’n siarad Cymraeg yn y sir.

Trwy gynnig ffynhonnell lawn o wybodaeth gynhwysfawr ynglŷn â’r Gymraeg yn y sir, y gobaith yw y bydd yn ddefnyddiol i gynllunwyr ieithyddol, ymgyrchwyr iaith, ymchwilwyr a chynrychiolwyr etholedig.

# Rhan 1 – Braslun o sefyllfa’r Gymraeg drwy’r sir

## 1.1 Cyflwyniad





Er bod y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg ym Môn wedi dal eu tir ym Môn dros yr hanner canrif ddiwethaf, maent wedi lleihau’n gyson fel canran o’r boblogaeth.

Ynghyd â siroedd Meirionnydd, Ceredigion a Chaerfyrddin, roedd Môn yn un o bedair o’r hen 13 sir yng Nghymru lle’r oedd tri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 1961. Erbyn 2011 roedd y ganran i lawr i 57.2% ym Môn; er hynny roedd y Gymraeg wedi dal ei thir yn well yma’n dipyn gwell o gymharu â dwy o’r siroedd hyn; roedd y gyfran sy’n siarad Cymraeg wedi gostwng yn is na’r hanner yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin.

Yn 2011, roedd bron i ddau draean o boblogaeth y sir wedi eu geni yng Nghymru, a’r niferoedd a aned yn Lloegr yn cyfrif am 28.8% o’r boblogaeth.

Mae gwahaniaethau clir i’w weld o fewn y sir, gyda chanol yr ynys yn llawer Cymreiciach na’r arfordir. Mae dros 70% yn gallu siarad Cymraeg ym mron bob un o gymunedau’r mewndir, ond nid oes unrhyw gymuned ar yr arfordir gyda chyfran gyfuwch yn siarad yr iaith.  Mae dylanwad mewnfudo i’w weld yn llawer o’r pentrefi glan-môr, er yr ymddengys fod y Gymraeg wedi dal ei thir yn dda ymysg y boblogaeth frodorol mewn llawer ohonynt. Mae’r partrwm yn wahanol iawn yng Nghaergybi, fodd bynnag, lle mae cyfran uwch na chyfartaledd yr ynys o’r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, ond lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng o 7,000 yn 1961 i ychydig dros 4,500 erbyn

heddiw, a lle mae'n amlwg fod yr iaith yn colli tir ymhlith y boblogaeth frodorol. Dengys y siart gron uchod fod 11% o'r boblogaeth yn deall Cymraeg llafar yn unig; mae hon yn gyfran uwch na'r hyn yw yng Ngwynedd, a'r niferoedd uchel yn nhref Caergybi sy'n gyfrifol i raddau helaeth am hyn.




| | 1961 | 1971 | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth | 49156 | 56450 | 63760 | 66525 | 64742 | 67403 |
| Siaradwyr Cymraeg | 37101 | 37090 | 39295 | 41240 | 38971 | 38568 |


## 1.2 Y gallu i siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o’r sir

Er y bwriedir ymhelaethu mwy yn y rhan nesaf am wahanol ardaloedd o’r sir, ni ellir cael darlun cyffredinol o’r sir heb gyfeirio’n fras at y gwahaniaethau sylweddol rhwng gwahanol rannau o’r sir a’i gilydd o safbwynt y gallu i siarad Cymraeg.


Fel y nodwyd eisoes, un o’r prif wahaniaethau yw rhwng perfeddwlad ac arfordir yr ynys. Ar y llaw arall, mae amrywiaethau sylweddol ar hyd yr arfordir hefyd, ac ni fyddai unrhyw synnwyr daearyddol mewn edrych ar yr arfordir cyfan gyda’i gilydd. Nid oes rhaniadau daearyddol mor bendant ym Môn, yn absenoldeb mynyddoedd a dyffrynnoedd sylweddol, ond i ddiben y dadansoddiad hwn, ceisiwyd gosod ardaloedd sy’n rhannu nodweddion ieithyddol gyda’i gilydd, ond gan geisio cadw’n fras hefyd at ddalgylchoedd trefi. Er mwyn osgoi cymhlethu’r darlun yn ormodol, cadwyd at bum ardal, ond gan gydnabod yr un pryd bod amrywiaethau o fewn yr ardaloedd hyn.

- **(i)** **Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys.** Dyma ran Cymreiciaf yr ynys o bell ffordd, lle mae tri chwarter o’r boblogaeth o 17,000 yn gallu siarad Cymraeg.
- **(ii)** **Arfordir y de-orllewin** Ardal wledig denau ei phoblogaeth, sy’n cynnwys pentrefi Aberffraw, Niwbwrch, Brynsiencyn a Llanddaniel. Ardal a fu’n drwyadl Gymraeg tan yn gymharol ddiweddar, ond lle mae mewnfudo wedi dod â’r gyfran sy’n gallu siarad yr iaith i lawr i 63%
- **(iii)** **Caergybi, Y Fali a Rhosneigr** Caergybi yw tref fwyaf yr ynys o ddigon, ac mae wedi gweld dirywiad sylweddol yn y niferoedd a’r canran sy’n siarad Cymraeg dros y blynyddoedd. Yn wahanol i weddill yr ynys, colli tir yn y boblogaeth frodorol yn hytrach na mewnfudo yw’r prif reswm y tu ôl i’r dirywiad yn y Gymraeg yn y dref. Mae Rhosneigr hefyd yn fwy Seisnig na phentrefi glan-môr eraill yr ynys.
- **(iv)** **Amlwch a gogledd yr ynys** Mae 60% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn Amlwch a phentrefi gogledd yr ynys, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd yr ynys
- **(v)** **Glannau Menai a phentrefi’r arfordir dwyreiniol** Mae’r rhan hwn o Fôn wedi Seisnigeiddio llawer dros y blynyddoedd, a thua hanner y boblgaeth oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011.

# Y canrannau o’r bobl dros 3 oed yn gallu siarad Cymraeg mewn gwahanol rannau o’r sir, 2011





## 1.3 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl mannau geni




Mae ychydig dros draean o bobl y sir wedi cael eu geni y tu allan i Gymru, ac mewn sawl ardal ar yr arfordir mae’r niferoedd sydd wedi cael eu geni yng Nghymru yn y lleiafrif.

Gwelwn o’r siart isod a’r tabl gyferbyn fod mwyafrif sylweddol (78%) o’r bobl hynny a aned yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Eto i gyd, mae hyn yn dipyn is na’r hyn yw yng Ngwynedd, lle mae’r gyfran yn 89%. Fel y gwelwn wrth edrych ar ardaloedd unigol, mae’r gyfran yn amrywio o 58.8% yn ardal Caergybi i 90.4% yng nghanol yr ynys. Mae’r gyfran yn uchel hefyd mewn ardaloedd gwledig ar yr arfordir, hyd yn oed lle llawer o fewnfudo wedi bod. Dengys y siart arall fod 17.6% o’r bobl a aned y tu allan i Gymru, canran sy’n codi i bron i chwarter, 24.6% yng nghanol yr ynys.



Dadansoddiad daearyddol ac ystadegol o’r Gymraeg ym Môn

| Ardal | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Môn gyfan** | 67,403 | 38,568 | 57.2 | 44,088 | 65.4 | 34,465 | 78.2 | 4,103 | 17.6 |
| **Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys** | 17,286 | 12,947 | 74.9 | 13,209 | 76.4 | 11,945 | 90.4 | 1,002 | 24.6 |
| **Arfordir y de-orllewin** | 5,439 | 3,421 | 62.9 | 3,582 | 65.9 | 3,090 | 86.3 | 331 | 17.8 |
| **Caergybi, Y Fali a Rhosneigr** | 18,884 | 8,132 | 43.1 | 12,403 | 65.7 | 7,290 | 58.8 | 842 | 13.0 |
| **Amlwch a gogledd yr ynys** | 10,827 | 6,504 | 60.1 | 6,559 | 60.6 | 5,700 | 86.9 | 804 | 18.8 |
| **Yr arfordir dwyreiniol** | 14,967 | 7,564 | 50.5 | 8,335 | 55.7 | 6,440 | 77.3 | 1,124 | 16.9 |

## 1.4 Y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran


Mae’r tabl isod yn dangos y gallu i siarad Cymraeg yn ôl oedran a mannau geni ym Môn. Mae dros dri chwarter plant rhwng 3 a 15 oed yn gallu siarad Cymraeg, ond y ganran yn gostwng i ychydig dros ddau draean ymhlith pobl ifanc 16-24 oed. Gwelwn fod y canrannau’n gostwng gydag oedran, fel mai llai na hanner o boblogaeth dros 50 oed yr ynys sy’n gallu siarad Cymraeg. Dyma’r union grwpiau hefyd lle mae’r canrannau isaf o’r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru.

Wrth gymharu oedrannau a mannau geni, gwelwn y ganran o’r rhai a aned yng Nghymru sy’n gallu siarad Cymraeg yn weddol gyson drwy’r grwpiau oedran, ac eithrio’r grŵp dros 65 oed, lle mae cryn dipyn yn uwch, ar 84.7%. Wrth edrych ar ffigurau fesul ardal, gwelwn fod hyn yn arbennig o wir am dref Caergybi, ac mae ffigurau’r dref wedi effeithio ar ffigurau’r sir gyfan yn hyn o beth.

Pan edrych ar y bobl a aned y tu allan i Gymru sy’n gallu siarad Cymraeg, gwelwn fod y canrannau’n llawer iawn uwch ymhlith plant a phobl ifanc.

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 67,403 | 38,568 | 57.2 | 44,088 | 65.4 | 34,465 | 78.2 | 4,103 | 17.6 |
| **3 i 15 oed** | 9,513 | 7,221 | 75.9 | 8,241 | 86.6 | 6,461 | 78.4 | 760 | 59.7 |
| **16 i 24 oed** | 6,941 | 4,663 | 67.2 | 5,430 | 78.2 | 4,136 | 76.2 | 527 | 34.9 |
| **25 i 34 oed** | 7,166 | 4,362 | 60.9 | 5,140 | 71.7 | 3,925 | 76.4 | 437 | 21.6 |
| **35 i 49 oed** | 13,237 | 7,265 | 54.9 | 8,606 | 65.0 | 6,437 | 74.8 | 828 | 17.9 |
| **50 i 64 oed** | 14,900 | 7,312 | 49.1 | 8,395 | 56.3 | 6,496 | 77.4 | 816 | 12.5 |
| **65 oed a throsodd** | 15,646 | 7,745 | 49.5 | 8,276 | 52.9 | 7,010 | 84.7 | 735 | 10.0 |

Mae'r graff isod yn dangos y newidiadau mewn iaith a phoblogaeth rhwng 2001 a 2011, fesul grŵp oedran:




| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-64 oed | dros 65 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 10,900 | 6,446 | 20,833 | 14,003 | 12,560 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 9,513 | 6,941 | 20,403 | 14,900 | 15,646 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 8,157 | 4,697 | 11,992 | 7,250 | 6,875 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 7,221 | 4,663 | 11,627 | 7,312 | 7,745 |

## 1.5 Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc

Un o nodweddion cyfrifiadau diweddar yw eu bod wedi dangos canrannau braidd yn afrealistig o uchel o blant a phobl ifanc yn gallu siarad Cymraeg. Drwy Gymru, roedd 37.6% o blant 3-15 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, o gymharu â chanran o 19.0% am y boblogaeth yn gyffredinol. Gellir tybio bod llawer o rieni di-Gymraeg yn nodi bod eu plant yn gallu siarad Cymraeg ar y sail eu bod yn dysgu'r iaith yn yr ysgol.

Ym Môn a Gwynedd hefyd, mae'r canrannau o blant sy'n gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r hyn yw yn y boblogaeth yn gyffredinol. Wrth edrych ar y grŵp oedran 3-15 roedd 75.9% yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Roedd y ganran fymryn yn uwch na'r hyn oedd 10 mlynedd ynghynt, ond fel y dengys y graff blaenorol, cafwyd cwymp cyffredinol yn nifer y plant. Mae'n werth nodi fodd bynnag fod y gyfran o 75.9% yn sylweddol is na'r 89.1% yw yng Ngwynedd, ond yn fwy annisgwyl efallai, mae hefyd fymryn yn is na'r hyn yw yng Ngheredigion, lle mae 78.4% o blant yn gallu siarad Cymraeg o gymharu â 47.3% o'r boblogaeth yn gyffredinol.

Heb wybodaeth am safon gallu'r plant i siarad Cymraeg nac ychwaith am y graddau y maent yn defnyddio'r iaith, ni ellir dehongli gormod o ffigurau'r Cyfrifiad am blant oedran ysgol.

Mae gwybodaeth ychydig yn fwy defnyddiol i'w chael wrth edrych yn benodol ar y grŵp oedran 3-4 oed, gan fod y ffigurau'n fwy tebygol o adlewyrchu rhywfaint ar gefndir ieithyddol y plant. Mae ffigurau ar gael fesul pob oedran ar gyfer y sir gyfan, ac ar gyfer y grŵp oedran 3-4 mewn wardiau unigol. Y ffigurau ar gyfer Môn yn ei chyfanrwydd oedd 49.1% o blant 3 oed, a 59.3% o blant 4 oed yn gallu siarad Cymraeg yn 2011. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng 3 a 4 oed yn annisgwyl gan y bydd llawer o blant wedi dysgu'r Gymraeg yn ystod yr oedran hwnnw.

Ymysg yr oedrannau hyn hefyd, mae'r canrannau'n is na'r hyn ydynt yng Ngwynedd a Cheredigion. Roedd 69.2% o blant 3 oed a 76.6% o blant 4 oed Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, a'r ffigurau cyfatebol yng Ngheredigion oedd 50.8% o blant 3 oed, a 65.6% o blant 4 oed yn gallu siarad Cymraeg. Byddai disgwyl i ganrannau Môn fod yn is na'r hyn ydynt yng Ngwynedd, ond yr hyn sy'n arwyddocaol efallai yw bod y gyfran o blant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn is na'r gyfran am y boblogaeth gyfan, tra bod y cyfrannau ymysg plant yr oedran hwn yn uwch na'r hyn ydynt am y boblogaeth gyfan yn y ddwy sir arall.

Mae’r tabl isod yn rhoi darlun o’r sefyllfa ymysg plant 3 a 4 oed mewn gwahanol ardaloedd (nid oes ffigurau ar gyfer yr oedrannau unigol ar gael):

| Ardal | Cyfanswm plant 3 a 4 oed | Nifer sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran o'r plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran o'r boblogaeth gyffredinol sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **Môn gyfan** | 1,511 | 815 | 53.9 | 57.2 |
| **Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys** | 432 | 308 | 71.3 | 74.9 |
| **Arfordir y de-orllewin** | 96 | 59 | 61.5 | 62.9 |
| **Caergybi, Y Fali a Rhosneigr** | 496 | 160 | 32.3 | 43.1 |
| **Amlwch a gogledd yr ynys** | 216 | 145 | 67.1 | 60.1 |
| **Yr arfordir dwyreiniol** | 271 | 143 | 52.8 | 50.5 |

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr ynys, hyd yn oed yn yr ardal Gymreiciaf, mae’r cyfrannau o blant 3-4 oed sy’n gallu siarad Cymraeg yn is na’r hyn yw am y boblogaeth yn gyffredinol, ac yn ardal Caergybi mae’n sylweddol is, lle mae llai na thraean o’r blant yn gallu’r iaith. Mae’n adlewyrchu patrwm cyffredinol o ddirywiad yn y Gymraeg ymysg cenedlaethau iau.

Wrth ymdrin â’r gallu i siarad Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc, y cwestiwn mawr arall i’w ofyn yw i ba raddau y maent yn dal i allu siarad Cymraeg ar ôl gadael ysgol a phan fyddant yn oedolion. Ni all ystadegau am blant heddiw ddweud dim wrthym wrth gwrs, ond mae modd cymharu ffigurau am oedolion ifanc â ffigurau am blant mewn cyfrifiadau yn y gorffennol.


Gellir er enghraifft, edrych ar y niferoedd a’r canrannau a oedd yn gallu siarad Cymraeg ymysg plant 10-14 oed yn 2001, a chymharu’r rhain â’r ffigurau cyfatebol am bobl ifanc yn y grŵp oedran 20-24 oed yn 2011. Mae modd gwneud cymariaethau tebyg rhwng plant 15 oed yn 2001 a phobl ifanc 25 oed yn 2011.

O wneud hyn, mae colledion dramatig i'w gweld yn y niferoedd ledled Cymru, a gall fod mwy nag un rheswm dros hyn:

- allfudo;
- plant yn colli eu gallu i siarad Cymraeg, neu
- nad oedden nhw'n gallu siarad Cymraeg mewn gwirionedd 10 mlynedd ynghynt.


Un peth a welwn yw colledion sylweddol, fel y dengys y ddau graff isod.

**Môn: Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant 10-14 oed yn 2001 a phobl ifanc 20-24 oed yn 2011**





| | 10-14 oed yn 2001 | 20-24 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 4,415 | 3,863 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 3,558 | 2,467 |

**Môn: Y gallu i siarad Cymraeg ymysg plant 15 oed yn 2001 a phobl ifanc 25 oed yn 2011**





| | 15 oed yn 2001 | 25 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 804 | 690 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 646 | 433 |

Rhaid nodi fodd bynnag bod y colledion yng Ngwynedd a Môn yn llawer llai nad ydynt yng Nghymru ar gyfartaledd. Dyma’r graffiau cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan:




| | 10-14 oed yn 2001 | 20-24 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 195,991 | 211,924 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 85,675 | 37,258 |






| | 15 oed yn 2001 | 25 oed yn 2011 |
|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth y grwp oedran | 37,932 | 38,202 |
| Siaradwyr Cymraeg yn y grwp oedran | 16,243 | 6,573 |

# Rhan II – Y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd

## 2.1 Llangefni, Llanfairpwll a chanol yr ynys

Mae’r ardal hon yn cynnwys tref Llangefni a chymunedau canol yr ynys: Bodedern, Bryngwran, Llannerchymedd, Trewalchmai, Bodffordd, Llangristiolus, Llanddyfnan, Llanfihangel Esceifiog, Penmynydd. Ychwanegwyd Llanfairpwll ati hefyd oherwydd ei debygrwydd ieithyddol.




Tref Llangefni, gyda’i phoblogaeth o tua 5,000 yw’r dref fwyaf a dyma’r gymuned Gymreiciaf hefyd gydag 80.7% yn gallu siarad Cymraeg. Bu cynnydd ym mhoblogaeth y dref rhwng 2001 a 2011 a chynnydd (llai) yn y niferoedd sy’n siarad Cymraeg, ond aeth y ganran i lawr. Gostwng, ar y llaw arall, a wnaeth y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg yn y dalgylch gwledig, gyda’r ganran ychydig dros 70% yn y mwyafrif o’r pentrefi.

Fel y dengys y siart ar y chwith, bu cynnydd o bron i fil ym mhoblogaeth yr ardal rhwng 2001 a 2011, ond gan nad aeth y nifer sy’n gallu siarad Cymraeg i fyny ond 147, aeth y ganran i lawr o 78.6% i 74.9%.

Gwelwn o’r tabl isod mai ymhlith y grwpiau oedran hŷn, 50-64 oed a thros 65, y mae’r canrannau isaf o bobl yn gallu siarad Cymraeg, lle mae’r cyfrannau tua dau draean o gymharu â thri chwarter a mwy ymysg y grwpiau iau. Mae hyn oherwydd mai o blith y grwpiau oedran hŷn y mae’r canrannau uchaf o bobl a aned y tu allan i Gymru.


Gwewn fod y  mwyafrif llethol – rhwng 89.2% a 91.8% - o’r bobl a aned yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg ym mhob grŵp oedran.

O blith y bobl a aned y tu allan i Gymru, mae’r canrannau ohonynt sy’n gallu siarad Cymraeg yn llawer uwch ymhlith plant ac oedolion iau nac ymhlith pobl hŷn.


| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 17,286 | 12,947 | 74.9 | 13,209 | 76.4 | 11,945 | 90.4 | 1,002 | 24.6 |
| **3 i 15 oed** | 2,594 | 2,300 | 88.7 | 2,377 | 91.6 | 2,156 | 90.7 | 144 | 66.4 |
| **16 i 24 oed** | 1,804 | 1,515 | 84.0 | 1,528 | 84.7 | 1,396 | 91.4 | 119 | 43.1 |
| **25 i 34 oed** | 1,881 | 1,486 | 79.0 | 1,510 | 80.3 | 1,372 | 90.9 | 114 | 30.7 |
| **35 i 49 oed** | 3,623 | 2,643 | 73.0 | 2,680 | 74.0 | 2,393 | 89.3 | 250 | 26.5 |
| **50 i 64 oed** | 3,761 | 2,522 | 67.1 | 2,582 | 68.7 | 2,304 | 89.2 | 218 | 18.5 |
| **65 oed a throsodd** | 3,623 | 2,481 | 68.5 | 2,532 | 69.9 | 2,324 | 91.8 | 157 | 14.4 |

## 2.2 Arfordir y de-orllewin

Ardal wledig a thenau ei phoblogaeth sy’n cynnwys cymunedau Aberffraw, Bodorgan, Llanddaniel Fab, Llanidan a Rhosyr. Ei phrif bentrefi yw Aberffraw, Dwyran, Niwbwrch a Brynsiencyn.




Mae’n ardal a fu’n drwyadl Gymraeg tan y degawdau diwethaf, ond mae gostyngiadau sylweddol wedi bod yn y canrannau sy’n siarad Cymraeg. Gyda chynnydd o dros 200 yn y boblogaeth gyffredinol rhwng 2001 a 2011, ond lleihad o dros 100 yn y niferoedd sy’n siarad Cymraeg, aeth y ganran i lawr o 67.8% i 62.9% yn ystod yr un cyfnod.




Gwelwn yn y tabl gyferbyn fod ychydig llai na dau draean o’r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru, ond bod y gyfradd yn gostwng i ychydig dros hanner ymysg y grwpiau oedran hŷn. Mae effaith hyn i’w weld yn glir ar y canrannau sy’n siarad Cymraeg, gyda’r ganran yn gostwng islaw’r hanner ymysg pobl dros 65 oed.


O blith y bobl a aned yng Nghymru, ar y llaw arall, mae mwyafrif llethol ym mhob grŵp oedran yn siarad Cymraeg. Mae’r cyfrannau o bobl o’r tu allan i Gymru sy’n gallu’r Gymraeg yn lleihau’n gyson po hyned yw’r oedran.


## Arfordir y de-orllewin

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 5,439 | 3,421 | 62.9 | 3,582 | 65.9 | 3,090 | 86.3 | 331 | 17.8 |
| **3 i 15 oed** | 713 | 595 | 83.5 | 629 | 88.2 | 544 | 86.5 | 51 | 60.7 |
| **16 i 24 oed** | 535 | 413 | 77.2 | 450 | 84.1 | 379 | 84.2 | 34 | 40.0 |
| **25 i 34 oed** | 526 | 372 | 70.7 | 380 | 72.2 | 333 | 87.6 | 39 | 26.7 |
| **35 i 49 oed** | 1,093 | 691 | 63.2 | 733 | 67.1 | 623 | 85.0 | 68 | 18.9 |
| **50 i 64 oed** | 1,257 | 696 | 55.4 | 704 | 56.0 | 613 | 87.1 | 83 | 15.0 |
| **65 oed a throsodd** | 1,315 | 654 | 49.7 | 686 | 52.2 | 598 | 87.2 | 56 | 8.9 |

## 2.3 Caergybi, Y Fali a Rhosneigr

Mae’r ardal hon sy’n cynnwys tref Caergybi, ynghyd â chymunedau Trearddur, Rhoscolyn, y Fali, Llanfair yn Neubwll a Llanfaelog, yn llai Cymraeg na gweddill y sir, a dyma hefyd lle gwelwyd mwyaf o ddirywiad rhwng 2001 a 2011, pryd y bu gostyngiad o dros 600 yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg, a’r ganran yn gostwng o 47.0% i 43.1%.




Tref Caergybi gyda phoblogaeth o ychydig dros 11,000 yw tref fwyaf Môn a dyma lle mae dros hanner poblogaeth yr ardal hon. Mae’r ganran sy’n gallu siarad Cymraeg yn y dref, 42.2%, yn debyg i’r ardal o’i chwmpas, ond gan fod rhai gwahaniaethau sylfaenol, mae’n werth edrych ar y dref ar wahân.

Bu cwymp o dros 480 yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg yn y dref rhwng 2011 a 2001. Yn wahanol i weddill yr ynys, ymddengys mai’r Gymraeg yn colli tir ymysg y boblogaeth frodorol yn hytrach na mewnfudiad yw’r prif ffactor yn y dirywiad. Roedd bron i dri chwarter poblogaeth y dref wedi eu geni yng Nghymru – un o’r canrannau uchaf yn yr ynys – ond dim ond ychydig dros eu hanner, 52.2%, oedd yn gallu siarad Cymraeg.

Dim ond hanner plant y dref sy’n gallu siarad Cymraeg, sydd fymryn is na’r gyfran ymhlith pobl dros 65 oed. Mae’n llai na 40% ym mhob grŵp oedran arall. O blith y rhai a aned yng Nghymru, mae 77.5% o’r rhai dros 65 oed yn gallu siarad Cymraeg, sy’n ganran llawer iawn uwch nag unrhyw grŵp oedran arall. Mae’n awgrymu tueddiad o newid ieithyddol sy’n mynd yn ôl ddegawdau.


Yn yr ardaloedd y tu allan i’r dref, mae cyfran mymryn uwch, 44.4% yn gallu siarad Cymraeg, ond cyfran llawer is, 54.4% o’r boblogaeth a aned yng Nghymru. O blith y rhain roedd 71.1% yn gallu siarad Cymraeg, a’r ganran yn codi i 79.1% ymhlith pobl dros 65 oed.

## Caergybi a’r Cylch


| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 18,884 | 8,132 | 43.1 | 12,403 | 65.7 | 7,290 | 58.8 | 842 | 13.0 |
| **3 i 15 oed** | 2,879 | 1,593 | 55.3 | 2,394 | 83.2 | 1,379 | 57.6 | 214 | 44.1 |
| **16 i 24 oed** | 2,084 | 949 | 45.5 | 1,574 | 75.5 | 811 | 51.5 | 138 | 27.1 |
| **25 i 34 oed** | 2,296 | 941 | 41.0 | 1,592 | 69.3 | 852 | 53.5 | 89 | 12.6 |
| **35 i 49 oed** | 3,804 | 1,377 | 36.2 | 2,433 | 64.0 | 1,240 | 51.0 | 137 | 10.0 |
| **50 i 64 oed** | 3,878 | 1,478 | 38.1 | 2,297 | 59.2 | 1,357 | 59.1 | 121 | 7.7 |
| **65 oed a throsodd** | 3,943 | 1,794 | 45.5 | 2,113 | 53.6 | 1,651 | 78.1 | 143 | 7.8 |

## 2.4 Amlwch a gogledd yr ynys

Mae tua thraean o boblogaeth cymunedau arfordir gogledd yr ynys yn byw yn Amlwch. Mae’n cynnwys cymunedau Llanfachraeth, Llanfaethlu, Tref Alaw, Cylch y Garn, Mechell, Llanbadrig, Amlwch, Llaneilian a Rhosybol, a’i phrif bentrefi’n cynnwys Camaes, Pensarn, Llanfechell a Llaneilian.




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 9,732 | 6,049 |
| 2011 | 10,827 | 6,504 |




Roedd mymryn dros 60% o’r boblogaeth o tua 11,000 yn gallu siarad Cymraeg yn 2011, sydd fymryn yn uwch na’r hyn yw yn yr ynys ar gyfartaledd. Bron union yr yn fath yw’r ganran o’r boblogaeth a aned yng Nghymru; ac o’r rhain mae’r mwyafrif llethol ym mhob grŵp oedran yn gallu siarad Cymraeg, er bod y canrannau fymryn bach yn is nag yng nghanol yr ynys. Fel mewn rhannau eraill o’r ynys, mae cyfran uchel o bobl yn y grwpiau oedran hŷn wedi eu geni y tu allan i Gymru, ac maent yn cyfrif am fwyafrif y bobl dros 50 oed.


Mae’r graff ar y chwith yn dangos cynnydd sylweddol yn y boblogaeth rhwng 2001 a 2011, ond gall hynny fod yn rhannol oherwydd camgymeriad gyda chyfrifiad 2001 yn nhref Amlwch, felly mae’n anodd gwneud cymariaethau cywir.


## Amlwch a gogledd Môn

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 10,827 | 6,504 | 60.1 | 6,559 | 60.6 | 5,700 | 86.9 | 804 | 18.8 |
| **3 i 15 oed** | 1,494 | 1,269 | 84.9 | 1,288 | 86.2 | 1,115 | 86.6 | 154 | 74.8 |
| **16 i 24 oed** | 1,093 | 832 | 76.1 | 830 | 75.9 | 722 | 87.0 | 110 | 41.8 |
| **25 i 34 oed** | 1,017 | 732 | 72.0 | 736 | 72.4 | 638 | 86.7 | 94 | 33.5 |
| **35 i 49 oed** | 2,074 | 1,216 | 58.6 | 1,249 | 60.2 | 1,049 | 84.0 | 167 | 20.2 |
| **50 i 64 oed** | 2,543 | 1,221 | 48.0 | 1,222 | 48.1 | 1,071 | 87.6 | 150 | 11.4 |
| **65 oed a throsodd** | 2,606 | 1,234 | 47.4 | 1,234 | 47.4 | 1,105 | 89.5 | 129 | 9.4 |

## 2.5 Glannau Menai a phentrefi’r arfordir dwyreiniol

Mae’r ardal hon sy’n ymestyn ar hyd yr arfordir o lannau Menai i Foelfre yn cynnwys cymunedau Porthaethwy, Cwm Cadnant, Biwmares, Llangoed, Llanddona, Pentraeth, Llanfair Mathafarn Eithaf, Llaneugrad a Moelfre. Mae dros hanner y boblogaeth yn byw yn y tri phrif annedd, sef Porthaethwy, Biwmares a Benllech.




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 14,900 | 7,843 |
| 2011 | 14,967 | 7,564 |

Mae’n ardal sydd wedi profi mewnfudo cyson dros y blynyddoedd, ac ychydig dros hanner y boblogaeth, 55.7%, a aned yng Nghymru, ac mae’r ganran yn is na’r hanner ymysg pobl dros 50 oed, ac yn sylweddol is ymysg pobl dros 65.

Mae’r ganran o’r boblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng ychydig o 52.7% yn 2001 i 50.5% yn 2001.

Y dref fwyaf Seisnig yw Biwmares lle nad oes ond 39.5% yn gallu siarad Cymraeg, ac yn wahanol i weddill yr ardal, mae’r gyfran sy’n gallu’r Gymraeg yn llai na’r hanner ers degawdau maith. Ychydig dros hanner y boblogaeth y dref a aned yng Nghymru, ac o’r rhain roedd 58.7% yn siarad Cymraeg, y ganran isaf ym mhobman ar yr ynys ac eithrio Caergybi.

Mae Porthaethwy yn dref gymysg ei hiaith, lle gostyngodd y ganran sy’n medru’r Gymraeg o 60.2% yn 2001 i 54.9% yn 2011. Mae cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf, lle mae

Benllech, wedi mwy na dyblu yn ei phoblogaeth o tua 1500 yn 1961 i tua 3300 yn 2011, a bellach mae mwy o’r boblogaeth wedi eu geni yn Lloegr nag sydd yng Nghymru.

## Glannau Menai a’r arfordir dwyreiniol

| Oedran | Cyfanswm poblogaeth dros 3 oed | Cyfanswm sy'n gallu siarad Cymraeg | Canran sy'n siarad Cymraeg | Nifer y bobl a aned yng Nghymru | Canran y bobl a aned yng Nghymru | Nifer y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg | Nifer y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg | Canran y rhai a aned y tu allan i Gymru sy'n siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pawb dros 3 oed** | 14,967 | 7,564 | 50.5 | 8,335 | 55.7 | 6,440 | 77.3 | 1,124 | 16.9 |
| **3 i 15 oed** | 1,833 | 1,464 | 79.9 | 1,553 | 84.7 | 1,267 | 81.6 | 197 | 70.4 |
| **16 i 24 oed** | 1,425 | 954 | 66.9 | 1,048 | 73.5 | 828 | 79.0 | 126 | 33.4 |
| **25 i 34 oed** | 1,446 | 831 | 57.5 | 922 | 63.8 | 730 | 79.2 | 101 | 19.3 |
| **35 i 49 oed** | 2,643 | 1,338 | 50.6 | 1,511 | 57.2 | 1,132 | 74.9 | 206 | 18.2 |
| **50 i 64 oed** | 3,461 | 1,395 | 40.3 | 1,590 | 45.9 | 1,151 | 72.4 | 244 | 13.0 |
| **65 oed a throsodd** | 4,159 | 1,582 | 38.0 | 1,711 | 41.1 | 1,332 | 77.8 | 250 | 10.2 |

# Rhan III – Casgliadau

Mae ffigurau’r Cyfrifiadau diwethaf yn rhoi darlun cymharol gymysg o sefyllfa’r Gymraeg ym Môn. Maent yn dangos effaith amlwg mewnfudo dros y degawdau diwethaf, a’r hefyd yr iaith yn colli tir yn sylweddol ymysg poblogaeth tref fwyaf y sir, sef Caergybi. Ar yr un pryd, mae rhan helaethaf o ganol yr ynys ymhlith ardaloedd Cymreiciaf Cymru, ac yn rhan sylweddol o brif gadarnle’r Gymraeg y mae’r rhan fwyaf ohono yng Ngwynedd.

Wrth edrych ar yr ynys yn ei chyfanrwydd, mae’n ymddangos na fu newid mawr rhwng 2001 a 2011. Bychan iawn yw’r gostyngiad o fymryn dros 400 yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg yn ystod y ddegawd, ond mae’r gostyngiad yn y ganran yn dangos parhad tueddiad cyson dros y 50 mlynedd ddiwethaf. Mae sir lle’r oedd tri chwarter y boblogaeth yn siarad Cymraeg yn 1961 bellach heb fod â llawer mwy hanner ei phoblogaeth yn gallu siarad yr iaith.

Bu gostyngiad sylweddol yn y niferoedd sy’n gallu siarad Cymraeg yng Nghaergybi a’r cyffiniau. Mewn gwirionedd roedd y gostyngiad o bron i 500 yn y dref ei hun yn fwy na’r gostyngiad dros yr ynys gyfan, gyda chynnydd bach yn y niferoedd yma ac acw yng ngweddill yr ynys yn gwrthweithio hyn. Mae Caergybi hefyd yn wahanol i weddill yr ynys yn yr ystyr fod cyfran llawer uwch o’r boblogaeth wedi eu geni yng Nghymru. Wrth edrych ar batrymau oedran, daw’n amlwg hyn a welwn yn y dref yw dirywiad yn yr iaith ymysg y boblogaeth gynhenid yn hytrach nag effeithiau mewnfudo.

Ar y llaw arall, mae dylanwad mewnfudo’n amlwg iawn ar hyd y rhan fwyaf o arfordir yr ynys, gyda dros 40% o’r boblogaeth wedi cael eu geni y tu allan i Gymru mewn llawer i ardal.

Er bod bron iawn i dri chwarter poblogaeth mewndirol yr ynys yn gallu siarad Cymraeg, a’r niferoedd wedi codi fymryn bach, mae’r ganran wedi gostwng 3.6 pwynt canran ers 2001. Mae gostyngiadau sylweddol wedi bod yn llawer o’r pentrefi, ac mae’r ffigurau’n awgrymu bod hynny’n rhannol o ganlyniad i bobl leol Gymraeg eu hiaith yn symud i Langefni a phobl ddi-Gymraeg o’r tu allan yn symud i mewn iddynt.

Nid yw’r Gymraeg ym Môn cyn gryfed at yw yng Ngwynedd, y sir agosaf ati, a’r unig sir sy’n ffinio â hi. Mae’r ganran o blant, yn enwedig rhai 3-4 oed, yn ymddangos yn siomedig o isel, er ei fod bron union yr hyn oedd yn 2001.

Er bod mwyafrif llethol – 78.2% - y bobl a aned yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg, mae hyn yn 2 bwynt canran yn is na’r hyn oedd yn 2001. Mae’n debyg mai yn ardal Caergybi y digwyddodd y rhan fwyaf o’r dirywiad hwn. Mae patrwm ieithyddol digon tebyg i’w weld ar waith ym Mangor hefyd, ond gan fod Môn yn sir llawer llai ei phoblogaeth na Gwynedd, mae Caergybi’n dylanwadu’n drymach ar ffigurau gweddill yr ynys.

Fel yng Ngwynedd, mae tua thraean o boblogaeth yr ynys wedi eu geni y tu allan i Gymru, a’r cyfrannau’n llawer uwch ymhlith pobl dros 50. Canran isel o’r bobl sy’n gallu siarad Cymraeg.

Deil Llangefni i fod yn un o drefi Cymreiciaf Cymru, ac mae’r ganran sy’n gallu siarad Cymraeg yno yn uwch nag yn unman arall ac eithrio Caernarfon a’r cyffiniau. Er bod canrannau uchel yn gallu siarad Cymraeg yn y pentrefi cyfagos, maent yn is nag yn y dref ei hun.

O edrych ar dueddiadau’r 50 mlynedd ddiwethaf, yr hyn sydd wedi digwydd yw bod cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at leihad yn y canrannau sy’n siarad Cymraeg. Gellid dadlau bod yr iaith wedi dal ei thir yn bur dda hyd yma o ystyried graddau’r mewnfudo o’r tu allan i Gymru. Ar y llaw arall, gallai cynnydd pellach yn y boblogaeth fod yn fygythiad gwirioneddol i’r Gymraeg mewn sawl rhan o’r ynys.